

8042-01

Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

C00/4092/6

Llawlyfr Cymwysterau

Fersiwn 1.4 Medi 2023



Tabl Cynnwys

Cynnwys

Llawlyfr Cymwysterau	1
Tabl Cynnwys	2
Diben y cymhwyster	5
Nodau ac Amcanion y Cymhwyster	6
Strwythyr y Cymhwyster	7
Rheolau Cyfuno	7
Oriau Dysgu Dan Arweiniad a'r Cyfanswm Oriau Cymhwyso	8
Gofynion y ganolfan	9
Cofrestru, Cyflwyno Canlyniadau ac Ardystio	9
Staff canolfannau	10
Gofynion aseswyr	10
Sicrhau Ansawdd	10
Sicrhau Ansawdd Mewnol	10
Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol	11
Sicrhau Ansawdd Allanol	12
Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol	12
Rolau, cyfrifoldebau a Sicrhau Ansawdd	13
Proffil Asesydd Mewnol	13
Gofynion ar gyfer Aseswyr Mewnol	13
Swyddogion cyswllt/penodedig allanol	14
Y Cyd-destun yng Nghymru	14
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	14
Darparu'r cymhwyster	16
Gofynion mynediad i ddysgwyr	16
Cyfngiadau oedran	16

[Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu \(Lefel 2\)](#)

Asesiad cychwynnol a chynefino	16
Deunyddiau ategol	16
Sicrhau ansawdd y trefniadau asesu mewnol	16
Apêl fewnol	17
Camymarfer	17
Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig	17
Ystyriaeth arbennig	18
Crynodeb o'r Asesiad	19
Amser a chyfnodau asesu	19
Rhyddhau Canlyniadau	20
Ailgyflwyno/ailsefyll asesiad	21
Graddio Cymwysterau	22
Allwedd Cynnwys	24
Deilliannau dysgu	24
Meini prawf asesu	24
Ystod	24
Manyllder y cynnwys	25
Canllawiau ar gyfer Cyflawni	25
Uned 101: Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig	26
Uned 102: Cyflwyniad i'r Crefftau yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	30
Uned 103: Cyflwyniad i Gylch Bywyd yr Amgylchedd Adeiledig	33
Uned 104: Cyflogadwyedd yn y Sector Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig	45
Uned 105: Amddiffyn lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wrth weithio yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	51
Uned 106: Cyflwyniad i dechnolegau datblygol yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	62
Uned 107: Gweithio gyda briciau, blociau a cherrig	66
Uned 108: Galwedigaethau Gwaith Coed	72
Uned 109: Plastro a systemau mewnol	77

[Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu \(Lefel 2\)](#)

Uned 110: Galwedigaethau Peintio Addurnol a Diwydiannol	84
Uned 111: Galwedigaethau toi	93
Uned 112: Gwaith adeiladu a gwaith peirianeg sifil	99
Uned 113: Plymio, gwresogi ac awyru	105
Uned 114: Systemau ac offer electro-dechnegol	115
Uned 115: Gweithrediadau Peiriannau	124
Uned 116: Teilsio waliau a lloriau	131

Gwybodaeth am y Fersiwn

Fersiwn a dyddiad cyhoeddi	Newidiadau
f1 Rhagfyr 2020	Y ddogfen wreiddiol
f1.1 Ebrill 2021	- Diweddaru gofynion aseswyr ar dudalennau. 10 - darperir gwybodaeth ychwanegol yn gysylltiedig â'r unedau sy'n ofynnol ar gyfer aseswyr. - Diweddaruwyd gwybodaeth Sicrwydd Ansawdd Mewnol ar dudalennau. 11 - gwybodaeth ychwanegol a ddarperir yn gysylltiedig â'r unedau sy'n ofynnol ar gyfer aseswyr. - Diagram a mesuriadau ar gyfer drws wedi'u hychwanegu at tud. 15. - Gwybodaeth Canlyniadau Cymhwyster Cyffredinol wedi'i diweddaru ar tud. 19 - darparu canllawiau ychwanegol ar ble y gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am hyn.
f1.2 Ionawr 2022	- Rheol cyfuno wedi'i diweddaru t7 - Deunyddiau cefnogi – diweddaruwyd cyfeiriad y wefan (t17) - Dull asesu – Trafodaeth dan Arweiniad, a'r dyddiadau cyntaf sydd ar gael ar gyfer asesiadau ar y sgrin wedi'u diweddaru (t20)
f1.3 Mehefin 2022	Graddio Cymwysterau – Mae trothwyon graddau ar gyfer yr asesiad ar-sgrin wedi'u diweddaru (p23)
f1.4 Medi 2023	- Terminoleg a ddefnyddir ar gyfer unedau Gorfodol wedi'i diweddaru (dileu'r term "craidd" wrth gyfeirio at y rhain) - Strwythur Cymhwyster – Diweddaruwyd gwybodaeth GLH a TQT - Uned 114 – Canlyniadau cyflwyno (dyfnder y cynnwys) 6.4 wedi'i diweddaru

Diben y cymhwyster

I bwy mae'r cymhwyster?	Mae'r Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) yn darparu cyflwyniad eang i'r maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae wedi'i ddatblygu ar gyfer unigolion sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio, yn y sectorau hyn. Mae wedi'i anelu at ddysgwyr sy'n cyflawni dysgu seiliedig ar waith, sydd mewn addysg bellach neu sydd mewn dosbarthiadau chweched dosbarth mewn ysgol. Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i fynd ymlaen i astudio amrywiaeth o gyrsiau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 2 neu 3 eraill sy'n berthnasol i'r grefft sydd o ddiddordeb iddynt. Gellir dilyn y cymhwyster naill ai fel rhaglen ddysgu llawn-amser, dros flwyddyn gan amlaf; fel rhaglen ddysgu ran-amser fel rhan o fframwaith Prentisiaeth; neu ar gyfer gweithredwyr safleoedd sydd eisiau ehangu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o fewn y sector yn fwy cyffredinol. Mae'n addas ar gyfer: • dysgwyr 16+ oed sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio, yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig • gweithredwyr safleoedd sydd eisiau ehangu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o fewn y sector yn fwy cyffredinol.
Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?	Mae'n cynnig cyflwyniad eang i ddysgwyr yn ogystal â datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r sectorau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Bydd yr holl ddysgwyr yn cwblhau chwe uned orfodol sy'n ymdrin yn gyfannol â chyflwyniad i'r sectorau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, sgiliau cyflogaeth a chyflogadwyedd, ac iechyd a diogelwch. Yn ychwanegol at yr unedau gorfodol, bydd dysgwyr yn dewis dau faes crefft er mwyn treulio amser ychwanegol yn dysgu, a fydd yn cynnwys cynllunio, perfformio a gwerthuso tasgau cyffredinol. Mae'r cymhwyster yn rhoi dealltwriaeth eang a thrawsbynciol o'r sector i ddysgwyr, ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu datblygiad eu hunain.

Pa gyfleoedd datblygu sydd ar gael?

Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster yn darparu gwybodaeth sylfaenol eang ar draws y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yn ogystal â gwybodaeth ragarweiniol a sgiliau mewn dau faes crefft o'u dewis. Mae'r cymhwyster yn rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ddysgwyr symud ymlaen i wneud astudiaethau pellach. Mae hyn yn cynnwys symud ymlaen at y cymwysterau canlynol:

- Dilyniant mewn Adeiladu Lefel 2 - City & Guilds
- Dilyniant mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 2 - EAL
- Adeiladu Lefel 3 (maes crefft) - City & Guilds
- Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 (maes crefft) - EAL

Gyda phwy ydym ni wedi datblygu'r cymhwyster?

Mae'r cynnwys wedi cael ei ddatblygu gan City & Guilds¹ ar y cyd â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr ar draws y sector.

Nodau ac Amcanion y Cymhwyster

Mae'r Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) yn galluogi dysgwyr i ddechrau datblygu:

- eu dealltwriaeth o'r adeiladau a'r strwythurau sy'n creu'r amgylchedd adeiledig a sut maent yn newid, ac wedi newid, dros amser
- eu dealltwriaeth o'r crefftau, y rolau a'r gyrfaeod yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- eu dealltwriaeth o gylch bywyd adeiladau a strwythurau yn yr amgylchedd adeiledig ynghyd â'r egwyddorion a'r prosesau cysylltiedig ar bob cam
- eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel sy'n briodol i adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- eu gwybodaeth am dechnolegau datblygol yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- eu sgiliau cyflogadwyedd a'u dealltwriaeth o sut mae'r rhain yn berthnasol ac yn bwysig i'r gweithle yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- eu gwybodaeth a'u gallu i ddefnyddio egwyddorion gweithio mewn ffyrdd sy'n diogelu iechyd, diogelwch, lles a'r amgylchedd
- yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol wrth gynllunio, perfformio a gwerthuso tasgau ymarferol cyffredin mewn o leiaf dwy grefft yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

¹ Mae'r Consortiwm yn cynnwys Sefydliad City & Guilds o Lundain a chwmni Excellence, Achievement and Learning (EAL) sydd wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu a darparu'r holl gymwysterau yn y gyfres Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu.

Strwythyr y Cymhwyster

Rheolau Cyfuno

I gael y **Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)**, rhaid i ddysgwyr ymgymryd:

- 6 uned orfodol (101-106) a
- 2 uned benodol i grefft o'u dewis (107-116)

a chael gradd Pasio neu uwch yn y tri dull asesu, gyda chyfanswm o 524-540 o oriau dysgu dan arweiniad yn dibynnu ar yr unedau masnach penodol a ddewiswyd.

Uned	Teitl yr Uned	GLH
Unedau Gorfodol		
<i>Rhaid cyflawni pob uned yn y grŵp hwn</i>		
101	Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig	15
102	Cyflwyniad i'r Crefftau yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	30
103	Cyflwyniad i Gylch Bywyd yr Amgylchedd Adeiledig	55
104	Cyflogadwydd yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	30
105	Amddiffyn lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wrth weithio yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	48
106	Cyflwyniad i Dechnolegau Datblygol yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	20
Unedau masnach-benodol		
<i>Rhaid cyflawni 2 uned yn y grŵp hwn</i>		
107	Gweithio gyda briciau, blociau a cherrig	140
108	Galwedigaethau crefftau coed	140
109	Plastro a systemau mewnol	140
110	Galwedigaethau gorffeniad addurniadol a phaentio diwydiannol	140
111	Galwedigaethau toi	140

Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

112	Gweithrediadau adeiladu a gweithrediadau peirianeg sifil	140
113	Plymio, gwresogi ac awyru	140
114	Systemau ac offer electro-dechnegol	140
115	Gweithrediadau offer	140
116	Teilsio waliau a lloriau	140
Asesiad gorfodol ar draws yr holl unedau		
	<i>Asesiad</i>	46-60
Cyfanswm Orlau Dysgu Dan Arweiniad		524-540
Orlau Cyfartalog o Ddysgu dan Arweiniad		532

Orlau Dysgu Dan Arweiniad a'r Cyfanswm Orlau Cymhwyso

Mae'r Orlau Dysgu Dan Arweiniad yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o ddysgu ac asesu dan oruchwyliaeth y mae'n rhaid ei wneud i ddarparu'r uned, a gellir eu defnyddio at ddibenion cynllunio.

Cyfanswm Orlau Cymhwyso yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y mae disgwyl i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sy'n cael eu nodi ar wahân) a'r oriau sy'n cael eu treulio'n paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Caiff credydau eu cyfrifo gan ddefnyddio fformiwla sy'n hafal i werth y cyfanswm oriau cymhwyso wedi'i rannu â 10.

Mae manylion y cyfanswm oriau cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u nodi isod

Cymhwyster	Cyfanswm Orlau Cymhwyso	Credydau
Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)	600	60

Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

Gofynion y ganolfan

Bydd angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad wrth ddesg.

Mae cymeradwyaeth canolfannau yn seiliedig ar allu sefydliad i fodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo canolfannau. Mae modd gweld manylion y gymeradwyaeth i'r cymhwyster hwn yn y dogfennau canlynol:

- Llawlyfr City & Guilds i Ganolfannau
- Ein Gofynion o ran Sicrhau Ansawdd - City & Guilds
- Model Sicrhau Ansawdd.

Gellir cael gafael ar y dogfennau hyn drwy Lyfrgell Dogfennau i Ganolfannau City & Guilds <https://www.cityandguilds.com/delivering-our-qualifications/centre-development/centre-document-library>

Cynghorir darpar ganolfannau i gael cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster, fel sy'n briodol, cyn dechrau darparu'r cymhwyster.

Mae City & Guilds yn anelu at ddod i benderfyniad ynghylch cymeradwyo canolfannau a chymwysterau cyn pen 30 diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais cyflawn, ac mae pedwar canlyniad posibl:

- Rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan ac i gymwysterau
- Rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan ac i gymwysterau yn amodol ar gynllun gweithredu
- Atal cymeradwyaeth i'r ganolfan ac i gymwysterau yn amodol ar gynllun gweithredu
- Gwrthod cymeradwyaeth i'r ganolfan ac i gymwysterau.

Ystyrir bod y ganolfan a'r cymwysterau wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn ysgrifennu at y ganolfan yn cadarnhau'r statws, a dim cyn hynny.

Bydd gofyn i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn, a bodloni gofynion penodol canolfannau fel sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon, o ran cymhwysedd staff darparu ac asesu. Bydd y gofynion hyn yn cael eu gwirio a'u monitro fel rhan o'r broses o gymeradwyo cymwysterau a'r gwaith parhaus o fonitro'r cymhwyster hwn.

Cofrestru, Cyflwyno Canlyniadau ac Ardystio

Evch i wefan City & Guilds i gael manylion ynghylch y prosesau, yr amserlenni a'r gweithdrefnau ar gyfer cofrestru ac ardystio cymwysterau.

Staff canolfannau

Gofynion aseswyr

Rhaid i aseswyr y cymhwyster hwn sicrhau'r canlynol:

- eu bod yn gymwys yn alwedigaethol; mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob asesydd allu cyflawni gofynion llawn y maes crefft y maent yn ei asesu i o leiaf yr un lefel. Mae cymhwysedd galwedigaethol yn golygu eu bod yn hyddysg yn yr alwedigaeth honno hefyd. Gellid cadarnhau hyn drwy gyfuniad o'r canlynol:
 - Curriculum vitae a chymeradwyaeth neu eirdaon cyflogwr
 - Meddu ar NVQ/SVQ perthnasol, neu gymhwyster galwedigaethol
 - Aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol, neu gydnabyddiaeth gan y corff hwnnw.
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol ac y gellir ei ddangos yn glir
- bod ganddynt, eu bod yn gweithio at (wedi cofrestru cyn cynnal unrhyw asesiad) neu eu bod wedi cyflawni'r unedau canlynol:
 - Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu*
 - Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth *

a pharhau i ymarfer i'r safon honno.

* Derbynnir yr hen gymwysterau (D32/D32/D34, A1 a V1)

Os oes gan aseswyr gymwysterau asesu etifeddiaeth, rhaid iddynt ddangos eu bod yn asesu yn unol â'r safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfwerth addas arall ym maes asesu perfformiad yn y gwaith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw â Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol y ganolfan.

Mae City & Guilds hefyd yn derbyn cymwysterau asesu eraill sydd wedi'u hachredu ar lefel genedlaethol. Mae rhestr gynhwysfawr o'r rhain ar gael ar dudalen we'r cymhwyster (<https://www.skillsforwales.wales/cy>).

Os ydynt yn gweithio tuag at gymwysterau asesu, rhaid cael trefniant cydlofnodi yn ei le gydag asesydd sydd wedi cymhwyso yn yr un maes galwedigaethol neu faes cysylltiedig.

Sicrhau Ansawdd

Sicrhau Ansawdd Mewnol

Mae'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer y cymhwyster hwn yn canolbwyntio ar:

- sicrhau ansawdd gweithdrefnau asesu, gan gynnwys safoni arferion asesu gwahanol aseswyr yn y ganolfan
- safoni marciau a roddwyd i ddysgwyr ar gyfer y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth Dan Arweiniad, a hynny'n fewnol.

Mae'n rhaid i'r holl ganolfannau sydd wedi'u cymeradwyo i ddarparu'r cymhwyster hwn fod â phrosesau sicrhau ansawdd mewnol cadarn ar waith. Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd Mewnol:

- yn darparu cywirdeb a chysondeb rhwng Aseswyr wrth ddefnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennau'r cymhwyster a/neu'r dogfennau asesu
- yn effeithlon ac yn gosteffeithiol.

Bydd tystiolaeth sicrhau ansawdd mewnol yn cael ei harchwilio fel rhan o waith sicrhau ansawdd allanol City & Guilds. Disgwylir i ganolfannau gadw tystiolaeth yn unol â gofynion llawlyfr City & Guilds i ganolfannau, a dylid ei chadw am o leiaf tair blynedd.

Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol

Rhaid i'r ganolfan roi manylion y gweithwyr y mae'n bwriadu iddynt Sicrhau Ansawdd Mewnol i City & Guilds, er mwyn gallu eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r gwaith. Hefyd, cyn i'r asesiadau cyntaf gael eu cynnal, mae'n rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Gwneir hyn i sicrhau bod asesiadau mewn canolfannau yn ddibynadwy dros amser.

Rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol wneud y canlynol:

- paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds a chymryd rhan ynddynt, fel digwyddiadau cynefino, hyfforddiant/Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a digwyddiadau safoni, yn ogystal â sicrhau bod cynlluniau gwella/gweithredu personol yn cael eu cyflawni i'r safonau gofynnol ac yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt
 - bod â lefel sylfaenol o brofiad galwedigaethol a thystiolaeth o hynny ar ffurf cymhwyster sy'n ymwneud ag adeiladu/peirianeg gwasanaethau adeiladu neu brawf o brofiad/cymhwysedd yn y sector sydd gyfwerth â lefel y cymhwyster o leiaf, er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'u rôl fel Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol. Caiff ansawdd y dystiolaeth hon ei sicrhau gan City & Guilds
 - gweithio at (wedi cofrestru cyn cwblhau unrhyw weithgaredd sicrhau ansawdd), neu wedi cyflawni'r unedau canlynol:
 - Deall egwyddorion ac arferion Sicrhau Ansawdd Asesiad yn Fewnol *
 - Sicrhau ansawdd yr asesiad yn fewnol*
- * Derbynnir yr hen gymwysterau (D32/D32/D34, A1 a V1)
- gallu dangos tystiolaeth bod eu gwybodaeth am y grefft/diwydiant perthnasol yn gyfredol. Gellir cyflwyno tystiolaeth o hyn, er enghraifft, drwy gael gafael ar gyhoeddiadau am y grefft, mynd ar gyrsiau dysgu, mynd i ddigwyddiadau rhwydweithio sy'n berthnasol i'r cymhwyster a/neu fynd i ddigwyddiadau'r diwydiant.

Mae gan Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol rôl hollbwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod yr asesiad sy'n cael ei farcio gan y ganolfan wedi cael ei safoni. Dylent weithio gydag Aseswyr i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn bob amser a sicrhau bod penderfyniadau asesu gwahanol aseswyr yn gyson, yn deg ac yn ddibynadwy. Bydd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

- cwrdd ag aseswyr (yn unigol a gyda'i gilydd) drwy gydol y cwrs i drafod materion cysylltiedig â safoni a sicrhau ansawdd, a rhoi cymorth ac arweiniad iddynt lle bo angen
- arsylwi aseswyr a rhoi adborth iddynt i'w helpu i wella eu technegau asesu
- samplu tystiolaeth ar draws gwahanol grwpiau i sicrhau bod y safonau priodol wedi cael eu bodloni
- trefnu bod asesiadau'n cael eu marcio gan fwy nag un er mwyn cymharu canlyniadau a chytuno ar feincnodau yn unol â hyfforddiant City & Guilds.

Bydd City & Guilds yn rhoi canllawiau i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol canolfannau drwy gydol y broses o reoli newid.

Sicrhau Ansawdd Allanol

Rhaid i'r prosiect ymarferol a'r drafodaeth dan arweiniad gael eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n allanol. Bydd sicrwydd ansawdd asesiadau mewnol yn cael ei ddilysu'n allanol gan ein tîm o Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol technegol gymwys. Caiff Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol eu sefydlu, eu hyfforddi a'u diweddarau'n rheolaidd ynghylch newidiadau i gymwysterau, sy'n sicrhau dull safonedig. Mae gwiriadau manwl yn sicrhau bod gan y swyddogion yr wybodaeth angenrheidiol, a'u bod wedi ennill cymwysterau Asesu Hyfforddiant a Sicrhau Ansawdd (TAQA) ar gyfer Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol. Bydd yr holl Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol ar gyfer Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu yn cael eu briffio ar yr Adolygiad o'r Sector, gan gynnwys y gyfres newydd o gymwysterau. Mae ein Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn dilyn prosesau dilysu cadarn. Maent yn monitro systemau asesu, ymarfer a chanlyniadau canolfannau yn unol â gofynion rheoleiddiol. Mae eu strategaethau samplu yn seiliedig ar 'CAMERA' (sy'n sicrhau sampl cynrychioliadol o Ymgeiswyr, Aseswyr, Dulliau asesu, Tystiolaeth, Cofnodion, Safleoedd asesu).

Bydd City & Guilds yn:

- cynnal prosesau sicrhau ansawdd angenrheidiol ar gyfer yr asesiad hwn, sy'n gallu cynnwys arsylwi uniongyrchol, samplu asesiadau, ac adborth gan ddysgwyr
- sicrhau bod ganddo weithdrefn apelio gadarn yn ei lle i ddysgwyr.

Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol

Rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol:

- fod yn atebol i City & Guilds
- rhaid iddynt fod wedi ennill dyfarniad TAQA neu'n gweithio tuag at hynny, wedi cyflawni V2 neu D35 ac yn meddu ar dystiolaeth DPP o ymarfer yn unol â Safonau TAQA
- a
- dangos eu bod yn deall y broses asesu
- ni fydd ganddynt gysylltiadau â'r ganolfan asesu, er mwyn bod yn wrthrychol
- bydd ganddynt ddigon o ddealltwriaeth alwedigaethol/dechnegol berthnasol am y cymhwyster (cymwysterau)/uned (unedau) y mae eu hansawdd yn cael eu sicrhau yn allanol

Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

- byddant yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad i ganolfannau ar weithdrefnau asesu a sicrhau ansawdd mewnol.

Mae'n rhaid eu bod yn gallu dangos tystiolaeth bod eu gwybodaeth am y grefft/diwydiant perthnasol yn gyfredol. Gellir cyflwyno tystiolaeth o hyn, er enghraifft, drwy gael gafael ar gyhoeddiadau am y grefft, mynd ar gyrsiau dysgu, mynd i ddigwyddiadau rhwydweithio sy'n berthnasol i'r cymhwyster a/neu fynd i ddigwyddiadau'r diwydiant.

Bydd City & Guilds yn:

- cynnal y prosesau sicrhau ansawdd angenrheidiol ar gyfer y broses asesu, sy'n gallu cynnwys arsylwi uniongyrchol, samplu asesiadau, ac adborth gan ddysgwyr
- sicrhau bod ganddo weithdrefn apelio gadarn yn ei lle i ddysgwyr.

Rolau, cyfrifoldebau a Sicrhau Ansawdd

Proffil Asesydd Mewnol

Rhaid i'r ganolfan roi manylion y gweithwyr y mae'n bwriadu iddynt asesu i City & Guilds, er mwyn gallu eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r gwaith. Hefyd, cyn i'r asesiadau cyntaf gael eu cynnal, mae'n rhaid i aseswyr gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Gwneir hyn i sicrhau bod asesiadau mewn canolfannau yn ddibynadwy dros amser.

Mae'n rhaid i aseswyr fod wedi ennill neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster asesu cydnabyddedig perthnasol fel Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol a pharhau i ymarfer yn unol â'r safon honno. Rhaid i Aseswyr sydd â chymwysterau blaenorol (D32 neu D33 neu TQFE/TQSE) gael tystiolaeth o DPP hyd at y safonau diweddaraf.

Rhaid i aseswyr fod yn alwedigaethol gymwys. Mae'r dystiolaeth sy'n ategu hyn yn golygu bod gan yr asesydd NVQ perthnasol neu gymhwyster cyfwerth* ar gyfer trothwy cymhwysedd galwedigaethol llawn y grefft a/neu fod wedi cofrestru â chorff sy'n berthnasol i'r grefft neu wedi cael cydnabyddiaeth briodol sy'n dangos yn glir bod yr asesydd yn gymwys yn y grefft.

*Dylai aseswyr a gymhwysodd cyn i NVQs gael eu datblygu ddarparu tystiolaeth o sut maent yn gymwys yn alwedigaethol (er enghraifft, drwy CV neu gofnod DPP ynghyd ag unrhyw eirfaon perthnasol).

Gofynion ar gyfer Aseswyr Mewnol

Rhaid i Aseswyr Mewnol wneud y canlynol:

- cynnal a chofnodi asesiadau yn unol â threfniadau rheoleiddiol a City & Guilds, gan gynnwys:
 - ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais bob amser wrth gynnal yr asesiad
 - marcio'r asesiadau yn unol â'r meini prawf graddio.
- cynnal dealltwriaeth o bolisiâu a gweithdrefnau asesu
- cynnal a chofnodi DPP (i'w gyflwyno ar gais)
- deall y sector, y cymhwyster a'r gofynion asesu
- bod yn alwedigaethol gymwys

Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheiranneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

- darparu dogfennau clir, cywir a chryno, a chofnodion perthnasol (ysgrifenedig ac electronig), a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u gweinyddu yn unol â gweithdrefnau City & Guilds
- gwneud penderfyniadau asesu cadarn
- trin gwybodaeth berthnasol yn unol â gofynion GDPR
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds a chymryd rhan ynddynt – fel digwyddiadau cynefino, hyfforddiant/DPP a digwyddiadau safoni, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw gynlluniau gwella/gweithredu personol yn cael eu cyflawni i'r safonau gofynnol ac yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt
- rhoi gwybod i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol am unrhyw amheuaeth o gamymarfer neu gamweinyddu, gan gynnwys camymddwyn academaidd
- datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau (er enghraifft, rhwng yr asesydd a'r dysgwr)
- darparu mynediad at wybodaeth a chofnodion pan wneir cais amdanynt
- cwblhau a chyflwyno pob adroddiad o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

Swyddogion cyswllt/penodedig allanol

Swyddogion cyswllt/penodedig yw'r termau y mae City & Guilds yn eu defnyddio i gyfeirio at unigolion y mae City & Guilds neu EAL wedi'u penodi i ymgymryd â rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol.

Mae City & Guilds wedi pennu meini prawf i sicrhau bod gan yr holl swyddogion cyswllt/penodedig yr wybodaeth, y profiad a'r sgiliau galwedigaethol iawn i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd City & Guilds yn sicrhau bod yr holl swyddogion cyswllt/penodedig sy'n ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd yng nghyswllt cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a phenderfyniadau asesu wedi cael eu hyfforddi, bod ganddynt y cymwysterau priodol a'u bod yn gymwys yn alwedigaethol. Mae'n rhaid iddynt fynychu digwyddiadau safoni a hyfforddiant.

Caiff perfformiad yr holl swyddogion cyswllt/penodedig ei reoli gan staff yn City & Guilds. Os bydd pryderon yn codi ynghylch unigolyn, bydd pob partner City & Guilds yn cymryd camau unioni yn unol â pholisïau'r sefydliad, a allai olygu bod angen cymryd camau gwella a monitro agos, neu gymryd camau pellach yn ôl yr angen.

Bydd City & Guilds yn sicrhau bod digon o swyddogion cyswllt/penodedig dwyieithog yn cael eu recriwtio i fodloni anghenion canolfannau cyfrwng Cymraeg a dysgwyr sy'n siarad Cymraeg. Bydd lefel y gwaith sicrhau ansawdd yn gyson ar draws y darpariaethau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Bydd darpariaethau yn cael eu gwneud ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

Y Cyd-destun yng Nghymru

O ran unigolion nad ydynt wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant, polisi a chyd-destun Cymru yn fuddiol i'w rolau.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae disgwyl i ganolfannau helpu eu staff i wneud yn siŵr bod ganddynt yr wybodaeth a'r cymwyseddau diweddaraf yn y maes galwedigaethol a'u bod yn gwybod am yr arferion gorau o

[Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu \(Lefel 2\)](#)

ran darparu, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd, a bod hyn yn ystyried unrhyw ddatblygiadau deddfwriaethol neu genedlaethol.

Darparu'r cymhwyster

Gofynion mynediad i ddysgwyr

Nid yw City & Guilds yn pennu gofynion mynediad ar gyfer y cymhwyster hwn. Serch hynny, rhaid i ganolfannau wneud yn siŵr bod gan ddysgwyr y potensial a'r cyfleoedd i lwyddo i ennill y cymhwyster.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy Walled Garden. Mae mwy o wybodaeth ar wefan City & Guilds.

Cyfyngiadau oedran

Nid oes modd i City & Guilds dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed, gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer unigolion o dan 16.

Asesiad cychwynnol a chynefino

Dylid cynnal asesiad cychwynnol ar gyfer pob dysgwr cyn i'w raglen ddechrau er mwyn nodi'r canlynol:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- y cymorth a'r arweiniad a allai fod eu hangen arno pan fydd yn gweithio tuag at ei gymhwyster
- unrhyw unedau y maent eisoes wedi'u cwblhau, neu gredydau y maent wedi'u cronni sy'n berthnasol i'r cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Rydyn ni'n argymhell bod canolfannau'n darparu rhaglen gynefino er mwyn i'r dysgwr allu deall yn llawn beth yw gofynion y cymhwyster, beth yw ei gyfrifoldebau fel dysgwr a beth yw cyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

Deunyddiau ategol

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

Disgrifiad	Sut mae cael gafael arno
Pecyn Asesu	https://www.skillsforwales.wales/cy/cymwysterau

Sicrhau ansawdd y trefniadau asesu mewnol

Mae prosesau Sicrhau Ansawdd Allanol ar waith er mwyn gwirio dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu a wneir gan staff canolfannau, fel sy'n briodol ar gyfer y cymhwyster hwn.

Bydd yr asesiad yn cael ei asesu'n fewnol ac yn cael ei fonitro a'i samplo yn seiliedig ar risgiau gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol er mwyn sicrhau cysondeb a dilysrwydd penderfyniadau asesu canolfannau. Swyddogion cyswllt asesu sy'n meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol fydd yn cynnal y gwaith sicrhau ansawdd. Bydd City & Guilds yn darparu adborth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer pob achos o samplo at ddibenion sicrhau ansawdd.

Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

Bydd City & Guilds yn ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio sylweddol, neu feysydd pryder a nodir yn ystod gwaith monitro allanol. Mae'n bosib y bydd camau gwella priodol a/neu gosbau yn cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r gwaith yma. Mewn rhai achosion, gall ymchwiliadau arwain at ddadgofrestru'r ganolfan/canolfannau dan sylw.

Apêl fewnol

Rhaid i ganolfannau gael proses fewnol i'r dysgwyr apelio yn erbyn marciau asesiadau sydd wedi cael eu marcio'n fewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau y mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau sydd wedi'u hasesu'n fewnol, oherwydd bydd angen y rhain arnynt er mwyn penderfynu a ydynt am apelio neu beidio.

Camymarfer

Cyfeiriwch at nodiadau cyfarwyddyd City & Guilds *Rheoli achosion lle ceir amheuaeth o gamymarfer mewn arholiadau ac asesiadau*. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ganfod a rhoi gwybod am gamymarfer gan ddysgwyr a/neu staff canolfannau a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr a chanolfannau ac mae'n egluro cyfrifoldebau staff y ganolfan i roi gwybod am gamymarfer go iawn neu amheuaeth o gamymarfer. Mae'r ddogfen hon ar gael i'r canolfannau ar wefan City & Guilds.

Ceir enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr isod (sylwch nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cydgyllwynio ag eraill
- copïo gwaith dysgwr arall (gan gynnwys defnyddio TGCh i'w helpu i gopïo), neu ganiatáu i rywun gopïo ei waith
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- ffugio datganiadau dilysrwydd yng nghyswllt asesiadau
- esgus bod yn rhywun arall.

Gallai'r gweithredoedd hyn gyfrif fel camymarfer, a bydd cosb (ee anghymhwys o'r asesiad) yn berthnasol.

Cyfeiriwch at y ffurflen yn y ddogfen *Rheoli achosion lle ceir amheuaeth o gamymarfer mewn arholiadau ac asesiadau*.

Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig

Mae trefniadau mynediad yn golygu addasiadau sy'n caniatáu i ddysgwyr ag anableddau, anghenion addysgol arbennig ac anafiadau dros dro gael mynediad at yr asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Mae'n rhaid gwneud y trefniadau hyn cyn cynnal yr asesiad.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau y bydd dysgwyr yn gallu cael mynediad at holl ofynion y cymhwyster, a hynny ar ddechrau'r rhaglen.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y dogfennau: *Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol JCQ a Trefniadau mynediad - pryd a sut mae angen cyflwyno ceisiadau i City & Guilds*. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar [wefan City & Guilds](#).

Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr sydd wedi cael salwch dros dro, anaf neu anhwylder ar adeg yr asesiad.

Dylai Swyddog Arholiadau'r ganolfan gyflwyno ceisiadau ar gyfer naill ai trefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig i City & Guilds. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch fersiwn gyfredol y ddogfen JCQ, *Arweiniad i'r broses ar gyfer ystyriaeth arbennig*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar [wefan City & Guilds](#).

Crynodeb o'r Asesiad

Caiff y **Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)** ei asesu gan ddefnyddio 3 dull asesu:

Math o asesiad	Dull asesu	Pwysoliad (Cyfraniad at radd gyffredinol y cymhwyster)
Asesu ar y sgrin	Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol	20%
Prosiect Ymarferol	Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n fewnol	60%
Trafodaeth dan Arweiniad	Wedi'i osod yn fewnol a'i farcio'n fewnol	20%

Gellir llwytho pecyn asesu, sy'n rhoi manylion y gofynion asesu, i lawr o [Gwefan Sgiliau i Gymru](#).

Mae manylion am bob asesiad ar gael yn yr adran manylion yr asesiadau yn y pecyn asesu.

Amser a chyfnodau asesu

Rhaid dilyn y canlynol wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid dilyn pob uned, a rhaid cwblhau ac asesu pob un o'r gofynion perthnasol yn ystod y cyfnod y mae'r dysgwr wedi cofrestru

Gellir asesu yn ôl y galw. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod y dysgwyr wedi dysgu pob uned a'u bod yn ddigon parod ar gyfer pob asesiad.

Rhaid i ddysgwyr fod wedi cwblhau'r asesiad ar gyfer y Prosiect Ymarferol cyn cael asesiad ar gyfer y Trafodaeth dan Arweiniad.

Rhyddhau Canlyniadau

Asesu ar y sgrin

Mae'r asesiad ar y sgrin yn cael ei farcio'n awtomatig a bydd y ganolfan yn derbyn y canlyniadau ar y diwrnod y bydd yr asesiad yn cael ei gwblhau. Bydd City & Guilds yn dilyn proses ar gyfer rhyddhau canlyniadau pan fydd fersiynau newydd o'r asesiadau'n cael eu rhyddhau.

Prosiect ymarferol

Mae prosiect ymarferol yn cael ei farcio'n fewnol a'i ddilysu'n allanol. Mae marciau dros dro a roddir yn dilyn asesu mewnol yn cael eu trosi'n raddau drwy ddefnyddio'r tablau marcio a graddio sydd ar gael yn y pecyn asesu. Yna bydd graddau dros dro yn cael eu cyflwyno i City & Guilds drwy Walled Garden. Yna, caiff y graddau dros dro hyn eu cyfuno ar sail pwysau'r asesiad, yn unol â'r canllawiau ar gyfuno graddau sydd yn y pecyn asesu, er mwyn rhoi gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei roi gan City & Guilds.

Trafodaeth dan arweiniad

Mae'r drafodaeth dan arweiniad yn cael ei marcio'n fewnol a'i dilysu'n allanol. Mae marciau dros dro a roddir yn dilyn asesu mewnol yn cael eu trosi'n raddau drwy ddefnyddio'r tablau marcio a graddio sydd ar gael yn y Pecyn Asesu. Yna bydd graddau dros dro yn cael eu cyflwyno i City & Guilds drwy Walled Garden. Yna, caiff y graddau dros dro hyn eu cyfuno ar sail pwysau'r asesiad, yn unol â'r canllawiau ar gyfuno graddau sydd yn y Pecyn Asesu, er mwyn rhoi gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei roi gan City & Guilds.

Canlyniadau cyffredinol cymwysterau

Rhaid rhoi graddau dros dro i ddysgwyr ar gyfer y prosiect ymarferol a'r drafodaeth dan arweiniad cyn pen wythnos i gwblhau pob asesiad. Dylid esbonio mai canlyniadau dros dro yw'r rhain, ac y byddant yn mynd drwy systemau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. City & Guilds fydd yn penderfynu ar radd derfynol y cymhwyster.

Bydd canolfannau yn cael gwybod beth yw graddau terfynol y cymwysterau ar ôl i'r gwaith sicrhau ansawdd allanol gael ei gwblhau. Bydd hyn cyn pen wyth wythnos i'r ganolfan gyflwyno canlyniadau'r dysgwyr ar gyfer y prosiect ymarferol a'r drafodaeth dan arweiniad (ar ôl cwblhau'r asesiad ar y sgrin). Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon ac amseru ar gael yn Cyflwyniad i Weithio gyda City & Guilds - canllaw gweinyddol y ganolfan ar gyfer cymwysterau adeiladwaith a pheirianeg gwasanaethau adeiladu yng Nghymru.

Ailgyflwyno/ailsefyll asesiad

Os na fydd y dysgwr yn llwyddo i basio unrhyw rai o'r asesiadau, mae'n bosib iddo ailsefyll/ailgyflwyno.

Gall dysgwyr gyflawni'r ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael wrth ailsefyll/ailgyflwyno.

Os bydd gofyn i ddysgwr ailsefyll neu ailgyflwyno unrhyw asesiad, mae'n rhaid rhoi adborth a chefnogaeth briodol i ddechrau er mwyn i'r dysgwr allu gwneud hynny o fewn amser penodol. Os nad yw'r dysgwr yn cyrraedd y lefel briodol sy'n ofynnol wrth ailsefyll/ailgyflwyno, dylai'r ganolfan naill ai:

- trefnu cymorth ychwanegol i'r dysgwr cyn ailsefyll neu ailgyflwyno neu
- rhoi gwybod i'r dysgwr am ei hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r dysgwr. Ni fydd cyfyngiad o ran sawl gwaith y bydd dysgwr yn cael ailsefyll neu ailgyflwyno.

I gael rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu yng nghyswllt ailgyflwyno/ailsefyll unrhyw asesiadau penodol, darllenwch yr wybodaeth yn y Pecyn Asesu.

Graddio Cymwysterau

Y graddau sydd ar gyfer y cymhwyster hwn yw **Methu, Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth**.

Bydd dysgwyr yn ennill marc ym mhob elfen asesu; bydd hyn yn arwain at ennill gradd (Methu, P1, P2, M1, M2, D1, D2, D3) ar gyfer pob elfen asesu.

Rhaid i ddysgwyr gael gradd P1 o leiaf, ym mhob elfen asesu, er mwyn pasio'r cymhwyster.

Mae graddau'r lefelau asesu'n cael eu cyfuno er mwyn penderfynu ar radd gyffredinol y cymhwyster.

Mae'r graddau asesu yn cael eu dyfarnu dros dro ac mae graddau'r dysgwyr yn cael eu trosi'n bwyntiau. Mae'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer pob gradd asesu wedi'u rhestru yn y tablau isod. Mae'r pwyntiau uwchben y radd isaf ar gyfer pob asesiad yn cael eu cyfrifo ar sail y marc a enillwyd gan ddysgwr yn yr asesiad hwnnw fel y nodir isod.

Yna caiff pwyntiau'r dysgwr ar gyfer pob asesiad eu lluosu â % cyfraniad yr asesiad (a nodir yn y Crynodeb o'r Asesiad uchod) i roi sgôr pwyntiau wedi'i phwysoli ar gyfer pob asesiad. Caiff y rhain wedyn eu cyfuno i greu cyfanswm sgôr wedi'i phwysoli ar gyfer pob dysgwr fel yr amlinellir yn y tabl Gradd Gyffredinol y Cymhwyster a nodir isod.

Marcio a Graddio Asesiadau

Profion ar y Sgrin (enghraifft Prawf Sampl)

Mae'r tabl isod yn dangos trothwy Llwyddo/Methu ar gyfer yr asesiad ar-sgrin, gall hwn amrywio yn ôl fersiynau gwahanol yr asesiad hwn.

Trothwy marciau	Gradd Asesu	Pwyntiau	Pwyntiau wedi'u Pwysoli
42-45	D3	7	1.4
38-41	D2	6	1.2
35-37	D1	5	1
31-34	M2	4	0.8
28-30	M1	3	0.6
25-27	P2	2	0.4
22-24	P1	1	0.2
0 – 21	Methu	0	0

Prosiect Ymarferol

Trothwy marciau	Gradd Asesu	Pwyntiau	Pwyntiau wedi'u Pwysoli
141	D3	7	4.2
125 – 140	D2	6	3.6
110 – 124	D1	5	3
97 - 109	M2	4	2.4
83 - 96	M1	3	1.8
68 - 82	P2	2	1.2
53 - 67	P1	1	0.6
0 - 52	Methu	0	0

Trafodaeth dan Arweiniad

Trothwy marciau	Gradd Asesu	Pwyntiau	Pwyntiau wedi'u Pwysoli
9	D3	7	1.4
8	D2	6	1.2
7	D1	5	1
6	M2	4	0.8
5	M1	3	0.6
4	P2	2	0.4
3	P1	1	0.2
0	Methu	0	0

Gradd Gyffredinol y Cymhwyster

Yna caiff pwyntiau wedi'u pwysoli o bob asesiad eu cyfuno i roi cyfanswm sgôr pwyntiau wedi'u pwysoli ar gyfer y cymhwyster, ac mae'r tabl hwn yn nodi sut mae hyn wedyn yn trosi'n radd gyffredinol y cymhwyster:

Cyfanswm y Pwyntiau wedi'u Pwysoli	Gradd
7	Rhagoriaeth
6	Rhagoriaeth
5	Rhagoriaeth
4	Teilyngdod
3	Teilyngdod
2	Pasio
1	Pasio

Allwedd Cynnwys

Mae'r wybodaeth isod yn ceisio rhoi golwg gyffredinol ar strwythur cynnwys unedau a sut mae'r meysydd cynnwys yn gysylltiedig â'i gilydd yn ogystal â gwybodaeth am ddarparu ac asesu'r cymhwyster.

Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio rhannau o sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth berthnasol gyda'i gilydd. Maent yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, hynny yw, beth mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae'r deilliant dysgu hwn yn ymwneud â gwahanol brosesau pentyrru, storio a pharatoi.

Deilliant dysgu:

2. Deall prosesau **pentyrru, storio a pharatoi deunyddiau** ar gyfer adeiladu waliau brics, bloc a cherrig.

Meini prawf asesu

Mae meini prawf asesu yn dadansoddi'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w trafod. Y meini prawf hyn fydd yn cael eu hasesu yng nghyswllt y deilliant dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae maen prawf asesu 2.1 yn ymwneud â'r rhesymau dros bentyrru a storio deunyddiau, ac mae wedi cael ei ysgrifennu a bydd yn cael ei asesu yn unol â'r deilliant dysgu.

Meini Prawf

2.1 Rhesymau dros **bentyrru a storio** deunyddiau.

Ystod

Mae ystod yn cynnwys gwybodaeth am ba mor eang mae'n ofynnol i faen prawf asesu penodol fod. Er enghraifft, y rhesymau gwirioneddol dros bentyrru a storio deunyddiau. Nid yw'r ystod yn rhestr gynhwysfawr. Mae'n bosib y bydd enghreifftiau eraill a allai ddod o dan y maes pwnc, ond, mae'r rhai sydd wedi'u rhestru wrth yr ystod yn allweddol ar gyfer darparu cynnwys yr uned - **mae'n rhaid cynnwys pob elfen sydd wedi'i rhestru o dan yr ystod wrth ddarparu'r uned.**

Ystod

Gwarchodaeth, effeithlonrwydd, diogelwch.

Manyllder y cynnwys

Mae manylder y cynnwys yn amlinellu pa mor fanwl y mae'n rhaid mynd drwy'r cynnwys. Mae hyn yn golygu bod modd addysgu ar y lefel gywir er mwyn i'r dysgwr fod yn barod i gael ei asesu. Er enghraifft, mae 'dylai dysgwyr gydnabod y rhesymau' yn tynnu sylw at y ffaith y bydd yn rhaid i'r dysgwyr ddeall 'sut' / 'pam' yng nghyswllt yr ystod.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn cydnabod y rhesymau dros **storio** deunyddiau cyn eu defnyddio er mwyn eu gwarchod rhag y tywydd, rhag difrod a rhag cael eu dwyn. Bydd dysgwyr hefyd yn cydnabod y rhesymau dros **bentyrru a storio** deunyddiau o ran effeithlonrwydd yng nghyswllt **paratoi** ar gyfer gwaith.

Canllawiau ar gyfer Cyflawni

Defnyddir y diffiniadau canlynol ar gyfer termau penodol a ddefnyddir yng nghynnwys y cymhwyster hwn.

Adeiladau modern ac adeiladu

Adeiladau sy'n cael eu hadeiladu gyda deunyddiau anhydraidd ac sy'n ymgorffori rhwystrau i atal lleithder allanol, fel ceudodau, sgriniau glaw, cyrsiau atal lleithder, rhwystrau anwedd, a philenni. Maent yn aml yn dibynnu ar ddulliau echdynnu mecanyddol i gael gwared ag anwedd dŵr sy'n cael ei ffurfio gan weithgareddau'r bobl sy'n defnyddio'r adeilad.

Adeiladau a strwythurau hanesyddol

Gall yr adeiladwaith fod yn draddodiadol neu'n fodern. Maent yn aml yn cael gwarchodaeth statudol drwy gael eu rhestru fel adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, neu fel henebion cofrestredig. Gallant hefyd gael eu gwarchod os ydynt wedi'u rhestru'n lleol neu os ydynt mewn ardal gadwraeth neu Safle Treftadaeth y Byd.

Ail-bwrpasu

Addasu a newid adeiladau gwag i ymestyn oes adeilad neu strwythur drwy fuddsoddi mewn gwaith adfywio ac ail-bwrpasu er mwyn diwallu anghenion y gymuned leol.

Uned 101: Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	15

Gwybodaeth am yr uned

Diben yr uned hon yw helpu dysgwyr i adnabod y gwahanol fathau o adeiladau, ynghyd â'u pwrpasau, o'r cyfnod cyn 1919 i'r 21^{ain} ganrif. Bydd yr uned hefyd yn archwilio'r rhyngweithio rhwng y seilwaith a'r amgylchedd byw a gweithio modern.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r canlynol:

- Mathau a phwrpas adeiladau domestig, masnachol, diwydiannol a chyhoeddus yn yr amgylchedd adeiledig
- Prif feysydd dylunio o fewn adeiladau traddodiadol a threftadaeth
- Y prif newidiadau i'r dyluniad mewn adeiladau traddodiadol, masnachol, diwydiannol a chyhoeddus yn yr amgylchedd adeiledig
- Y prif fathau o seilwaith a'u pwrpas yn yr amgylchedd adeiledig.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau i'w hunain fel:

- Sut mae adeiladau wedi newid dros amser?
- Beth yw'r gwahanol fathau o adeiladau yn yr amgylchedd adeiledig?
- Beth sy'n creu'r seilwaith yn yr amgylchedd adeiledig?

Deiliant dysgu:

1. Deall y mathau o adeiladau yn yr amgylchedd adeiledig, a'u pwrpasau

Meini Prawf

1.1 Mathau o adeiladau yn yr amgylchedd adeiledig.

Ystod: mathau, nodweddion dylunio, pwrpas, gwahaniaethau.

1.2 Prif feysydd dyluniad adeiladu a newidiadau dros amser.

Ystod: Ffuriau traddodiadol a modern o adeiladu, adeiladau hanesyddol.

1.3 Y prif ofynion diwylliannol ar gyfer adeiladau a strwythurau gwahanol.

Ystod: crefyddol, dinesig, celfyddydau.

1.4 Gofynion cymdeithasol ar gyfer cymunedau.

Ystod: Cysylltiadau seilwaith a thrafnidiaeth; cynllun datblygu lleol; pwrpas rheoliadau adeiladu.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o adeiladau yn yr amgylchedd adeiledig, eu gwahaniaethau, eu pwrpas a'u nodweddion dylunio allweddol:

Domestig: Byngalo, byngalo dormer, tŷ pâr, tŷ sengl, tŷ teras, fflatiau uchel, caban.

Cyhoeddus: Llyfrgelloedd, gorsafoedd heddlu, llysoedd a charchardai, ysgolion, colegau a phrifysgolion, ysbytai, llywodraeth leol a chanolog, mannau addoli, sefydliadau gweithwyr, gorsafoedd rheilffordd.

1.2 Bydd dysgwyr yn deall y prif wahaniaeth rhwng adeiladu waliau soled traddodiadol a mathau modern o adeiladu, gan gynnwys waliau ceudod. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r diffiniadau o adeiladau a strwythurau traddodiadol a hanesyddol ac yn deall sut mae dyluniad adeiladau a deunyddiau a thechnegau adeiladu wedi newid dros amser.

Prif nodweddion dylunio cyffredin:

Hyd at ganol yr 20^{fed} ganrif:

- Wedi'u hadeiladu â cherrig yn aml
- Brics neu fframiau pren
- Llechi, teils cerrig neu doeau haearn rhychiog.

Ar ôl canol yr 20^{fed} ganrif:

- Ffrâm ddur, gwydr a choncrid yn bennaf
- Mannau agored mawr, hyblyg yn fewnol
- Wedi'u hysgogi gan rwydweithiau trafndiaeth
- Wedi'u hadeiladu o'r newydd y tu allan i'r dref
- Wedi'u hariannu gan fentrau preifat yn gyffredinol.

Bydd dysgwyr yn adnabod y newidiadau a wnaed dros amser i adeiladau cyhoeddus mewn perthynas â meysydd dylunio allweddol:

Dyluniad cynharach (hyd at ganol yr 20^{fed} ganrif): Adeiladau trawiadol, crand, clasurol neu gothig o ran dyluniad, wedi'u hariannu gan lywodraeth leol/ganolog neu ddyngarwyr.

Dyluniad modern (ar ôl canol yr 20^{fed} ganrif): Swyddogaeth dros estheteg.

Dyluniad i'r dyfodol (21^{ain} ganrif): Ffynonellau ynni adnewyddadwy a defnyddio deunyddiau cynaliadwy carbon isel.

Masnachol a diwydiannol:

- Adwerthu (o'r stryd fawr i ganolfannau siopa)
- Banciau a sefydliadau ariannol eraill
- Swyddfeydd (yn fwy canolog mewn blociau)
- Hamdden (mwy o ran nifer, mwy amrywiol, amlbwrpas, canolog ac wedi'u lleoli'n strategol)
- Warws (wedi ehangu a chynyddu mewn maint)
- Ffatri (wedi symud i barciau diwydiannol dynodedig, yn gysylltiedig â chadwyni cyflenwi)
- Amaethyddiaeth (graddfa fwy, tai gwydr anferth, gwasanaethu'r wlad a gwledydd eraill o adeiladau fferm cymunedol gwag oherwydd newidiadau mewn arferion amaethyddol a chynnydd ym maint offer, anhyfyw yn ariannol, cyfleoedd i newid defnydd mewn modd sensitif).

1.3 Bydd dysgwyr yn deall sut mae amrywiaeth o anghenion diwylliannol (crefyddol, dinesig, y celfyddydau) yn gallu effeithio ar ddyluniad adeilad, o ran estheteg, siâp, golau a gofod.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall sut mae'r anghenion am gymunedau hygyrch, ymarferol, saff a diogel yn cael eu diwallu drwy'r canlynol:

- Cysylltiadau seilwaith a thrafnidiaeth: cynllunio datblygiadau newydd i sicrhau bod anghenion cymdeithasol a diwylliannol yn cael eu diwallu a'u cysylltu â'i gilydd
- Cynllun datblygu lleol: cynllunio trefi (gwahanu elfennau masnachol, diwydiannol, domestig)
- Pwrpas y rheoliadau Adeiladu.

Deilliant dysgu:

2. Gwybod am y gwahanol fathau o strwythurau yn yr amgylchedd adeiledig

Meini Prawf

2.1 Gwybod am y mathau o seilwaith a'u pwrpas.

Ystod: Priffyrdd, pontydd, twneli, argaeau, traphontydd, strwythurau camlesi a dyfrffyrdd, ceiau, dociau a phierau, tyrau, rhwydweithiau trafndiaeth, dosbarthu gwasanaethau, amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol, ac ynni adnewyddadwy.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o seilwaith, nodweddion a'u pwrpas mewn perthynas â phrosiectau peirianeg sifil:

- Priffyrdd
 - Traffyrdd
 - Ffyrdd A/ Cefnffyrdd
 - Ffyrdd B
 - Llwybrau beiciau.
- Pontydd - bwa, trawst, cwpl, cantilifer, pontydd crog
- Traphontydd
- Twneli - torri a gorchuddio, tyllu, tiwb wedi'i dansuddo
- Tyrau - peilonau a thyrau telegyfathrebu
- Seilwaith trafndiaeth – rheilffordd, ffordd, awyr, dŵr
- Dosbarthu gwasanaethau - pibell nwy, cebl trydan, gorsafoedd pŵer, draeniau, cronfeydd dŵr
- Amddiffynfeydd llifogydd a'r arfordir
 - Argaeau
 - Dalgylch dros dro - gorlifdiroedd
 - Amddiffynfeydd afonydd – llifgloddiau, byndiau, coredau
 - Gatiau a rhwystrau y gellir eu symud
 - Amddiffynfeydd arfordirol – grwynau, morgloddiau, gwrthgloddiau, caergewyll.
- Strwythurau camlesi a dyfrffyrdd
- Ceiau, dociau a phierau
- Ynni adnewyddadwy - fferm wynt, tonnau, biomas, fferm solar, hydrodrydanol.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod y strwythurau a ddefnyddir yn yr amgylchedd adeiledig yn newid dros amser ac yn gwybod sut yn union maent wedi newid.

Uned 102: Cyflwyniad i'r Crefftau yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	30

Gwybodaeth am yr uned

Diben yr uned hon yw helpu dysgwyr i wybod am yr ystod o grefftau sydd ar gael yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a sut maent yn rhyngweithio mewn prosiect adeiladu. Bydd dysgwyr yn dysgu am y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer arferion adeiladu traddodiadol a modern a pha ddeunyddiau a ddefnyddir i gyflawni'r tasgau hyn.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth o'r canlynol:

- Galwedigaethau crefftau trywel
- Galwedigaethau crefftau coed
- Plastro
- Galwedigaethau gorffeniad addurniadol a phaentio diwydiannol
- Galwedigaethau toi
- Gweithrediadau adeiladu a pheirianeg sifil
- Gosodiadau electrodechnegol
- Plymio, gwresogi ac awyru
- Peirianeg gosod cyfarpar nwy
- Systemau oeri ac aerdymheru.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau i'w hunain fel:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng adeiladu a'r crefftau gwasanaeth adeiladu?
- Pa sgiliau fydd ei angen arnaf/sydd angen i mi eu datblygu i weithio yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig?
- Pa dechnegau traddodiadol y gallwn eu defnyddio yn y diwydiant adeiladu heddiw?

Deiliant dysgu:

1. Gwybod beth yw'r masnachau crefft yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig

Meini Prawf

1.1 Prif fasnachau crefft y diwydiant adeiladu.

Ystod: Masnachau crefft, rolau, gweithgareddau cysylltiedig, llwybrau gyrfa.

1.2 Prif fasnachau crefft y diwydiant gwasanaethau adeiladu.

Ystod: Masnachau crefft, rolau, gweithgareddau cysylltiedig, llwybrau gyrfa.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r prif weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r crefftau adeiladu canlynol, yn ogystal â'r gwahanol rolau a llwybrau gyrfa sy'n gysylltiedig â phob crefft:

- Galwedigaethau trywel; Gwaith brics, gwaith blociau, gwaith maen
- Galwedigaethau gwaith coed; Codi fframwaith y strwythur, ffics cyntaf, ail ffics, gwaith coed pwrpasol
- Plastro: soled mewnol, rendr allanol, leinio sych, arwynebau lloriau, ffeibrog
- Galwedigaethau gorffeniad addurniadol a phaentio diwydiannol: Paentio, addurno, effeithiau arbenigol, chwistrellu
- Galwedigaethau toi: gorchuddion gwrth-ddŵr ar doeau fflat a thoeau ar oledf
- Gweithrediadau adeiladu a pheirianeg sifil: cynllunio, gwaith paratoi'r tir, palmentydd, draenio.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r prif weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r crefftau peirianeg gwasanaethau adeiladu canlynol, yn ogystal â'r gwahanol rolau a llwybrau gyrfa sy'n gysylltiedig â phob crefft:

- Electrodechnegol: gosodiadau gwifrau y ffics cyntaf ac ail
- Plymio: ffics cyntaf ac ail systemau dŵr poeth ac oer; systemau gwresogi domestig; systemau dŵr wyneb a dŵr gwastraff
- Peirianeg gosod cyfarpar nwy: gwasanaethu, atgyweirio, cynnal a chadw, a gosod cyfarpar nwy
- Gwresogi ac awyru: gosod systemau olew, nwy, a systemau gwresogi diwydiannol adnewyddadwy, systemau gwresogi ac awyru.

Deiliant dysgu:

2. Gwybod beth yw'r sgiliau traddodiadol a ddefnyddir mewn adeiladu a gwasanaethau adeiladu

Meini Prawf

2.1 Y prif sgiliau traddodiadol a ddefnyddir mewn adeiladu a gwasanaethau adeiladu heddiw.

Ystod: Marcio allan, torri, gosod, gorffen.

2.2 Deunyddiau priodol ar gyfer adeiladau a strwythurau traddodiadol a hanesyddol.

Ystod: Deunyddiau treftadaeth – rhinweddau, defnyddiau a phwysigrwydd.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r sgiliau llaw traddodiadol sy'n dal i gael eu defnyddio mewn adeiladu a gwasanaethau adeiladu heddiw. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae'r sgiliau hyn yn cael eu defnyddio i gwblhau amrywiaeth o dasgau adeiladu, cynnal a chadw, ac atgyweirio, gan gynnwys marcio allan, mesur, torri a gosod cydrannau:

- Marcio allan - mesur; cyfrifo arwynebedd, cyfaint, llinol
- Torri - dalennau, cydrannau (pibelli, brics, blociau, deunyddiau dalen)
- Gosod - gosod pren, gwaith maen, cydrannau trydanol, plymio, deunyddiau dalen
- Gorffeniad – plastro, sgrid ar lorïau, teilsio, paentio, uniadau a phwyntio (brics a cherrig).

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddeunyddiau a ddefnyddir mewn dulliau adeiladu traddodiadol ac yn deall pwysigrwydd defnyddio'r sgiliau a'r deunyddiau priodol wrth weithio gydag adeiladau a strwythurau traddodiadol a hanesyddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddeunyddiau treftadaeth sy'n addas ar gyfer tasgau a ddefnyddir mewn adeiladau a strwythurau traddodiadol a hanesyddol, ac yn gwybod beth yw eu rhinweddau a sut maen nhw'n cael eu defnyddio:

Plastr calch a rendr, Cefnlenni ais pren, Pren, Llechi, Cerrig, Copr, Plwm, Deunyddiau lleol.

Uned 103: Cyflwyniad i Gylch Bywyd yr Amgylchedd Adeiledig

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	55

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn ennill dealltwriaeth o oblygiadau ac effeithiau adeilad ar yr amgylchedd.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r canlynol:

- Dylunio a chynllunio adeiladau a strwythurau
- Y prif gamau mewn adeiladu a gosod gwasanaethau
- Cynnal a chadw adeiladau, strwythurau a gwasanaethau
- Ail-bwrpasu adeiladau a strwythurau
- Dymchwel a dad-adeiladu adeiladau a strwythurau
- Hyrwyddo gwasanaethau yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau i'w hunain fel:

- Pa effaith mae adeiladu strwythur yn ei chael ar yr amgylchedd lleol a'i fywyd gwyllt?
- Beth yw'r gwahanol gamau mewn adeiladu adeilad?
- Sut y mae adeilad yn cael ei gynnal a'i addasu i'r newid yn ei ddefnydd?
- Sut fathau o ddymchwel sydd yn y diwydiant adeiladu?

Deilliant dysgu:

1. Deall dyluniad adeiladau a strwythurau

Meini Prawf

1.1 Tirfesur.

Ystod: Pwrpas, egwyddorion sylfaenol, cyfarpar.

1.2 Yr ystyriaethau amgylcheddol sy'n effeithio ar adeiladu.

Ystod: Mesurau rhagofalus, mesurau ataliol, cywiro yn y tarddiad, integreiddio o fewn yr amgylchedd, egwyddor y llygrwr sy'n talu.

1.3 Cynaliadwyedd.

Ystod: Egwyddorion cynaliadwyedd, pwysigrwydd cynaliadwyedd, effaith arferion cynaliadwy ac anghynaliadwy.

1.4 Dylunio gwastraff allan o brosiectau.

Ystod: Cynllunio, rhoi trefn ar wastraff, storio, prosiectau datblygu safonol.

1.5 Cynlluniau a dogfennau a ddefnyddir mewn adeiladu.

Ystod: Mathau o ddarluniau a graddfeydd, atodlenni, manylbau, croeslinellu a symbolau.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw dibenion tirfesur mewn adeiladu:

- Gosod y lefelau ar gyfer ffyrdd, draenau a sylfeini
- Cyfrifo ardaloedd a chyfeintiau rwbel
- Pennu safle a lleoliad adeiladau
- Cyfrifo'r bylchau ac onglau rhwng adeiladau.

Bydd dysgwyr yn gwybod diffiniadau/ystyr egwyddorion sylfaenol:

- Trosglwyddo lefelau a data
- Mesur tir â chadwynfeydd
- Mesur tir â chwmpas
- Meincnodau Arolwg Ordnans
- Meincnodau dros dro.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa offer a ddefnyddir i fesur tir, yn ogystal â nodweddion sylfaenol a defnyddiau pob un o'r canlynol:

- Theodolitau
- Staff
- Cwmpawdau
- Lefelau awtomatig

- Laserau
- Sganwyr.

1.2 Bydd dysgwyr yn deall y gwahanol ffyrdd y gall gweithgareddau adeiladu effeithio ar yr amgylchedd – drwy lygredd/difrod i'r aer, tir a/neu ddŵr ar neu o gwmpas safle adeiladu.

Bydd dysgwyr yn deall yr ystyriaethau amgylcheddol y mae'n rhaid eu cadw mewn cof wrth wneud gwaith adeiladu. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mesurau rhagofalus ac ataliol i leihau unrhyw effaith negyddol ar yr amgylchedd.

Bydd dysgwyr yn deall rôl lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, drwy gysyniadau cywiro ac integreiddio o fewn yr amgylchedd.

Bydd dysgwyr yn deall cyfrifoldebau sefydliadau adeiladu i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd, ac atebolwydd am yr hyn maent yn ei wneud drwy'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' – a ddeddfwyd i wneud y sawl sy'n gyfrifol am gynhyrchu llygredd yn gyfrifol am dalu am y difrod a wnaed i'r amgylchedd naturiol.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall egwyddorion cynaliadwyedd yng nghyd-destun dylunio adeiladau a strwythurau yn ogystal ag effaith arferion cynaliadwy/anghynaliadwy ar yr amgylchedd.

Bydd dysgwyr yn deall arferion cynaliadwy allweddol:

- Cadwraeth ecosystemau
- Optimeiddio potensial y safle
- Cadwraeth bioamrywiaeth
- Optimeiddio'r defnydd o ynni
- Gwarchod a chadw dŵr
- Optimeiddio gofod adeiladu a defnyddio deunyddiau,

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd datblygiad sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dylunio adeiladau a strwythurau i ymgorffori meintiau deunyddiau sydd ar gael yn fasnachol mewn prosiectau datblygu safonol:

- Defnyddio deunyddiau sy'n fwy cynaliadwy
- Diogelu rhag gwastraff: danfon fesul cam, storio er mwyn atal difrod ac i leihau gwastraff
- Ailgylchu deunyddiau/torbrennau ac ail-bwrpasu.

1.5 Bydd dysgwyr yn deall y cynlluniau a'r dogfennau a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu, gan gynnwys amserlenni a manylebau. Mae hyn yn cynnwys pwrpas a graddfeydd:

- Lluniadau lleoliad (cynlluniau bloc, cynlluniau safle)
- Lluniadau manwl (gan gynnwys rhodenni gosod allan)
- Lluniadau rhoi wrth ei gilydd
- Lluniadau ystod.

Bydd y dysgwyr yn gwybod am y prif fathau o luniadau a sut maen nhw'n cael eu defnyddio:

- amcanestyniadau orthograffig
- isometrig
- persbectif
- diagramau weirio.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod croeslinellu, symbolau a byrfoddau yn y prif luniadau a ddefnyddir.

Deilliant dysgu:

2. Adnabod y broses gynllunio

Meini Prawf

2.1 Rolau a chyfrifoldebau.

Ystod: Ffynonellau gwybodaeth, canllawiau swyddogol a chyngor.

2.2 Y prif reoliadau a deddfwriaeth ar gynllunio.

Ystod: Y prif fathau o ganiatâd, mathau o ddatblygiad a ganiateir, goblygiadau torri rheoliadau a deddfwriaeth.

2.3 Gwarchod treftadaeth.

Ystod: Mathau o warchod treftadaeth.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rolau a'r gwahaniaethau rhwng swyddog rheoli datblygu, swyddog cadwraeth treftadaeth adeiledig a swyddog rheoli adeiladu (awdurdod lleol neu Arolygydd Cymeradwy)

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r prif fathau o ganiatâd a sut mae'r rhain yn cefnogi datblygiadau a ganiateir:

- Caniatâd cynllunio (amlinellol, materion a gedwir yn ôl, llawn, rhyddhau/amrywio amodau)
- Cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu
- Caniatâd adeilad rhestredig
- Caniatâd ardal gadwraeth
- Caniatâd heneb gofrestredig.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw goblygiadau torri deddfwriaeth a rheoliadau:

- Gorfodi
- Erlyn
- Dymchwel.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o warchod treftadaeth ar gyfer adeiladau a strwythurau:

- Adeilad rhestredig (Gradd I, II* a II)
- Heneb gofrestredig
- Ardal gadwraeth
- Safle Treftadaeth y Byd
- Rhestrau lleol
- Esemptiad Eglwysig

Deilliant dysgu:

3. Deall y gwahanol gamau mewn adeiladu a gosod gwasanaethau

[Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu \(Lefel 2\)](#)

Meini Prawf

3.1 Strwythur adeilad.

Ystod: is-strwythurau, uwch-strwythurau, cydrannau mewnol.

3.2 Y dilyniant arferol o dasgau i adeiladu adeilad deulawr.

Ystod: Dilyniant y gwaith, crefftau'n gysylltiedig â phob tasg yn y dilyniant.

3.3 Cysylltiadau gweithio effeithiol a chynhyrchiol rhwng gwahanol fasnachau crefft.

Ystod: Dulliau cyfathrebu yn ystod y broses gynllunio ac adeiladu, ffyrdd o weithio.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

3.1 Bydd dysgwyr yn deall deunyddiau a rhinweddau pob rhan o strwythur yr adeilad.

Is-strwythurau:

Sylfeini: rafft, sribryn, pad, pentwr, blociau ffosydd, Cwrs Atal Lleithder.

Uwch-strwythurau:

Waliau allanol: dulliau clymu brics, cerrig, blociau, linteli (traddodiadol, modern), silffoedd ffenestri, inswleiddio, dolenni clymu brics.

Deunyddiau cladin: pren, metel, plastig.

Lloriau: llawr gwaelod soled, lloriau pren crog, lloriau pren uchaf, blociau a thrawstiau.

Toeau: fflat, talcen, slip a chafnau, traddodiadol a chypledig, gorchuddion to.

Grisiau syth a gyda throeon: chwarter tro, hanner tro, troellog, llinyn amlwg a chudd.

Cydrannau mewnol:

Waliau sy'n cynnal a ddim yn cynnal llwythau, gorffeniadau waliau mewnol (plastr, paent, a phapur), mowldio addurnol, ffitiadau glanweithdra a draenio, gosod unedau a cheginau.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am ddilyniant adeiladu adeilad deulawr. Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r adegau y bydd gwahanol feysydd crefft yn ymwneud â'r broses adeiladu, a byddant hefyd yn gallu gweld pan fydd angen i fwy nag un maes crefft gymryd rhan ar adegau penodol o'r broses adeiladu:

- Gwaith paratoi'r tir
- Cloddio
- Is-strwythur y sylfeini
- Gwaith brics uchder y cwrs atal lleithder
- Lloriau gwaelod
- Uwch-strwythur allanol
- Adeiladu'r llawr uchaf
- Adeiladu'r to
- Ffics cyntaf (adeiladu a gwasanaethau adeiladu)
- Gorffeniad y waliau mewnol
- Ail ffics (adeiladu a gwasanaethau adeiladu)
- Comisiynu a phrofi systemau plymio a thrydanol

- Gorffeniadau mewnol
- Gwneud rhestr o fân broblemau
- Telegyfathrebu.

3.3 Bydd dysgwyr yn deall y gwahanol ddulliau cyfathrebu sy'n cael eu defnyddio yn y broses gynllunio ac adeiladu. Maent yn deall pwysigrwydd cyfathrebu rhwng crefftau er mwyn sicrhau cysylltiadau gweithio effeithiol a chynhyrchiol. Maent yn deall y dulliau effeithiol o ddatblygu a chynnal cysylltiadau gweithio (parch, rheoli amser, cymhennu)

Deiliant dysgu:

4. Gwybod beth yw'r dulliau o hyrwyddo gwasanaethau yn y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig

Meini Prawf

4.1 Dulliau marchnata.

Ystod: Dulliau, mathau o fusnesau.

4.2 Effaith marchnata llwyddiannus ar fusnesau.

Ystod: Ariannol, enw da, blaen-gynllunio.

Deilliannau cyflawni (manyllder y cynnwys)

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau o farchnata, gan gynnwys dulliau traddodiadol a modern:

Dulliau traddodiadol: Clywed ar lafar, hysbysebion mewn papurau newydd, taflenni, llyfrau ffôn, radio.

Dulliau modern: Cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, teledu.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw manteision y gwahanol ddulliau marchnata, a sut mae'r rhain yn effeithio ar wahanol fathau o fusnes.

4.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o ffyrdd y gall marchnata llwyddiannus gael effaith gadarnhaol ar fusnes, yn enwedig mewn perthynas â sefydlogrwydd ariannol, enw da'r busnes, a'r gallu i flaengynllunio:

- Ehangu
- Arallgyfeirio
- Cyflogi staff
- Buddsoddi mewn systemau TG
- Buddsoddi mewn uwchraddio'r swyddfa
- Mwy o elw i fuddsoddwyr.

Deiliant dysgu:

5. Gwybod beth yw pwrpasau a'r gwahanol fathau o gynnal a chadw adeiladau, strwythurau a gwasanaethau

Meini Prawf

5.1 Mathau o wasanaeth, trefniadau cynnal a chadw a thrwsio ar gyfer meysydd crefft adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu.

Ystod: adeiladau, strwythurau, gwasanaethau, masnachwyr crefft.

5.2 Pwrpas gwasanaethu a chynnal a chadw.

Ystod: cynnal diogelwch, ymestyn oes yr adeilad, lleihau costau rhedeg, cynnal gwneuthuriad/cragen yr adeilad.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

5.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o wasanaeth ac atgyweirio sy'n ofynnol o fewn y diwydiant adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu.

- Cynnal a chadw a gynlluniwyd
- Cynnal a chadw heb ei gynllunio
- Cynlluniau gwasanaeth (Gas Safe, profion trydanol, puro systemau aerdymheru yn unol ag amserlen)
- Atgyweirio adeiladau a strwythurau (gan gynnwys gwaith atgyweirio sydd ei angen cyn ymgymryd â gwaith arall, fel newid defnydd ac ôl-osod).

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o wasanaeth ac atgyweirio y byddai angen i bob maes crefft ei gwblhau.

Meysydd crefft adeiladu:

Galwedigaethau gwaith coed, Galwedigaethau trywel, Plastro, Toi, Peirianeg Sifil, Paentio ac addurno.

Meysydd crefft peirianeg gwasanaethau adeiladu:

Plymio, Gwresogi ac Awyru, Trydanol, Peiriannydd nwy.

5.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas gwasanaethu, atgyweirio, a chynnal a chadw, a chanlyniadau posibl peidio ag ymgymryd â'r gwaith hwn.

Cynnal diogelwch: carbon monocsid, gollyngiadau nwy, sioc drydanol.

Sicrhau llai o risg: telegyfathrebu, larymau, systemau cloi.

Ymestyn oes yr adeilad: boeleri, offer sefydlog, gwasanaethu rheolaidd i helpu i leihau'r achosion o dorri i lawr.

Lleihau costau rhedeg: er mwyn atal achosion o dorri i lawr, cynnal defnydd effeithlon o ynni.

Cynnal gwneuthuriad/cragen yr adeilad: sicrhau ei fod yn atal dŵr rhag mynd i mewn, effeithiau traul.

Deilliant dysgu:

6. Deall ail-bwrpasu adeiladau a strwythurau

Meini Prawf

6.1 Ail-bwrpasu ac adfer adeiladau a strwythurau.

Ystod: Diffiniad, newid defnydd, ail-wampio, uwchraddio systemau.

6.2 Ailgylchu ac ailddefnyddio.

Ystod: Manteision, pwysigrwydd ailgylchu ac ailddefnyddio, deunyddiau traddodiadol a hanesyddol.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

6.1 Bydd dysgwyr yn deall y gwahanol ddulliau a rhesymau dros ail-bwrpasu ac adfer adeiladau a strwythurau, gan gynnwys:

Newid defnydd:

- Masnachol (gan gynnwys ysguboriau, siopau cornel, ardal siopa fawr i unedau manwerthu bach) i ddomestig
- Deiliadaeth sengl i amldeiliadaeth
- Adeiladau diwylliannol (gan gynnwys eglwysi) i ddomestig
- Adeiladau diwylliannol i ddefnydd gan y cyhoedd a'r gymuned
- Dyluniad hyblyg
- Diwydiannol i fasnachol (ffatrioedd/warysau i ganolfannau hamdden)
- Diwydiannol i ddomestig (warysau glan afon/dociau i fflatiau).

Ail-wampio: gan gynnwys trydan, systemau gwresogi.

Uwchraddio systemau: gan gynnwys boeleri, rhynggrwyd, systemau larwm.

6.2 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd y canlynol:

- Gwarchod adnoddau naturiol
- Llai o allyriadau carbon
- Ailgylchu metel
- Achub nodweddion archeolegol
- Agregau.

Bydd dysgwyr yn gwybod y canlynol:

- Manteision gan gynnwys uwchgylchu deunyddiau
- Manteision ailgylchu (modern a thraddodiadol/hanesyddol) gan gynnwys defnyddio deunyddiau cyfredol, cost-efeithiol, lleihau ôl-troed carbon, gwarchod treftadaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o le
- Ailddefnyddio deunyddiau traddodiadol a hanesyddol gan gynnwys brics, pren, llechi, cerrig sydd wedi'u hachub.

Deilliant dysgu:

7 Gwybod beth yw'r broses o ddymchwel a dad-adeiladu adeiladau a strwythurau

Meini Prawf

7.1 Gofynion datgomisiynu.

Ystod: Effaith ar yr amgylchedd, lechyd a diogelwch.

7.2 Dulliau dymchwel.

Ystod: Dulliau, dewis dull, risgiau.

7.3 Symud gwastraff dymchwel oddi ar safle.

Ystod: Camau mewn symud gwastraff dymchwel oddi ar safle, pwysigrwydd gwahanol gamau, ystyriaethau amgylcheddol, manteision.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

7.1 Bydd dysgwyr yn deall y broses ar gyfer ystyried effaith amgylcheddol datgomisiynu, gan gynnwys defnyddio asesiadau risg. Bydd dysgwyr yn gwybod bod y gofynion o ran lechyd a Diogelwch ar gyfer datgomisiynu yn cynnwys y canlynol:

- Diogelwch gweithwyr, y cyhoedd, yr ardal gyfagos
- Gwahanu gwasanaethau
- Cynllunio trefn y gwaith
- Asesiadau risg a datganiadau dull.

7.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddymchwel:

Dymchwel dethol, datgymalu/ dad-adeiladu, craen a phelen ddinistrio, mewnffrwydrad, dymchwel mecanyddol, dymchwel llwyr.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y ffactorau sy'n effeithio ar ddewis gwahanol ddulliau dymchwel. Bydd dysgwyr yn gwybod am y risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol ddulliau dymchwel, a sut i liniaru'r risgiau hynny.

Mae'r risgiau'n cynnwys: ffrwydrad, mynd yn sownd, cael eu gwasgu, anadlu nwy a llwch peryglus, asbestosis.

7.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw camau symud gwastraff dymchwel, pwysigrwydd y camau hyn a'u manteision:

- Cynllunio
- Diogelwch y safle
- Gwahanu gwasanaethau
- Symud a gwaredu gwastraff peryglus
- Symud deunyddiau y gellir eu hailddefnyddio
- Achub nodweddion archeolegol
- Gwaith malu brics a cherrig ar y safle i gynhyrchu agregau
- Ailgylchu gwastraff metel.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r ystyriaethau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â dymchwel adeiladau:

- Lleihau effaith tirlenwi
- Lleihau ôl troed carbon
- Llai o lygru'r amgylchedd.

Uned 104: Cyflogadwyedd yn y Sector Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	30

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw cael dysgwyr i ddeall adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, beth sydd angen ei wneud i fod yn rhan o'r diwydiant a symud ymlaen ynddo. Drwy gydol yr uned, bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i'r tîm Adeiladu a'r amryw byd o rolau sydd ar gael wrth feddwl datblygu llwybr gyrfa.

Bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'n ymwneud â:

- Llwybrau i mewn i'r sector a mynediad i bob llwybr
- Mathau o gyflogaeth
- Sut y gall y dysgwr ddod o hyd i rolau i ymgeisio amdanynt
- Llwybrau ar gyfer symud ymlaen mewn masnach grefft, gan gynnwys gwahanol lwybrau gyrfa a chyfleoedd addysgol
- Yr ymddygiad sy'n hanfodol i gyflogwyr
- Economeg busnes sylfaenol a sut y mae busnesau llwyddiannus yn cael eu rhedeg.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau i'w hunain fel:

- Sut y gallaf greu gyrfa i mi fy hun yn y diwydiant?
- Beth yw'r cyfleoedd gyrfaol mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig?
- Pa sgiliau ac ymddygiad fydd angen i mi eu dangos i lwyddo yn y diwydiant?

Deilliant dysgu:

1. Gwybod beth yw'r opsiynau a'r cyfleoedd cyflogaeth

Meini Prawf

1.1 Contractau contract cyflogi ar gael yn y diwydiant.

Ystod: contractau, gwahaniaethau.

1.2 Dod o hyd i gyfleoedd am waith a phrentisiaethau yn y diwydiant.

Ystod: mathau o ymchwil, paratoi ar gyfer gwaith, parodrwydd i weithio, llunio CV, paratoi ar gyfer cyfweliad.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o gontractau (prentisiaethau, labwrers, gwaith contract, cynnal a chadw, hunangyflogaeth a llwybrau cynnydd gan gynnwys swyddi rheoli a goruchwyllo) sydd ar gael yn y sector a'r gwahaniaethau rhwng pob un.

1.2 Bydd dysgwyr yn deall beth mae paratoi ar gyfer gwaith a pharodrwydd i weithio yn ei olygu. Bydd dysgwyr yn deall y broses o ymuno â'r diwydiant, gan gynnwys

- defnyddio gwahanol offer a thechnegau ymchwil i chwilio am swyddi gwag
- llunio CV
- sgiliau ymgeisio a chyfweld.

Deilliant dysgu:

2. Gwybod beth yw sgiliau cyflogadwyedd

Meini Prawf

- 2.1 Ymddygiad ac etheg gwaith.
Ystod: Ymddygiad cadarnhaol, ymddygiad negyddol.
- 2.2 Technegau datrys problemau.
Ystod: deunyddiau, offer, diogelwch a'r amgylchedd.
- 2.3 Sgiliau rhyngbersonol a gweithio mewn tîm.
Ystod: cyfraniad fel unigolyn, cyfraniad i'r tîm, sgiliau cyfathrebu.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r safonau a'r ymddygiad sy'n ofynnol ar gyfer gwaith ac sy'n cael eu defnyddio i greu agwedd gadarnhaol at waith.
Bydd dysgwyr yn gwybod am yr ymddygiad cadarnhaol a negyddol sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys ymddygiad sy'n ymwneud â chadw amser, agwedd, ymddangosiad personol, hyblygrwydd.
- 2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am y technegau datrys problemau sy'n cael eu defnyddio yn y gweithle. Byddant yn gwybod pa dechnegau i'w defnyddio wrth ddatrys problemau sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth o amser, ymwybyddiaeth ofodol a rheoli adnoddau. Byddant yn gwybod beth yw'r ystyriaethau wrth weithio mewn amgylcheddau gwahanol a sut i ddatrys problemau wrth gyflawni amrywiaeth o dasgau gan ddefnyddio deunyddiau ac offer gwahanol, gan sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a phobl eraill.
- 2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae perfformiad ac ymddygiad unigolyn yn effeithio ar y tîm ehangach a'r canlyniadau cyffredinol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gyfathrebu'n effeithiol (llafar, ysgrifenedig, gwrando/dilyn cyfarwyddiadau) ac yn gwrtais gyda holl aelodau'r tîm a'r cyhoedd. Byddant yn gwybod am y gwahanol ffyrdd o weithio sy'n ystyriol o bobl eraill.

Deiliant dysgu:

3. Deall egwyddorion busnes sylfaenol

Meini Prawf

3.1 Egwyddorion sylfaenol busnes.

Ystod: incwm, gwariant, cadw llyfrau, gorbenion, tyfu'r busnes.

3.2 Pwysigrwydd cynhyrchedd ac enw da.

Ystod: ansawdd, enw da.

3.3 Pwysigrwydd gwasanaeth cwsmeriaid.

Ystod: gwasanaeth cwsmeriaid da, canlyniadau diffyg cydymffurfio, disgwyliadau, achosion aflonyddwch.

3.4 Canlyniadau colli busnes.

Ystod: effeithiau cynllunio gwael, effeithiau colli busnes.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

3.1 Mae dysgwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng elw a cholled mewn perthynas ag incwm, gwariant a gorbenion. Dylent allu nodi gorbenion cyffredin busnes ynghyd â dulliau cadw llyfrau sylfaenol. Dylent allu adnabod manteision rhwydweithio ar gyfer twf busnes.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y cyswllt rhwng cynhyrchedd ac enw da ynghyd â phwysigrwydd cynnal ansawdd. Bydd dysgwyr yn gallu deall sut y bydd cynnal enw da yn helpu i sicrhau cwsmeriaid a chontractau newydd, cadw staff ac elw.

3.3 Bydd dysgwyr yn gallu deall yr angen am wasanaeth cwsmeriaid cadarnhaol ar bob cam o gontract busnes, a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Dylent fod yn gallu adnabod ffyrdd cadarnhaol o weithio drwy osod disgwyliadau clir gyda chwsmeriaid, gan gynnwys cynllunio ac amserlennu, a strwythur prisio ac anfonebu clir. Bydd dysgwyr yn gallu nodi achosion aflonyddwch i'r cyhoedd yn sgil materion traffig, mynediad a llygredd. Bydd dysgwyr yn adnabod y termau canlynol:

- Ymgysylltu cychwynnol
- Prisiau a dyfynbrisiau
- Amserlennu
- Cyflawni'r contract
- Tryloywder
- Ansawdd y gwaith
- Adeiladu ystyriol
- Cosbau.

3.4 Bydd dysgwyr yn deall effeithiau cynllunio gwael a chyflawni'r gwaith yn unol â'r contract. Bydd dysgwyr yn gallu gweld sut mae colled yn effeithio ar y busnes yn gyffredinol, gan gynnwys:

- Colli enillion
- Colli asedau
- Oedi o ran twf pellach
- Diswyddo staff
- Sgôr credyd
- Ffioedd am daliadau hwyr
- Methdaliad a chadw staff.

Deiliant dysgu:

4. Gallu defnyddio sgiliau busnes a chyflogadwyedd sylfaenol

Meini Prawf

4.1 Sgiliau ymchwil sylfaenol.

Ystod: chwilio'r we, chwilio drwy lenyddiaeth, gweithio gydag eraill.

4.2 Cyfrifiadau sylfaenol ac anfonebu.

Ystod: cyfrifo elw a cholled, cyfrifo anfonebau sylfaenol.

4.3 Datrys problemau.

Ystod: gweithio gydag eraill, deunyddiau, offer a chyfarpar, diogelwch a'r amgylchedd.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 Bydd dysgwyr yn gallu gwneud gwaith ymchwil sylfaenol ar gyfer tasgau syml (fel chwilio am gyfleoedd gwaith ar gyfer gwahanol grefftau, dod o hyd i ffynonellau addas a dibynadwy ar gyfer dogfennau cynllunio a profformas). Bydd dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o offer a thechnegau, gan gynnwys chwilio'r we, chwilio drwy lenyddiaeth, a gweithio gyda rhanddeiliaid.

4.2 Bydd dysgwyr yn gallu gwneud cyfrifiadau sylfaenol gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd iddynt. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gyfrifo'r prif gostau a defnyddio maint yr elw er mwyn pennu elw/colled. Bydd dysgwyr yn gallu deall yr wybodaeth a ddefnyddir mewn anfonebau sylfaenol a sut mae gwerthoedd anfonebau'n cael eu cyfrifo.

4.3 Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn gallu defnyddio technegau datrys problemau sylfaenol wrth gynllunio ar gyfer amrywiaeth o dasgau, yn enwedig mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o amser, ymwybyddiaeth ofodol a rheoli adnoddau. Mae dysgwyr yn gweithio mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i gyflawni tasgau gan ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau ac offer mewn amgylchedd sy'n ystyried eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill bob amser.

Uned 105: Amddiffyn Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wrth weithio yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	48

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn ennill dealltwriaeth o adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a beth y mae'n ei olygu i weithio gan hefyd ystyried diogelu'r amgylchedd, yn ogystal â gwarchod eu hiechyd a'u lles eu hunain a phobl eraill.

Bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'n ymwneud â:

- Deddfwriaeth iechyd a diogelwch
- Sut y mae rheoliadau'n rheoli sut y mae gwaith yn cael ei wneud
- Rheolau diogelwch cyffredin a ffynonellau canllawiau, a sut y mae'r rhain yn effeithio ar ddysgwyr fel unigolion a hefyd ar eu goruchwylwyr, y client, y cyhoedd a sefydliadau adeiladu.
- Egwyddorion iechyd a lles yn y gweithle, er enghraifft rheoli damweiniau a'r risgiau cyffredin y gallent eu hwynebu
- Ystyriaethau sylfaenol o ran eu lles personol, gan gynnwys iechyd meddwl, bwllo yn y gweithle a chamddefnyddio sylweddau.

Bydd dysgwyr yn rhoi'r wybodaeth yma ar waith yn yr amgylchedd adeiladu ac yn gallu adnabod peryglon, asesu risg ac awgrymu camau priodol i'w cymryd. Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i weithio ag ystod o gyfarpar gwaith ac yn cael eu dysgu i ddiogelu eu hunain a phobl eraill rhag risgiau posibl.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau i'w hunain fel:

- Pa risgiau sydd ar safle adeiladu?
- Beth yw ymarfer gorau iechyd a diogelwch?
- Sut orau y gallaf warchod fy hun, pobl eraill a'r amgylchedd wrth weithio ar safle?

Deilliant dysgu:

1. Gwybod beth yw iechyd a diogelwch yn y gweithle

Meini Prawf

1.1 Pwysigrwydd iechyd a diogelwch.

Ystod: diogelwch personol, diogelwch safle, canlyniadau diffyg cydymffurfio.

1.2 Rheoliadau.

Ystod: pwrpas rheoliadau, canlyniadau peidio â chydymffurfio â rheoliadau, pwy y mae'r rheoliadau'n effeithio arnynt.

1.3 Rolau a Chyfrifoldebau.

Ystod: yr unigolyn, y cyflogwr, y cleient, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwysigrwydd iechyd a diogelwch, iddynt hwy eu hunain ac eraill ar y safle. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw canlyniadau posibl arferion iechyd a diogelwch gwael, gan gynnwys peidio â chydymffurfio. Dylent wybod am weithdrefnau diogelwch y safle, gan gynnwys sgysiau blwch offer, sesiynau cynefino, mynedfeydd ac allanfeydd diogel.

1.2 Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau canlynol:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA)
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
- Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER)
- Rheoliadau Codi a Chario
- Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith
- Rheoliadau Gweithio mewn Mannau Uchel
- Rheoliad Rheoli Sŵn yn y Gwaith
- Rheoliadau Rheoli Dirgrynu yn y Gwaith
- Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (LOLER)
- Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) (CDM)
- Cod Ymarfer Cymeradwy (ACOP)
- Gwybodaeth HSE.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas pob un o'r rheoliadau a restrir, pwy y mae'r rheoliad yn effeithio arnynt, a'r ystod o ganlyniadau posibl drwy beidio â chydymffurfio â'r rheoliad.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu cyfrifoldeb personol tuag at weithio'n ddiogel ar y safle a gallu adnabod rôl a chyfrifoldeb eu cyflogwr. Byddant yn gwybod am y mathau o arferion gwael a'u cyfrifoldebau o ran adrodd drwy'r sianelau cywir. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'i gyfrifoldeb o ran rheoli diffyg cydymffurfiaeth drwy gyhoeddi hysbysiadau gwella, hysbysiadau gwahardd a phwerau erlyn dilynol. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r cleient a'r pensaer dan reoliadau CDM.

[Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheiranneg Gwasanaethau Adeiladu \(Lefel 2\)](#)

Deiliant dysgu:

2. Gwybod beth yw'r ystyriaethau iechyd a lles ar gyfer gweithio ar safle

Meini Prawf

2.1 Damweiniau ac anafiadau yn y gwaith.

Ystod: damweiniau ac anafiadau cyffredin, achosion, canlyniadau, cyfrifoldebau, atal.

2.2 Gweithdrefnau adrodd.

Ystod: rolau a chyfrifoldebau; adrodd damweiniau; gweithdrefnau.

2.3 Lles personol.

Ystod: glendid personol, iechyd corfforol, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau.

2.4 Lles ar y safle.

Ystod: cyfrifoldebau, cyfleusterau.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y damweiniau canlynol sy'n gyffredin yn y diwydiant a sut maen nhw'n cael eu hachosi:

Lithro, baglu a chwympo, dirgrynu llaw a braich, sŵn, salwch anadlol, dermatitis, problemau cyhyrysgerbydol, sioc drydanol, torri asgwrn, gweithio mewn mannau uchel, mân losgiadau, briwiau, sblintiau, anafiadau trin a thrafod pwysau, a marwolaethau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae'r damweiniau hyn yn achosi anafiadau, a'r canlyniadau maent yn eu cael ar y gweithiwr a'r sefydliad. Bydd dysgwyr yn gwybod am ffyrdd o benderfynu sut i ymateb a'r ffordd briodol o ymateb i ddamweiniau ac anafiadau mewn perthynas â'u cyfrifoldebau. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae strategaethau atal yn cael eu penderfynu.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rolau a chyfrifoldebau swyddog cymorth cyntaf, gan gynnwys llenwi llyfr damweiniau. Bydd dysgwyr yn gwybod am gyfrifoldebau cofnodi damweiniau mewn perthynas â RIDDOR ynghyd â'r cyngor a chyfarwyddyd perthnasol sydd ar gael. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod y gweithdrefnau cofnodi damweiniau ac i bwy i roi gwybod am ddamweiniau ac anafiadau. Rhaid i ddysgwyr wybod beth yw'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau, damweiniau a fu bron â digwydd, peryglon a risgiau a'r lefel cymhwysedd wrth adrodd a chofnodi.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y technegau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt gadw'n iach yn y gwaith. Byddant yn gwybod sut i adnabod pwysigrwydd cynnal eu lles eu hunain, boed hynny'n iechyd corfforol drwy ddefnyddio technegau codi a chario cywir fel y dulliau codi cinetig cywir naill ai â llaw neu beiriant a fyddai'n atal ysgiad i'r gweithredwr. Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw gofalu am eu hiechyd meddwl ac i bwy y dylent roi gwybod am unrhyw broblemau. Byddant yn gwybod am y math o ymddygiad nad yw'n dderbyniol yn y gwaith ac yn ymwybodol o arwyddion bwlio. Byddant yn gwybod sut i adnabod pan fydd bwlio'n digwydd, y gefnogaeth sydd ar gael i'r rheini sy'n cael eu bwlio a'r ffordd briodol o uwchgyfeirio a chodi ymwybyddiaeth o ymddygiad amhriodol. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y safonau ar gyfer hylendid personol ac ymddangosiad personol yn y gwaith. Bydd dysgwyr yn gwybod am orfodaeth a dim goddefgarwch tuag at ddefnyddio a chamddefnyddio alcohol a chyffuriau, yn ogystal â chanlyniadau eu defnyddio i'r unigolyn ac i'r sefydliad ehangach.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o gyfleusterau lles y mae'n rhaid i gyflogwyr eu darparu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol (cyfleusterau toiled ac ymolchi, cyfleusterau sychu, ffreutur).

Deiliant dysgu:

3. Deall egwyddorion rheoli risg

Meini Prawf

3.1 Terminoleg.

Ystod: damwain, damwain a fu bron â digwydd, perygl, risg, cymhwysedd.

3.2 Y broses asesu risg.

Ystod: pwrpas, cwblhau asesiad risg, adnabod peryglon, sgorio risg, datganiadau dull, trwyddedau i weithio.

3.3 Cyfarpar Diogelu.

Ystod: defnydd, pwrpas.

3.4 Gweithdrefnau brys.

Ystod: arwyddion allanfeydd, diffoddyddion tân, pwyntiau ymgynnull, rolau a chyfrifoldebau.

3.5 Arwyddion diogelwch.

Ystod: categorïau, gorfodol, gwahardd, perygl, arwyddion gwybodaeth, tân, cyflwr diogel.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am yr ystod o derminoleg sy'n gysylltiedig â rheoli risg ac yn deall eu diffiniadau a sut maent yn cael eu defnyddio.

3.2 Bydd dysgwyr yn deall pwrpas asesiadau risg, sut maent yn cael eu defnyddio mewn diwydiant a phwy sy'n gyfrifol am eu cynhyrchu. Bydd dysgwyr yn gallu deall y gofynion cyfreithiol a chanlyniadau methu â chynnal asesiad risg, i'r cyflogai ac i'r cyflogwr. Bydd dysgwyr yn gallu pennu sgoriau risg priodol ar gyfer peryglon a risgiau cyffredin yn y gweithle. Byddant yn deall sut mae risg yn cael ei gategoreiddio a sut mae ei sgôr yn cynrychioli difrifoldeb y risg. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod sut y byddai asesiad risg yn cyfrannu at ddatganiad dull a/neu drwydded waith. Bydd dysgwyr yn deall yr angen am ddatganiadau dull a sut mae'r rhain yn arfer cyffredin ac yn hanfodol mewn diwydiant. Bydd dysgwyr yn deall y drefn ar gyfer rheoli risg: Cynllunio'r amserlen; nodi'r peryglon posibl; nodi pwy sydd mewn perygl; sgorio difrifoldeb y risg; rhoi mesurau rheoli ar waith.

3.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y darnau cyffredin o gyfarpar diogelu personol a chyfarpar diogelu anadlol ac yn deall pryd y dylid eu defnyddio, gan gynnwys:

- Esgidiau
- Padiâu
- Harnais
- Siwt
- Menig
- Dillad llachar
- Amddiffyniad llygaid
- Amddiffyniad clustiau

- Amddiffyniad y pen
- Amddiffyniad anadlol.

3.4 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau a sut i ymateb yn unol â'r rhain mewn argyfwng, gan gynnwys rhoi gwybod, cysylltu â'r gwasanaethau brys, gweithdrefnau gwagio'r adeilad a mannau ymgynnull. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y gwahanol ddiffoddyddion tân a'u defnydd mewn perthynas â'r triongl tân.

3.5 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod yr ystod o arwyddion (gorfodol, gwahardd, perygl, arwyddion gwybodaeth, tân, cyflwr diogel) a ddefnyddir ar y safle a sut y maent yn cael eu categorio.

Deiliant dysgu:**4. Gwybod beth yw'r cyfarpar a'r risgiau cysylltiedig mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig****Meini Prawf**

4.1 Cyfarpar mynediad a gweithio mewn mannau uchel.

Ystod: mathau o gyfarpar, storio cyfarpar, peryglon, goblygiadau.

4.2 Offer pŵer.

Ystod: gwahanol offer pŵer, adnabod risg, rheoli risg, cynnal a chadw.

4.3 Peiriannau a pheirianwaith.

Ystod: cerbydau, cyfarpar codi a symud, peiriannau unfan a'r peryglon cysylltiedig.

4.4 Risgiau mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

Ystod: meysydd risg wrth weithio, gweithio gyda sylweddau peryglus, storio sylweddau peryglus, adeiladau anniwel.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o offer mynediad sy'n cael eu defnyddio yn y diwydiant, gan gynnwys grisiau, ysgolion, tyrau sgaffald symudol, llwyfannau, ysgolion to, sgaffaldiau sefydlog, Llwyfannau Gwaith Codi Symudol (MEWPs), cymorth codi, craeniai, a'r peryglon sy'n gysylltiedig â gweithio mewn mannau uchel gan gynnwys llithro, baglu a chwympo, gwrthrychau'n disgyn, gorymestyn, gweithwyr dibrofiad, ac offer mynediad anghywir.

Byddant yn gallu nodi'r gwahanol ffyrdd o ddefnyddio'r offer a pha mor addas ydynt ar gyfer cyflawni tasgau ar y safle.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau storio cyfarpar yn ddiogel ac yn gywir.

Bydd dysgwyr yn diffinio'r term 'gweithio mewn mannau uchel'.

Bydd dysgwyr yn adnabod goblygiadau diogelwch defnyddio cymorth codi/craeniai mewn perthynas ag arferion lechyd a Diogelwch cyffredin a chadw eu hunain yn ddiogel yn y gwaith.

4.2 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod yr ystyriaethau wrth ddefnyddio gwahanol fathau o offer pŵer, gan gynnwys y camau gwirio cyn defnyddio y mae angen eu gwneud, sut mae dewis yr offer mwyaf priodol ar gyfer y dasg, y rheolaethau i reoli risg a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer pŵer. Bydd dysgwyr yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio offer trydanol ynghyd ag ystyriaethau diogelwch cysylltiedig fel ceblau, trawsnewidyddion a dyfeisiau cerrynt gweddilliol (RCDs). Bydd dysgwyr yn adnabod y risgiau sy'n gysylltiedig ag offer pŵer sy'n defnyddio batri, tanwydd ac aer cywasgedig.

4.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am yr ystod o arwyddion perygl a rhybudd a'r risgiau rheoli sy'n gysylltiedig â pheiriannau ac offer sefydlog a symudol a ddefnyddir mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

Bydd dysgwyr yn deall y pellteroedd diogel a'r llwybrau sydd eu hangen ar gyfer gweithrediadau ac wrth ddefnyddio peiriannau. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o'r goblygiadau os yw'n anodd i'r gweithredwr weld yn glir.

4.4 Bydd dysgwyr yn gallu nodi meysydd gwaith sydd â lefelau risg uchel a sut mae mesurau arbennig yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y meysydd hyn:

- Gweithio mewn mannau cyfyng
- Gweithio gyda, ac yn agos at wasanaethau uwchben a thanddaearol fel nwy neu drydan
- Gweithio mewn ffosydd
- Gweithio mewn ffosydd

Bydd dysgwyr yn gallu nodi gwasanaethau yn y tir a pha gamau y dylid eu cymryd ar ôl dod o hyd i'r gwasanaethau hyn.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw goblygiadau adeiladu adeiladau, strwythurau neu gynnyrch anniogel, yr hyn a olygir â pherygl i'r adeiladau a'r strwythurau hyn, a sut i gadw'n ddiogel pan fyddant wedi'u nodi.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r prif dechnegau ar gyfer adnabod, ynysu, amddiffyn, comisiynu a datgomisiynu gwasanaethau.

Bydd dysgwyr yn gallu penderfynu sut mae sylweddau (powdr, cemegau, nwy a chan gynnwys asbestos) sy'n beryglus i iechyd yn gallu achosi niwed i'r corff, fel llyncu, chwistrellu ac anadlu i mewn.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio sylweddau peryglus yn ddiogel, gan gynnwys deunyddiau a chemegau llosgadwy.

Deilliant dysgu:

5. Gwybod beth yw egwyddorion gwarchod yr amgylchedd

Meini Prawf

5.1 Rheoli a gwaredu gwastraff.

Ystod: Didol, ailgylchu, tirlenwi, llosgi, gwaredu gwastraff peryglus, llwch.

5.2 Llygredd.

Ystod: Halogi'r tir, halogi'r aer, llygredd sŵn, llygredd cyrsiau dŵr.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

5.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o wastraff a geir ar safleoedd yn gyffredinol ac yn gwybod sut y dylid ei ddidol a'i waredu'n ddiogel neu ei aildddefnyddio/ailgylchu, gan gynnwys gwastraff a fyddai'n mynd i safleoedd tirlenwi neu'n cael ei losgi. Bydd dysgwyr yn gwybod am y gofynion i adael y safle'n daclus ar ôl cwblhau'r gwaith, gan sicrhau nad oes unrhyw beryglon posibl i ddefnyddwyr yr adeilad yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd rheoli llwch drwy gydol y broses adeiladu, ynghyd â'r goblygiadau.

5.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw prif achosion y gwahanol fathau (tir, aer, sŵn, dŵr) o lygredd mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o lygredd aer, gan gynnwys mwg, llwch a mygdarth. Bydd dysgwyr yn gwybod am y ffyrdd cywir o weithio a all gyfyngu ar lygredd, a'i leihau. Bydd dysgwyr yn gallu dweud sut mae glynu wrth egwyddorion y cytunwyd arnynt yn gwneud adeiladu yn fwy ystyriol o'r gymuned ehangach.

Deilliant dysgu:

6. Gallu cymhwyso egwyddorion rheoli gwastraff wrth weithio yn y sector Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig

Meini Prawf

6.1 Dilyn arferion rheoli a gwaredu gwastraff sylfaenol.

Ystod: didol, ailgylchu, tirlenwi, llosgi, gwaredu gwastraff peryglus, llwch.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

6.1 Bydd dysgwyr yn gallu cael gwared ar wahanol fathau o wastraff a geir ar safleoedd mewn ffordd briodol. Byddant yn dangos sut y dylid ei didol yn briodol a'i waredu'n ddiogel neu ei aildddefnyddio/ailgylchu. Bydd dysgwyr yn dangos y gallu i adael y safle'n daclus ar ôl cwblhau'r gwaith, gan sicrhau nad oes unrhyw beryglon posibl i ddefnyddwyr yr adeilad/safle yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn dangos pwysigrwydd rheoli llwch drwy gydol y broses adeiladu.

Uned 106: Cyflwyniad i dechnolegau datblygol yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	20

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn cael eu cyflwyno i dechnolegau datblygol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig, eu defnyddiau a'u manteision i'r diwydiant. Bydd dysgwyr hefyd yn cael eu cyflwyno i dechnolegau sydd ar y gorwel ar gyfer y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r canlynol:

- Cyflwyniad i Fodelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) a sut y mae'n cael ei ddefnyddio'n eang ar draws y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys crefftwyr, rheolwyr prosiect a'r defnyddiwr yn y pen draw.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Sut y gellir defnyddio technoleg mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig?
- Beth yw manteision cofleidio technoleg newydd?
- Beth yw'r ystyriaethau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer defnyddio technoleg newydd?

Deiliant dysgu:

1. Gwybod beth yw Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig

Meini Prawf

1.1 Cyflwyniad i BIM

Ystod: egwyddorion, proses, y prif gamau, cydweithredu.

1.2 Terminoleg allweddol

Ystod: diffiniadau o dermau allweddol, lle yn y broses.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod yr allbynnau 3D a 4D o BIM mewn perthynas â chynllunio, dylunio, adeiladu, rheoli adeiladau, seilwaith, cydweithio.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r diffiniad a'r lleoliad yng nghylch bywyd BIM: Amgylchedd Data Cyffredin (CDE), glanio meddal, cynllun gwaith digidol, Modelu Gwybodaeth Prosiect (PIM), Modelu Gwybodaeth Asedau (AIM), COBie, Gofynion Gwybodaeth y Cyflogwr (EIR), Cynllun Gweithredu BIM (BEP), Protocol BIM, cyflogwr yn y gadwyn gyflenwi.

Deilliant dysgu:

2. Gwybod am dechnolegau a deunyddiau datblygol

Meini Prawf

2.1 Cyflwyniad i argraffu 3D.

Ystod: defnyddiau, manteision, cyfyngiadau.

2.2 Cyflwyniad i dechnolegau ymgolli.

Ystod: efelychiadau, cydweithredu, prawf cysyniad a chynllunio.

2.3 Deunyddiau esblygol

Ystod: defnydd, buddion, manteision

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd gan ddysgwyr wybodaeth sylfaenol am y cysyniad o argraffu 3D gan gynnwys ei ddefnyddiau, manteision a'i gyfyngiadau o ran cynllunio, dylunio, modelu ac adeiladu.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion Realiti Rhithwir (VR), Realiti Estynedig (AR) a Realiti Cymysg (MR) a sut i wahaniaethu rhyngddynt. Bydd gan ddysgwyr ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio'r technolegau hyn mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig drwy efelychiadau ac mewn sefyllfaoedd cydweithredol i ddangos prawf cysyniad a chynllunio.

2.3 Bydd dysgwyr yn deall manteision a budd deunyddiau esblygol newydd a'u defnydd, gan gynnwys adeiladau sy'n defnyddio:

- Graphene
- Gorchuddion arwynebau
- Deunyddiau awyru adeiladau
- To hylif
- Alwminiwm tryloyw
- Concridd hunan-drwsio.

Deilliant dysgu:

3. Gwybod beth yw adeiladu oddi ar y safle

Meini Prawf

3.1 Manteision adeiladu parod.

Ystod: cynaliadwyedd, gwerth, effeithlonrwydd.

3.2 Mathau o waith parod

Ystod: mathau o adeiladau parod, cydrannau a chydosiadau parod, defnyddiau, nodweddion, deunyddiau adeiladu.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw manteision adeiladu parod o ran cynaliadwyedd, gwerth ac effeithlonrwydd.

Cynaliadwyedd: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol.

Gwerth: technegol, ansawdd, boddhad cwsmeriaid.

Effeithlonrwydd: amser, gwastraff, hyblygrwydd.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o adeiladau parod, is-osodiadau a chydrannau a deunyddiau adeiladu a'u defnydd a'u nodweddion mewn gwaith adeiladu parod.

Mathau o adeiladau parod: systemau panel, systemau cyfeintiol, systemau hybrid (gan gynnwys podiau ystafell ymolchi a phodau chegin).

Is-osodiadau a chydrannau: systemau to a waliau, systemau llawr, cydrannau a ddefnyddir mewn is-osodiadau (gan gynnwys podiau ystafelloedd ymolchi hybrid).

Deunyddiau adeiladu: concrit, dur, pren, hybrid.

Uned 107: Gweithio gyda briciau, blociau a cherrig

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn dysgu'r egwyddorion, yr wybodaeth a'r sgiliau ymarferol ar gyfer deall y derminoleg sy'n berthnasol i'r grefft a ddefnyddir mewn galwedigaethau trywel.

Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i offer a chyfarpar a ddefnyddir yn y grefft hon ac yn dysgu'r ffordd fwyaf diogel o weithio gyda'r cyfarpar a deunyddiau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gallu deall sut i ddefnyddio dogfennau perthnasol i gyfathrebu gwybodaeth am y gwaith sydd i'w wneud.

Bydd y dysgwr yn gwybod sut i ddewis, storio a pharatoi deunyddiau ar gyfer gosod briciau, blociau a cherrig ac yn datblygu sgiliau ymarferol a fydd yn eu galluogi i gymysgu deunyddiau, trin, storio a stacio deunyddiau'n barod i'w defnyddio. Bydd y dysgwr yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i osod brics, blociau a cherrig ar linell, a sgiliau gwirio uchder, lefel a phlymio'r gwaith.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau i'w hunain fel:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng briciau, blociau a cherrig?
- Beth yw'r broses o adeiladu wal?
- Sut ddylwn i drin y deunyddiau a ddefnyddir mewn galwedigaethau trywel?
- Sut y gallaf weithio i sicrhau fy mod yn ddiogel wrth weithio gyda briciau, blociau a cherrig?

Deilliant dysgu:

1. Egwyddorion sylfaenol y galwedigaethau trywel

Meini Prawf

1.1 Deall gwaith a rolau ym maes crefft y galwedigaethau trywel.

Ystod: cynllunio'r gwaith, paratoi'r ardal waith, gorchuddio, gosod a diogelu deunyddiau, dulliau gosod, lefelu, leinio, plymio, mesur mortar, ystyriaethau amgylcheddol

1.2 Yr offer a'r cyfarpar a ddefnyddir.

Ystod: ar gyfer gweithgareddau codi waliau brics, blociau a cherrig, defnyddiau priodol

1.3 Y deunyddiau a ddefnyddir mewn galwedigaethau trywel.

Ystod: briciau, blociau, carreg naturiol, carreg ailgyfansoddedig, tywod, sment, plastigwr, calch, dŵr, adioliion.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng rôl ac arferion gosod briciau a gwaith maen. Byddant yn deall pwysigrwydd didoli a gwaredu gwastraff yn ddiogel yn unol â'r rheoliadau presennol. Byddant yn gallu cydnabod pwysigrwydd deunyddiau cynaliadwy, moesegol a lleol.

1.2 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r ystod o offer a chyfarpar a'r defnydd priodol ohonynt ar gyfer gweithgareddau codi briciau, blociau a cherrig:
Trywel gosod, trywel bwyntio, morthwyl postyn, morthwyl briciau, morthwyl sgiwr, bollt, tâp, llinell, pinnau a blociau cornel, lefel saer, lefel gwch, haearn uniadu, rhoden fesur, bwcedi rhaw, blwch medrydd, sgwâr safle, proffiliau

1.3 Bydd dysgwyr yn gallu nodi amrywiaeth o ddeunyddiau a'u defnydd mewn galwedigaethau trywel.

Deiliant dysgu:

2. Deall prosesau stacio, storio a pharatoi deunyddiau ar gyfer adeiladu waliau brics, blociau a cherrig

Meini Prawf

2.1 Rhesymau dros stacio a storio deunyddiau.

Ystod: gwarchod, effeithlonrwydd, diogelwch

2.2 Dulliau o baratoi mortar i weithio.

Ystod: mesur a chymysgu mortar, cymarebau, cymysgu gyda llaw a pheiriant

2.3 Dulliau o baratoi'r ardal waith.

Ystod: gosod y byrddau mortar yn barod i weithio, symud a stacio brics, blociau a cherrig yn barod ar gyfer y gwaith.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn cydnabod y rhesymau dros storio deunyddiau cyn eu defnyddio er mwyn eu gwarchod rhag y tywydd, rhag difrod a rhag cael eu dwyn. Bydd dysgwyr hefyd yn cydnabod y rhesymau dros stacio a storio deunyddiau o ran effeithlonrwydd yng nghyswllt paratoi ar gyfer gwaith.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae paratoi a gosod mortar ar gyfer adeiladu waliau brics, blociau a cherrig. Byddant yn gallu nodi'r gwahanol ddulliau o fesur a chymysgu, a nodi'r dull a'r gymhareb fwyaf addas ar gyfer tasg benodol.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gosod deunyddiau er mwyn gweithio'n effeithlon. Byddant yn cydnabod yr ystyriaethau diogelwch iddynt hwy eu hunain ac eraill wrth symud a stacio deunyddiau i sicrhau eu bod yn sefydlog, ar dir cadarn ac ar uchder diogel i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r cymhorthion codi addas, yn rhai ffisegol a mecanyddol, sy'n cael eu defnyddio i symud gwahanol bwysau, siapiau ac ansawdd deunyddiau.

Deilliant dysgu

3. Cynllunio i gwblhau tasgau cyffredin mewn brics, blociau a cherrig

Meini Prawf

3.1 Cynllunio trefn y gwaith.

Ystod: amserlen, darluniau, manylebau, rhestr llafur a deunyddiau, gwybodaeth y gwneuthurwr, adnoddau, cyfarwyddiadau, datrys problemau, gwaith tîm.

3.2 Cyfrifo meintiau.

Ystod: mesur arwynebedd, mesuriadau llinellol, lwfansau ar gyfer gwastraff.

3.3 Cofnodi gwaith.

Ystod: taflenni amser, taflenni gwaith, rhestr offer a deunyddiau, rhestr mân broblemau, cofnodi danfoniadau nwyddau

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu dehongli'r gwahanol fathau o wybodaeth dechnegol i nodi a chynllunio trefn y gwaith yn effeithiol mewn perthynas â'r dasg. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cyfleu gwybodaeth yn effeithiol i aelodau eraill o'r tîm.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu cyfrifo meintiau deunyddiau a lwfansau ar gyfer gwastraff gan ddefnyddio fformiwla. Byddant yn gallu nodi a dangos gwahanol ddulliau o gyfrifo ardaloedd a mesuriadau llinol.

3.3 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y defnydd o wahanol ddogfennau a ddefnyddir i gofnodi ac amlinellu gwaith. Byddant hefyd yn gallu cwblhau'r dogfennau sy'n berthnasol i'r dasg.

Deilliant dysgu

4. Gosod allan ac adeiladu ystod o waliau mewn briciau, blociau a cherrig

Meini Prawf

4.1 Gosod allan ac adeiladu waliau syth.

Ystod: uniadau briciau ar eu hyd, hanner uniadau, uniadau sych.

4.2 Gosod allan ac adeiladu conglfeini dychwelyd.

Ystod: camu brics yn ôl, brics pen.

4.3 Cyflawni'r gwaith yn effeithiol a diogel.

Deilliannau dysgu (manylder y cynnwys)

4.1/4.2 Bydd dysgwyr yn gallu dehongli gwybodaeth er mwyn gosod allan yn effeithiol ac adeiladu waliau syth a chonglfeini dychwelyd. Byddant yn gallu defnyddio amrywiaeth o offer, cyfarpar a deunyddiau lleol. Byddant yn gallu torri brics, blociau a cherrig yn gywir gan ddefnyddio offer llaw.

4.3 Bydd dysgwyr yn gallu gwneud y gwaith yn effeithiol ac yn ddiogel yn unol â rheoliadau ac amserlenni y cytunwyd arnynt.

Deilliant dysgu

5. Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau cyffredin gyda briciau, blociau a cherrig

Meini Prawf

5.1 Gwerthuso yn erbyn safonau.

Ystod: ansawdd y gorffeniad, gweithio ar sail goddefiannau, gallu gweithio i amserlenni penodedig, arferion gweithio diogel

5.2 Dadansoddi perfformiad.

Ystod: hunan-werthuso, gwerthuso gan gyd-fyfrwyr, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith, graddio.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

5.1 Bydd dysgwyr yn adnabod safonau'r diwydiant a ddisgwylir mewn galwedigaethau trywel ac yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn effeithiol yn erbyn goddefiannau penodol. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n brydlon yn unol â'r amserlen ac mewn ffordd ddiogel.

5.2 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill. Bydd dysgwyr yn cydnabod y cyfle i wella eu perfformiad eu hunain drwy fesur eu cyflawniad.

Uned 108: Galwedigaethau Gwaith Coed

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ymarfer a datblygu sgiliau gwaith coed a saerniaeth. Bydd dysgwyr hefyd yn ennill dealltwriaeth o'r rôl, yr offer, y deunyddiau a'r cyfarpar a ddefnyddir wrth wneud tasgau gwaith coed.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahanol alwedigaethau gwaith coed?
- Sut ddylwn i gynllunio tasgau gwaith coed?
- Pa offer fydda' i'n eu defnyddio ar gyfer tasgau gwaith coed?

Deiliant dysgu:

1. Gwybod yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer galwedigaethau gwaith coed

Meini Prawf

1.1 Y prif rolau a thasgau a wneir.

Ystod: Saer Safle, Gwaith Saer Pensaernïol, Ffitiwr Siopau, Ffitiadau Mewnol.

1.2 Deunyddiau a ddefnyddir.

Ystod: pren meddal, pren caled, deunyddiau ar ffurf dalenni, ffitiadau, gludyddion.

1.3 Offer llaw a ddefnyddir.

Ystod: morthwyl, gordd, llif, cŷn, sgrïwdreifar, offer marcio a mesur, plaen, gefeiliau, pinsiwrn, cerrig diemwnt / olew

1.4 Offer pŵer a ddefnyddir.

Ystod: gyrwyr driliau, dril (taro), planiwr, llwybrydd, sandiwr, llif gron, llif onglau, jig-sô.

Deilliannau cyflawni (manyllder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn dod i ddeall y rolau a'r tasgau sydd ar gael mewn galwedigaethau coed.

- **Gwaith saer pensaernïol:** gosod allan, marcio allan, gweithgynhyrchu.
- **Gwaith coed ar safle:** strwythurol, ffics cyntaf, ail ffics, ffics terfynol.
- **Ffitiadau Mewnol:** ystafelloedd gwely, ystafelloedd ymolchi, gosod ceginau.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o ddeunyddiau a ddefnyddir mewn tasgau gwaith coed cyffredin a'r gwahaniaethau rhyngddynt a'u rhinweddau. Bydd y deunyddiau'n cwmpasu amrywiaeth o ddefnyddiau ac yn nodi deunyddiau sy'n addas i'w defnyddio'n fewnol ac yn allanol.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn defnyddio'n ddiogel amrywiaeth o offer llaw a ddefnyddir ar gyfer tasgau gwaith coed a'u cyfyngiadau.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o offer pŵer cyffredin sy'n cael eu defnyddio ar gyfer tasgau gwaith coed ac yn eu defnyddio'n ddiogel.

Deilliant dysgu:

2. Gwybod sut i gynllunio a chynhyrchu trefn waith

Meini Prawf

2.2 Cynllunio trefn waith.

Ystod: darluniau, amserlen, asesiad risg.

3.3 Cynhyrchu trefn waith.

Ystod: rhodenni gosod allan, rhestr torri, rhestr adnoddau, rhestr offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gallu trefnu pob agwedd ar dasg o fewn yr amserlenni a nodwyd. Bydd dysgwyr yn gallu dehongli lluniadau ac asesiadau risg i gynllunio a chwblhau tasgau gwaith coed cyffredin.

2.2 Bydd dysgwyr yn gallu creu rhoden gosod allan ar gyfer pob uniad (haneru, bagl, mortais a thyno). Bydd y dysgwyr yn gallu creu rhestr torri, rhestr adnoddau a rhestr offer o ddarlun ar gyfer uniadau a thasgau gwaith coed cyffredin, gan ystyried gwastraff.

Deiliant dysgu:

3. Gallu cwblhau tasgau gwaith coed cyffredin

Meini Prawf

3.1 Paratoi'r pren.

Ystod: pren ongl-sgwâr, ochrau wyneb ac ochrau ymyl.

3.2 Creu uniadau gwaith coed.

Ystod: uniadau rhigol, uniadau haneru, uniadau mortais a thyno

3.3 Adeiladu tasgau gwaith coed cyffredin.

Ystod: parwydydd stydiau gydag agoriadau.

3.4 Gosod mowldinau.

Ystod: sgyrtinau ac architraf.

3.5 Gweithio'n ddiogel.

Ystod: Defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE), tasgau cadw tŷ, cynnal a chadw cyfarpar.

Deilliannau dysgu (manylder y cynnwys)

- 3.1 Bydd dysgwyr yn gallu paratoi pren o'i lifio i PSE (gydag ymyl sgwâr wedi'i blaenio); yn rhydd o droelli a gwynt.
- 3.2 Bydd dysgwyr yn gallu cynhyrchu uniadau, gan gynnwys uniadau rhigol, haneru pen, haneru-t, haneru croes, haneru cynffonnog; bagl cornel; drwy mortais a thyno hansiedig, pwt a thrwodd.
- 3.3 Bydd dysgwyr yn gallu llunio pared stydiau gydag agoriadau drysau, gan gynnwys leininau. Bydd y dysgwyr yn gallu llunio r pared stydiau gydag agoriadau ffenestr, gan gynnwys leininau.
- 3.4 Bydd dysgwyr yn gallu gosod mowldinau siamffrog/sblae, pensel crwn a thorus i gorneli mewnol ac allanol a mowldinau sgrifellu ar wasanaethau cyfagos a gosod architraf o amgylch agoriadau drws/ffenestri.
- 3.5 Bydd dysgwyr yn gallu dewis cyfarpar diogelu personol priodol drwy gydol y dasg waith coed cyffredin. Bydd y dysgwyr yn gallu cadw'r man gwaith yn lân ac yn daclus. Bydd dysgwyr yn gallu storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal offer i safon ymarferol o ddefnydd.

Deilliant dysgu:

4. Deall y meini prawf perfformiad a'r dulliau o werthuso perfformiad

Meini Prawf

4.1 Gwerthuso yn erbyn safonau gosodedig.

Ystod: gweithio ar sail goddefiannau, gallu gweithio i amserlen, gweithio'n ddiogel.

4.2 Dadansoddi perfformiad.

Ystod: hunan-werthuso, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 Bydd dysgwyr yn adnabod safonau'r diwydiant a ddisgwylir mewn galwedigaethau coed ac yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn effeithiol yn erbyn y safon hon. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n brydlon yn unol â'r amserlen ac mewn ffordd ddiogel.

4.2 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill. Bydd dysgwyr yn cydnabod y cyfle i wella eu perfformiad eu hunain drwy hunan-werthuso drwy ddangos sgiliau myfyrion allweddol wrth adolygu'r camau a'r drefn sydd eu hangen i gynllunio, paratoi, cyflawni a chwblhau tasgau gwaith coed. Byddant hefyd yn pwysu a mesur eu harferion ac yn tynnu sylw at feysydd i'w datblygu

Uned 109: Plastro a systemau mewnol

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn gwahanol agweddau ar grefft plastro.

Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i'r gwahanol ddatblygiadau plastro sydd wedi esblygu dros amser, yn gallu adnabod gwahanol offer, cyfarpar ac adnoddau a ddefnyddir i baratoi arwynebau gan ennill profiad ymarferol mewn gosod elfennau fel byrddau plastr a gleinwaith, cymysgu deunyddiau fel sment a thywod a defnyddio systemau plastro traddodiadol a modern.

Bydd angen i ddysgwyr ddeall gwybodaeth dechnegol ar gyfer cynllunio a chwblhau gwahanol waith plastro gan gynnwys mesur, cyfrifo meintiau deunyddiau, a chyfrifo costau. Bydd angen iddynt adnabod gwahanol arwynebau cefndir sydd angen eu paratoi cyn eu plastro.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahanol fathau o systemau plastro?
- Pam fod angen i ni ddysgu am nodweddion gwahanol gefndiroedd?
- Pa sgiliau fydd angen i mi eu dysgu a'u hymarfer i ddod yn blastrwr medrus?

Deiliant dysgu:

1. Yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio gwaith plastrwr

Meini Prawf

1.1 Rôl y plastrwr.

Ystod: gwaith cynllunio, gwarchod arwynebau, paratoi cefndiroedd, cymysgu deunyddiau, rhoi'r plastr ymlaen, ystyriaethau amgylcheddol, gweithio'n ddiogel.

1.2 Y mathau o systemau plastro a chefnidiroedd.

Ystod: plastro 'solet', plastro ffeibrog, sych-leinio, systemau nenfwd a pharwydydd pren a metel, rendro, blociau a brics solet, gwaith maen, trawstiau dur, parwydydd ais a phlastr.

1.3 Y mathau o ddeunyddiau a ddefnyddir mewn plastro.

Ystod: tywod bras, tywod adeiladu, calch tawdd, calch hydradol, pwti calch, sment, plastr gypswm wedi'i gymysgu ymlaen llaw, glud waliau sych, plastrau bwrw, ais pren, byrddau plastr.

1.4 Ychwanegion

Ystod: plastigwr, deunydd gwrth-ddŵr, cyflymydd, arafydd, atalydd halen, deunyddiau pozzolan.

1.5 Cydrannau

Ystod: mathau o leinwaith côth safonol a thenau, sgrim hunan-lynu, tâp-papur, ffitiadau, llinynnau gwydr ffeibr, hesian.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 1.1 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod rôl plastrwr a'u prif gyfrifoldebau ar bob cam wrth gyflawni gwahanol dasgau yn ymwneud â phlastr. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y gwahanol ddulliau o gael gwared â deunyddiau plastro yn gywir yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.
- 1.2 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y gwahanol sgiliau sydd eu hangen ym meysydd gwahanol y diwydiant plastro. Byddant yn gallu adnabod gwahanol fathau o arwynebau cefndir ac adnabod gwahanol systemau plastro y gellir eu defnyddio. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y rhesymau a'r manteision dros osod systemau plastro, gan gynnwys safle byw ac addurno, gwella perfformiad adeiladu, gwerthoedd thermol, ynysu rhag sain, leinin tân a phrofi aer.
- 1.3 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r gwahanol fathau o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â gwahanol weithgareddau a systemau plastro.
- 1.4 Bydd dysgwyr yn gallu nodi ychwanegion priodol sy'n gwella perfformiad plastrau.
- 1.5 Bydd dysgwyr yn gallu nodi cydrannau priodol wrth baratoi arwynebau ar gyfer plastro.

Deiliant dysgu:

2. Gwybod y gofynion i baratoi ar gyfer defnyddio deunyddiau plastro

Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

Meini Prawf

2.1 Paratoi'r mannau ar gyfer cymysgu a gweithio gyda phlastr.

Ystod: dŵr, trydan, awyru, ardal wastraff, gosod bwrdd a stondin blastro, cyfarpar mynediad, offer llaw, offer pŵer ac ategolion, cyfarpar glanhau.

2.2 Paratoi offer.

Ystod: brwsys, rholiwr a phadell, cŷn bras a chŷn, morthwyl sgolpio, morthwyl pigfain, bar tynnu hoelion, sgrafell.

2.3 Dulliau paratoi.

Ystod: rheoli sugnedd, glanhau, crafu, stripio, creu allwedd drwy hacio, allwedd mecanyddol, glud grit, SBR a PVA, cyfrwng bondio, slyris, dotwaith, selwyr, cyfryngau sefydlogi.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r dulliau paratoi, yr offer a'r deunyddiau ar gyfer paratoi arwynebau cefndir gwahanol yn briodol i sicrhau adlyniad plaster. Bydd y dysgwyr yn adnabod y gwasanaethau angenrheidiol sydd eu hangen wrth blastro a sut mae gosod a glanhau cyfarpar.

2.2 Bydd dysgwyr yn gallu nodi amrywiaeth o offer ar gyfer paratoi arwynebau cefndir gwahanol yn briodol.

2.3 Bydd dysgwyr yn gallu nodi amrywiaeth o ddulliau ar gyfer paratoi arwynebau cefndir gwahanol yn briodol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gosod deunyddiau er mwyn gweithio'n effeithlon.

Deiliant dysgu:

3. Cynllunio i gwblhau tasgau plastro cyffredin

Meini Prawf

3.1 Cynllunio trefn y gwaith.

Ystod: amserlen, darluniau, manylebau, rhestr llafur a deunyddiau, gwybodaeth y gwneuthurwr, adnoddau, cyfarwyddiadau, datrys problemau, gwaith tîm.

3.2 Cyfrifo meintiau.

Ystod: mesur arwynebedd, mesuriadau ciwbig, mesuriadau llinellol, lwfans ar gyfer gwastraff.

3.3 Storio deunyddiau a chydrannau.

Ystod: cylchdroi stoc, oes silff, gwarchod, cyfyngiadau, hwylustod mynediad ac adnabod, cludo, mathau o ddeunyddiau.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu dehongli'r gwahanol fathau o wybodaeth dechnegol i nodi a chynllunio trefn y gwaith yn effeithiol mewn perthynas â'r dasg.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu cyfrifo meintiau deunyddiau a lwfansau ar gyfer gwastraff gan ddefnyddio fformiwla. Byddant yn gallu nodi a dangos gwahanol ddulliau o gyfrifo arwynebedd, metrau ciwbig a mesuriadau llinol gyda lwfans canran ar gyfer gwastraff.

3.3 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod pwysigrwydd storio amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â phlastro yn gywir er mwyn osgoi diffygion. Bydd dysgwyr yn gallu nodi gwahanol fathau o ddeunyddiau, gan gynnwys: deunyddiau rhydd, deunyddiau mewn bagiau, deunyddiau ar ffurf dalenni, deunyddiau hyd, deunyddiau wedi'u rholio, cynwysyddion, ategolion.

Deilliant dysgu:

4. Cyflawni tasgau plastro cyffredin

Meini Prawf

4.1 Defnyddio offer.

Ystod: gosod, cymysgu

4.2 Gosod byrddau plastr ac ais pren.

Ystod: gosod allan, mesur, torri, rhathellu, dulliau gosod.

4.3 Paratoi cefndiroedd.

Ystod: hacio, stripio, tynnu hoelion, darparu allwedd, rheoli sugno.

4.4 Gosod gleinwaith.

Ystod: gosod allan, mesur, torri, dulliau gosod.

4.5 Defnyddio systemau plastro.

Ystod: côt blastr grafog, côt rutiog, côt fflotiog, côt orffen.

4.6 Cynnal amgylchedd gwaith diogel.

Ystod: glanhau'r ardal waith, glanhau offer a chyfarpar, gwaredu deunyddiau gwastraff,

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r canlynol yn ddiogel ac yn effeithiol:

Offer gwneud cais: tryweli, bwrdd llaw, trywel bwced, trywel fesur, offer bach, tryweli ongl, fflip, crafwr crib, tâp mesur, snipwyr, lefel, ymyl syth, cyllell gyfleus, rhathell, llif droed, llif, llif pad, torwr gwasanaeth.

Offer cymysgu: plymiwr, dril a chwisg, drwm cymysgu, rhaw, bwced, jwg mesur.

4.2-4.6 Bydd dysgwyr yn gallu cyflawni a chwblhau tasgau sylfaenol sy'n ymwneud â phlastro yn effeithiol yn unol â'r lluniadau, y fanyleb a'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan ddefnyddio'r offer a'r cyfarpar priodol.

Bydd dysgwyr yn gallu gweithio'n gyfrifol ac yn ddiogel i gynhyrchu'r safon briodol o waith yn unol â safonau a bennir gan y diwydiant. Bydd yn glanhau ac yn cynnal a chadw'r man gweithio, yr offer a'r cyfarpar ac yn storio offer a deunyddiau'n briodol ar ôl eu defnyddio. Bydd dysgwyr yn ymwybodol y bydd eu gwaith a'u perfformiad yn cael eu gwerthuso ar ôl eu cwblhau yn erbyn y meini prawf perfformiad y cytunwyd arnynt.

4.6 Bydd dysgwyr yn gallu cynnal man gweithio glân a diogel ac adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â gwaith gan sicrhau eu bod yn cadw at wybodaeth berthnasol o ffynonellau fel taflenni data, asesu risg, llenyddiaeth y gwneuthurwr, datganiadau dull a sgysiau blwch offer i fod yn sail i ddulliau gweithio diogel cywir. Dylent allu adnabod arwyddion a hysbysiadau, defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol a defnyddio technegau codi a chario cywir.

peryglon

Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

Deiliant dysgu:

5. Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau plastro cyffredin

Meini Prawf

5.1 Gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant.

Ystod: ansawdd y gwaith gosod a rhoi plastr ymlaen, perfformiad y byrddau plastr a'r plastr a gymysgwyd, gweithio ar sail goddefiannau, gweithio i amserlenni a bennwyd.

5.2 Dadansoddi perfformiad.

Ystod: hunan-werthuso, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

5.1 Bydd dysgwyr yn adnabod safonau'r diwydiant a ddisgwyllir mewn amgylchedd plastro ac yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn effeithiol yn erbyn y safon hon. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod gwahanol ddeunyddiau plastro a bydd ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o'u heffaith ar berfformiad adeiladu mewn perthynas â'r diwydiant. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n brydlon yn unol â'r amserlen a bennwyd.

5.2 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill.

Uned 110: Galwedigaethau Peintio Addurnol a Diwydiannol

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw i ddysgwyr ennill y ddealltwriaeth a'r sgiliau ar gyfer cwblhau tasgau cyffredin yn y grefft Peintio ac Addurno. Drwy gydol yr uned bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddilyn arferion gweithio diogel yn unol â chanllawiau presennol y llywodraeth a deddfwriaeth amgylcheddol.

Bydd yr uned yn cyflwyno egwyddorion sylfaenol paratoi wynebau moel neu beintiedig ac ar gyfer defnyddio brws a rholiwr i greu cotiau dyfrllyd neu ludiog ar arwynebedd cymharol syml. Bydd yr uned yn egluro sut i ddefnyddio cyfarpar mynediad a llwyfannau gweithio i gwblhau'r tasgau hyn.

Yna bydd dysgwyr yn gallu rhoi'r sgiliau hyn ar waith yn ddiogel i'w galluogi i greu gorffeniad addurnol sy'n dderbyniol o fewn y diwydiant.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

-
- Beth yw'r gwahanol fathau o arwynebau peintiedig a sut ddylwn eu paratoi yn barod i'w peintio?
- Beth yw'r gwahanol fathau o gotiau arwyneb a pha dechneg beintio fyddwn i'n ei defnyddio ar eu cyfer?
- Sut fyddwn i'n defnyddio cyfarpar mynediad i gyrraedd mannau chwithig, anodd eu cyrraedd?
- Sut mae gweithio'n ddiogel i hybu fy iechyd a'm diogelwch fy hun a phobl eraill o'm cwrpas?

Deilliant dysgu:

1. Deall yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer gwaith peintiwr ac addurnwr

Meini Prawf

1.1 Rôl y peintiwr a'r addurnwr

Ystod: rôl y peintiwr a'r addurnwr, arwynebau a gorffeniadau perthnasol.

1.2 Mathau o waith peintio ac addurno.

Ystod: domestig, masnachol, diwydiannol, treftadaeth.

1.3 Rhesymau dros beintio arwynebau.

Ystod: addurniadol, adnabyddiaeth, cadwraeth, glendid.

1.4 Deddfwriaeth allweddol.

Ystod: HASAWA, COSHH, Rheoliadau Rheoli Plwm yn y Gwaith (2002) (CLAW), Rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAHR).

1.5 Cynaliadwyedd adnoddau.

Ystod: effaith ar yr amgylchedd, Cyfansoddion Organig Anweddol (VOC), ailgylchadwy, ailddefnyddiadwy, gwaredu gwastraff

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 1.1 Bydd dysgwyr yn gallu diffinio rôl peintiwr ac addurnwr a dangos dealltwriaeth o'r arwynebau a'r gorffeniadau perthnasol, gan gynnwys gwaith cynllunio, diogelu ardaloedd cyfagos, paratoi arwynebau, gosod gorffeniadau paent, gosod papur wal, defnyddio gorffeniadau chwistrell, creu gorffeniadau addurnol arbenigol a mabwysiadu arferion gweithio diogel.
- 1.2 Bydd y dysgwyr yn gallu nodi'r gwahanol fathau o waith peintio ac addurno. Bydd y dysgwyr yn gallu adnabod y gwahaniaethau yn y prif feysydd gwaith peintio ac addurno, y tu mewn a'r tu allan. Bydd dysgwyr yn gallu nodi cydrannau mewnol adeiladau domestig, gan gynnwys llawr, nenfwd, waliau, drysau, ffenestri, sgyrtinau, architrâu a rheiliau dado. Cydrannau strwythurol allanol yn cynnwys estyll ffasgia, soffit, nwyddau dŵr glaw, talcennau, ffenestri a drysau.
- 1.3 Bydd y dysgwyr yn gallu nodi'r prif resymau dros beintio arwynebau.
- 1.4 Bydd y dysgwyr yn gallu nodi'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n cwmpasu crefft peintio ac addurno. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o HASAWA, COSHH, CLAW a WAHR, a'u cyfrifoldeb o ran cydymffurfio.
- 1.5 Bydd dysgwyr yn deall cynaliadwyedd adnoddau, gan gynnwys VOCs, gwaredu diogel ac effaith amgylcheddol.

Deilliant dysgu:

2. Adnabod offer, cyfarpar a deunyddiau cyffredin a ddefnyddir yn y diwydiant peintio ac addurno

Meini Prawf

2.1 Offer a chyfarpar peintio.

Ystod: offer llaw, offer pŵer, offer a chyfarpar rhoi paent ymlaen.

2.2 Deunyddiau paratoi a chotiau arwyneb

Ystod: papurau bras, llenwadau, paent, farneisiau.

2.3 Deunyddiau a ddefnyddir i ddiogelu ardaloedd cyfagos.

Ystod: gorchuddion gwarchodol, tâp gwarchodol, bordiau gwarchodol

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 2.1 Bydd dysgwyr yn gallu nodi offer ac offer paratoi a pheintio, a nodi eu nodweddion a'u defnyddiau, gan gynnwys:

Offer llaw: crafwr, brwsh llwch, pynsiwr hoelion, morthwyl, bachyn eillio, tegell paent, cyllell llenwi, bwrdd llenwi, bwced, sbwng, bloc sandio, gwn sgerbwd.

Offer pŵer: sandiwr orbitol, gwn aer poeth.

Offer peintio: rholeri gyda llewys byr/canolig/hir, brwshys paent synthetig, brwshys paent o flew naturiol.

- 2.2 Bydd dysgwyr yn gallu nodi deunyddiau paratoi a pheintio, a nodi eu nodweddion a defnyddiau i gynnwys:

Deunyddiau paratoi: deunyddiau glanhau, papurau sgraffiniol, llenwad un pecyn, llenwadau arwynebau parod a mân, calc addurnol, sielac a seliwr gwyn.

Deunyddiau paent: emwlsiwn, isbaent preimio acrylig, paent plisgyn wy sy'n seiliedig ar ddŵr, glos dŵr, preimiwr pren alwminiwm, preimiwr coed sy'n seiliedig ar dddyddion, paent plisgyn wy sy'n seiliedig ar dddyddion.

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod gwahanol sgleiniau a gorffeniadau deunyddiau araenu fel yr amlinellir yn yr ystod.

- 2.3 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r gwahanol ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio i ddiogelu ardaloedd o gwmpas.

Deunyddiau diogelu: tâp masgio safonol, allanol ac isel, taflenni llwch cotwm a polythen, tarpolin, bwrdd amddiffynnol plastig gwrymiog

Deilliant dysgu:

3. Paratoi ar gyfer tasgau peintio ac addurno cyffredin

Meini Prawf

3.1 Cynllunio trefn y gwaith.

Ystod: asesiad risg, datganiad dull, cyfrifo meintiau, amserlen, darluniau, manylebau, rhaglen lafur a deunyddiau, gwybodaeth y gwneuthurwr, adnoddau, cyfarwyddiadau, datrys problemau.

3.2 Paratoi'r ardal waith a gwarchod y mannau o gwmpas.

Ystod: lloriau, gorchuddion llawr, dodrefnu meddal, gwaith haearn a ffitiadau trydanol.

3.3 Codi a thynnu i lawr gyfarpar mynediad a llwyfannau gwaith.

Ystod: ysgolion, bach, ysgolion, stepiau podiwm / platfform, hop-yps.

3.4 Paratoi arwynebau.

Ystod: cotiau paent newydd, moel, wedi'u peintio'n flaenorol a chotiau paent diffygiol.

3.5 Atgyweirio arwynebau.

Ystod: crafu, is-dorri, gwlychu, llenwad penuchel, llenwad a gwastad, sgrafellu, lefelu, calcio.

3.6 Paratoi cotiau paent seiliedig ar ddŵr a seiliedig ar dddyddion.

Ystod: i'r tewdra cywir er mwyn ei osod ymlaen heb ddiffygion.

3.7 Storio deunyddiau cyn ac ar ôl eu defnyddio.

Ystod: gwarchod rhag effeithiau tymheredd, peryglon tân posibl, cylchdroi stoc, oes silff, cyfyngiadau trin a chyffwrdd, hwylustod mynediad, adnabod cynhyrchion, diogelwch.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 3.1 Bydd dysgwyr yn gallu darllen a dehongli'r gwahanol fathau o wybodaeth dechnegol i gynllunio trefn y gwaith yn effeithiol mewn perthynas â'r dasg.
- 3.2 Bydd dysgwyr yn gallu paratoi mannau gwaith, defnyddio deunyddiau cywir a diogelu'r ardaloedd cyfagos yn briodol er mwyn cyflawni'r dasg dan sylw.
- 3.3 Bydd dysgwyr yn gallu archwilio, codi a datgymalu offer mynediad a llwyfannau gwaith yn ddiogel.
- 3.4 Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso arwynebau newydd, moel sydd wedi cael eu peintio o'r blaen, gan gynnwys pren, plastr a bwrdd plastr, a'u paratoi yn unol â'u cyflwr presennol, gan gynnwys glanhau, sgrafellu, llenwi ac allweddau. Bydd dysgwyr yn gallu tynnu gorchuddion paent diffygiol yn ddiogel ac yn effeithiol gan ddefnyddio gynnu gwres.
- 3.5 Bydd dysgwyr yn gallu atgyweirio arwynebau yn effeithiol gan ddefnyddio deunydd llenwi pecyn sengl wedi'i gymysgu ymlaen llaw, a chalc addurnwyr.
- 3.6 Bydd dysgwyr yn gallu paratoi cotiau paent sy'n seiliedig ar ddŵr chotiau paent seiliedig ar dddyddion i'r tewdra cywir yn barod i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r broses o baratoi: glanhau llwch oddi ar y caead, agor y cynhwysydd, cymysgu/troi, tywallt/arllwys, chwilio/hidlo, addasu gludedd.
- 3.7 Bydd dysgwyr yn gallu cydnabod pwysigrwydd trin, cadw a storio deunyddiau paent nad ydynt yn cael eu defnyddio i'w hailddefnyddio ar ôl cwblhau'r dasg.

Deilliant dysgu:

4. Cyflawni tasgau peintio ac addurno cyffredin

Meini Prawf

4.1 Defnyddio systemau peintio seiliedig ar ddŵr a seiliedig ar doddodyddion heb ddiffygion

Ystod: arwynebedd, defnyddio brws a rholiwr, diffygion.

4.2 Glanhau, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar.

Ystod: brwsys paent, rholeri paent, cyfarpar cysylltiedig.

4.3 Cadw'r ardal waith yn lân a diogel.

Ystod: ymarfer cadw tŷ da, gwarchod mannau o gwmpas, gwisgo PPE priodol, adnabod peryglon, glanhau'r ardal waith, glanhau offer a chyfarpar, gwaredu deunyddiau gwastraff.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio systemau paent sy'n seiliedig ar ddŵr a thoddodyddion yn y drefn gywir heb ddiffygion, gan gynnwys sgyrtinau ac architrafau, a'r canlynol:

Arwynebau: nenfydau, waliau, gwaith trimio llinellol, drysau panel.

Prosesau peintio gan ddefnyddio brws a rholer: llwytho offer peintio, torri i mewn, gosod ymlaen, taenu, ôl-rollo, terfynu/gorffen.

Diffygion: rhedfeydd, bolio, llenni, croen oren, methiannau, ymylon bras, marciau brws, darnau a nibiau, paent ar arwynebau cyfagos.

4.2 Bydd dysgwyr yn gallu glanhau, cynnal a chadw a storio cyfarpar peintio yn gywir ar ôl ei ddefnyddio.

4.3 Bydd dysgwyr yn gallu cynnal man gweithio glân a diogel wrth gyflawni'r tasgau drwy fabwysiadu arferion gweithio diogel.

Deiliant dysgu:

5. Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau peintio ac addurno cyffredin

Meini Prawf

5.1 Gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant.

Ystod: ansawdd yr arwyneb a'r dull o ddefnyddio'r paent, defnyddio systemau cotiau wyneb, glendid yr ardal waith, ansawdd y gorffeniad, gweithio o fewn goddefiannau, gallu gweithio i amserlen.

5.2 Dadansoddi perfformiad.

Ystod: hunan-werthuso, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

5.1 Bydd dysgwyr yn adnabod safonau'r diwydiant a ddisgwylir yn y galwedigaethau peintio ac addurno ac yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn effeithiol yn erbyn y safonau hyn.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n unol â'r amserlenni a bennwyd.

5.2 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill. Bydd dysgwyr yn gallu gosod eu meini prawf perfformiad eu hunain

Uned 111: Galwedigaethau toi

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn deall sgôp y diwydiant gwaith toi gan roi trosolwg ar sgiliau traddodiadol/treftadaeth hyd at ddulliau modern fel bod dysgwyr yn gallu symud ymlaen i weithio ar ystod o wahanol adeiladau o'r cyfnod cyn-1919, er enghraifft cestyll, i dai sydd wedi'u codi o'r newydd. Bydd dysgwyr yn dysgu sut i ddefnyddio gwahanol offer, cyfarpar ac adnoddau i osod cefndiroedd a gorchuddion.

Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i osod is-haenau a styllod i'r trwch cywir, fel tasgau cyffredin ar draws y diwydiant. Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i safonau Prydeinig, deddfwriaeth fel Gweithio ar Uchder, symud a chodi ac iechyd a diogelwch yn y cyd-destun perthnasol i'r maes.

Bydd dysgwyr yn ennill dealltwriaeth sylfaenol o ddarluniau gwaith er mwyn gallu adnabod manylion toeau penodol a gallu cwblhau tasgau cyffredin a gwerthuso eu perfformiad eu hunain fel rhan o'u cynnydd.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dulliau toi traddodiadol a modern?
- Pam fod angen i ni ddysgu am nodweddion gwahanol ddeunyddiau?
- Pa sgiliau ac ymddygiad fydda i eu hangen i ddod yn dŵr llechi a theils?

Deiliant dysgu:

1. Deall yr egwyddorion sylfaenol a ddefnyddir mewn galwedigaethau gwaith toi

Meini Prawf

1.1 Mathau o deilsio a gwaith llechi naturiol.

Ystod: gwaith llechi naturiol, teilsio cyd-gloi lapiad sengl, teilsio lapiad dwbl.

1.2 Yr offer a'r cyfarpar a ddefnyddir.

Ystod: ar gyfer gwaith llechi, gwaith teilsio, defnyddiau priodol.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth sylfaenol o'r tair disgyblaeth wahanol ac yn gallu adnabod y sgiliau, yr offer a'r deunyddiau cyffredin a ddefnyddir yn y tri maes.

Byddant yn gallu nodi'r gwahaniaethau rhwng y disgyblaethau, gan gynnwys penlapio, ochr-lapio a goleddf. Byddant yn deall y dull cywir o osod ar gyfer pob disgyblaeth.

1.2 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r amrywiaeth o offer a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer tasgau gosod llechi a theils, a nodi'r ffyrdd priodol o'u defnyddio ar gyfer amrywiaeth o dasgau:

Morthwyl hollt, cyllell drimio, poced hoelion, tâp mesur, siswrn, pensiliau, llinell streic, morthwyl llechi, cyllell lechi, gilofîn, trywel fesur, bwcedi, brwsh a rhaw, llif petrol, llif torri yn rhedeg ar fatris, driliau batri a gwefrwyr.

Deilliant dysgu:

2. Gwybod beth yw'r gofynion ar gyfer gwaith gosod llechi a theilsio

Meini Prawf

2.1 Deall rôl y töwr llechi a theils.

Ystod: cynllunio gwaith, paratoi'r ardal waith, llwytho deunyddiau, cyfrifo trwch a datwm.

2.2 Gofynion diogelwch ar gyfer gweithio ar uchder.

Ystod: asesiadau risg, datganiadau dull, ysgolion, llwyfannau mynediad, sgaffaldiau, systemau atal cwmpo.

2.3 Strwythur y to.

Ystod: bondoeau, ffasgias, ymylon, distiau to, talcendoeau, cafnau, cribau, toeau cypledig, toeau traddodiadol.

2.4 Gofynion gosod ar gyfer estyll, llechi a theils.

Ystod: hoelio pennau a chanol llechi, clipio gwaelodion llechi, clymu bachau.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r deunyddiau a'r offer cywir ar gyfer tasgau gwahanol. Byddant yn gallu cyfrifo'r meintiau a datwm yn gywir yn unol â'r dasg.

2.2 Bydd y dysgwyr yn gallu gweld sut mae archwilio ysgolion, llwyfannau mynediad a systemau atal cwmpadau. Byddant yn gallu gweld y gwahaniaeth rhwng systemau atal cwmpadau personol a systemau ar y cyd. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod risgiau a pheryglon a dilyn y dulliau gweithio cywir yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu ar lafar.

2.3 Bydd y dysgwyr yn gallu nodi gwahanol gydrannau strwythur to. Byddant hefyd yn gallu adnabod y gwahaniaethau rhwng adeiladu to traddodiadol a tho cypledig. Bydd dysgwyr yn gallu nodi atgyfnerthiad croesgornel allanol dros dro a pharhaol a deall y gwahaniaethau mewn perthynas â'r broses tynnu ymaith yn ddiogel.

2.4 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y gosodiadau gwahanol sy'n cael eu defnyddio wrth doi mewn perthynas â manylebau gosod gwneuthurwyr.

Deiliant dysgu:

3. Gosod gorchuddion to

Meini Prawf

- 3.1 Sicrhau amgylchedd gweithio diogel.
Ystod: cynefino safle, diogelwch safle, arwyddion diogelwch, COSHH, PPE priodol.
- 3.2 Paratoi cefndiroedd.
Ystod: systemau bondo, cyfrifo datwm, cyfrifo trwch.
- 3.3 Gosod is-haenau, marcio a mesur trwch a thynnu llinellau llorweddol.
- 3.4 Cyfrifo'n gywir.
Ystod: lled y llechi a'r teils, arwynebedd, llinellau unionsyth, llwyth y to.
- 3.5 Gorchuddio'r to gyda llechi neu deils gan ddefnyddio'r dulliau hoelio a chlymu cywir.
- 3.6 Gosod systemau ymyl a chrib sych (dry-fix).
- 3.7 Gwerthuso a dadansoddi perfformiad.
Ystod: ansawdd y gwaith gosod a gorffen, perfformiad deunyddiau, gweithio i oddefiannau, gweithio i amserlenni, hunan-werthuso.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 3.1 Bydd dysgwyr yn gallu deall pwysigrwydd cynefino â safle a gallu gweld sut i roi'r canlyniadau ar waith. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod gwahanol arwyddion diogelwch. Bydd dysgwyr yn deall ystyriaethau diogelwch y safle, gan gynnwys llwybrau cerdded dynodedig a phwyntiau argyfwng. Bydd dysgwyr yn deall COSHH yng nghyswllt cyfarpar diogelu personol a thasgau toi.
- 3.2 Bydd dysgwyr yn gallu cael gwared ag unrhyw atgyfnerthiad croesgornel dros dro, gwirio a yw arwyneb a lefelau'r rafftau neu'r trawstiau'n addas ar gyfer is-haenau. Bydd dysgwyr yn gallu gosod system bondo wedi'i fentio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan sicrhau bod aer rhydd yn llifo i wagle'r to. Bydd dysgwyr yn gallu cyfrifo'r datwm a'r trwch gwastad drwy fesur hyd y trawst ar wahanol bwyntiau er mwyn pennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau.
- 3.3 Bydd dysgwyr yn gallu gosod is-haen yn sownd a'i osod yn ddiogel, gyda'r gorweddad angenrheidiol, a gosod lapiau fertigol a llorweddol cywir. Bydd dysgwyr yn gallu marcio'r trwch yn gywir, tynnu llinellau llorweddol a ffitio estyll.
- 3.4 Bydd dysgwyr yn gallu marcio a thynnu llinellau unionsyth ar gyfer gosod yn gywir gan ddefnyddio lled cyfartalog llechi a theils. Bydd dysgwyr yn gallu dangos cyfrifiadau arwynebedd ar gyfer y gorchudd dan sylw er mwyn pennu'r symiau cywir a llwytho'r to yn gywir ac yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn gallu llwytho'r to gyda llechi neu deils yn llyfn.

- 3.5 Bydd dysgwyr yn gallu gorchuddio'r to â'r deunyddiau a ddewiswyd, gan eu gosod yn gywir fel y nodir.
- 3.6 Bydd dysgwyr yn gallu gosod systemau ymylon a chribau sych (dry fix). Bydd dysgwyr yn gallu gosod cydrannau sych (dry fix) yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.
- 3.7 Bydd dysgwyr yn gallu cydnabod pwysigrwydd dilyn manylebau a safonau ar gyfer gosod a gorffen o ansawdd da a gallu hunanwerthuso yn erbyn y meini prawf perthnasol hyn.

Canlyniad dysgu

4. Deall y meini prawf perfformiad a'r dulliau o werthuso perfformiad

Meini Prawf

4.1 Gwerthuso yn erbyn safonau gosodedig

Ystod: Gweithio ar sail goddefiannau, gweithio i amserlenni, gweithio'n ddiogel

4.2 Dadansoddi perfformiad

Ystod: Hunan-werthuso, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 Bydd dysgwyr yn adnabod y safonau a ddisgwyllir mewn galwedigaethau toi ac yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn effeithiol yn erbyn y safonau hyn. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n brydlon yn unol â'r amserlen ac mewn ffordd ddiogel.

4.2 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill. Bydd dysgwyr yn cydnabod y cyfle i wella eu perfformiad eu hunain drwy hunan-werthuso drwy ddangos sgiliau pwyso a mesur allweddol wrth adolygu'r camau a'r drefn sydd eu hangen i gynllunio, paratoi, cyflawni a chwblhau tasgau toi. Byddant hefyd wedyn yn pwyso a mesur eu harferion ac yn tynnu sylw at feysydd i'w datblygu.

Uned 112: Gwaith adeiladu a gwaith peirianeg sifil

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw i ddysgwyr ddeall y gofynion ar gyfer cynllunio gwahanol gamau a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer tasgau gwaith adeiladu a gwaith peirianeg sifil cyffredin. Bydd hyn yn galluogi'r dysgwr i ennill dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ba rolau a gweithgareddau cyffredin y bydd gweithiwr adeiladu'n eu cyflawni.

Cyflwyniad i'r peiriannau, offer, cyfarpar a'r deunyddiau a ddefnyddir o ddydd i ddydd. Bydd yr uned yn galluogi'r dysgwr i ymarfer sgiliau gwaith adeiladu a pheirianeg sifil sylfaenol: diogelu'r safle, palmantu modiwlaid (cerrig bloc, gosod slabiau), draenio a gwaith concrid.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw peirianeg sifil a pha weithgareddau mae hyn yn eu cynnwys?
- Pa offer a chyfarpar a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu fel arfer?
- Pa ddeunyddiau a ddefnyddir ac a osodir mewn gwaith adeiladu?

Deiliant dysgu:

1. Deall yr egwyddorion sylfaenol a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu a pheirianeg sifil

Meini Prawf

1.1 Y prif rolau a thasgau a wneir.

Ystod: diogelu'r safle, draenio, palmantu modiwlaid, gwaith concrit.

1.2 Deunyddiau a ddefnyddir.

Ystod: rhwystrau diogelu, deunydd draenio, deunydd palmantu, deunydd gwaith concrit.

1.3 Offer a chyfarpar.

Ystod: Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), offer, cyfarpar.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn dod i ddeall y rolau a'r tasgau sydd ar gael mewn gweithrediadau Adeiladu a Pheirianeg Sifil: diogelu safle, draenio, palmantu modiwlaid, concritio.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o ddeunyddiau a ddefnyddir ym maes Adeiladu a pheirianeg sifil ac yn deall y gwahaniaethau rhyngddynt, eu rhinweddau a'u defnydd.

- Gwarchod Safle
- Mathau o rwystrau diogelu: ffensys, byrddau, llenni, rhwydi, rhwystrau i gerddwyr
- Draenio: Gro, tywod, concrit.
- Palmantu Modiwlaid: mathau o flociau palmantu, mathau o ymylon palmantu, is-sylfaen, tywod graean (sharp sand) i greu blociau palmantu, sment, tywod wedi'i sychu mewn odyd fel llenwad uniadau
- Concritio: cymysgedd concrit sylfaenol sy'n addas ar gyfer castio yn ei le (4:2:1 cymhareb gymysgu), tywod, gro, sment, gwaith ffurf pren, olew mowld.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am ystod o offer a chyfarpar a ddefnyddir mewn gweithrediadau adeiladu a thasgau peirianeg sifil ac yn eu defnyddio'n ddiogel, ac yn gwybod beth yw eu cyfyngiadau.

- **Gwarchod Safle**
- Cyfarpar Diogelu Personol (PPE): esgidiau diogelwch, het galed, siacedi llachar, menig.
- Offer: sbaneri, tâp mesur, morthwyl, lefel saer, llinell, dril, sgridreifer trydanol, llif fach.

Draenio:

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE): esgidiau diogelwch, het galed, siacedi llachar, gogls, menig.

Offer a chyfarpar: rhaw, berfa, pegiau, torrwr pibellau, llif, lefel, tâp mesur.

Palmant modiwlaid:

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE): esgidiau diogelwch, het galed, siacedi llachar, gogls, menig.

Offer a chyfarpar: rhaw, berfa, pegiau, pinnau, trywel, ymyl syth, gordd, lefel, tâp mesur, llinell adeiladu, plât cywasgu.

Concritio:

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE): esgidiau diogelwch, het galed, siacedi llachar, gogls, menig.

Offer a chyfarpar: rhaw, berfa, pegiau, trywel, ymyl syth, gordd, lefel, tâp mesur, llinell adeiladu, gwaith ffurf.

Deilliant dysgu:

2. Gwybod sut i gynllunio a chynhyrchu trefn waith

Meini Prawf

2.1 Cynllunio trefn waith.

Ystod: darluniau, amserlenni, asesiad risg, manylebau, gwybodaeth y gwneuthurwr.

2.2 Cyfrifo pa adnoddau sydd eu hangen.

Ystod: diogelu'r safle, gwaith concriid, draenio domestig, palmantu modiwlaid.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Cynllunio trefn waith: bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dehongli lluniadau ac asesiadau risg i gynllunio a chwblhau gweithrediadau adeiladu a pheirianeg sifil cyffredin, manylebau, lluniadau, gwybodaeth y gwneuthurwr.

2.2 Diogelu Safle: llinellol, perimedr.

Concritio: cymarebau cymysgu, pwysau, cyfaint.

Draenio domestig: llinol, cyfaint, tunelli.

Palmantu modiwlaid: llinellol, arwynebedd, cyfaint, tunelli.

Deilliant dysgu:

3. Gallu cwblhau gweithgareddau adeiladu a thasgau peirianeg sifil cyffredin

Meini Prawf

3.1 Codi a symud offer diogelu safle.

Ystod: rhwystrau diogelu; iechyd a diogelwch.

3.2 Gosod draeniau.

Ystod: draenio domestig.

3.3 Gosod gwaith palmant modiwlaid.

Ystod: mathau o balmantu sy'n ofynnol, deunyddiau clymu, dulliau gosod.

3.4 Gwaith concritio.

Ystod: cymysgu, gosod, gorffen.

3.5 Gweithio'n ddiogel.

Ystod: Defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE), tasgau cadw tŷ, cynnal a chadw cyfarpar.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

3.1 Bydd dysgwyr yn codi ac yn tynnu offer diogelu safle yn unol â manyleb benodol ac yn diogelu gwaith a'r ardal o gwmpas fel y bo'n briodol.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu paratoi systemau draenio cyfunol ac ar wahân, System Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) a gosod draeniau i fanylebau penodol a diogelu gwaith a'r ardal o gwmpas fel y bo'n briodol.

3.3 Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio a pharatoi ardaloedd ar gyfer gosod palmant modiwlaid a gosod, gorffen palmant modiwlaid i fanyleb benodol, a diogelu gwaith a'r ardal gyfagos fel y bo'n briodol. Mathau o fond: uniad brics ar ei hyd, gwead basged, asgwrn pennog (45°, 90°). Dulliau gosod: gosod llaw, ffon lefelu.

3.4 Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio a pharatoi ardaloedd ar gyfer tasgau cyffredin ym maes concritio a chymysgu, gosod a gorffen slab concrit i fanyleb benodol, a diogelu gwaith a'r ardal gyfagos fel y bo'n briodol. Bydd dysgwyr yn gallu roi gorffeniadau ar goncrit: gorffeniadau arwyneb gwastad, wedi'u tampio, arnofio, brwshio a'u trywelu.

3.5 Bydd dysgwyr yn gallu dewis cyfarpar diogelu personol priodol drwy gydol y tasgau adeiladu a pheirianeg sifil gyffredin.
Bydd y dysgwyr yn gallu cadw'r man gwaith yn lân ac yn daclus.
Bydd dysgwyr yn gallu storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal offer i safon ymarferol o ddefnydd.

Canlyniad dysgu

4. Deall y dulliau o werthuso perfformiad

Meini Prawf

4.1 Gwerthuso yn erbyn safonau gosodedig.

Ystod: ansawdd y gorffeniad, gweithio ar sail goddefiannau, gallu gweithio i amserlenni, gweithio'n ddiogel.

4.2 Dadansoddi perfformiad.

Ystod: hunan-werthuso, gwerthuso gan gyd-fyfrwyr, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith, graddio.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 Bydd dysgwyr yn adnabod y safonau a ddisgwylir mewn galwedigaethau adeiladu a pheirianeg sifil yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn effeithiol yn erbyn y safonau hyn. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n brydlon yn unol â'r amserlen ac mewn ffordd ddiogel.

4.2 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill. Bydd dysgwyr yn cydnabod y cyfle i wella eu perfformiad eu hunain drwy hunan-werthuso drwy ddangos sgiliau myfyrio allweddol wrth adolygu'r camau a'r drefn sydd eu hangen i gynllunio, paratoi, cyflawni a chwblhau tasgau adeiladu. Byddant hefyd wedyn yn pwysu a mesur eu harferion ac yn tynnu sylw at feysydd i'w datblygu.

Uned 113: Plymio, gwresogi ac awyru

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw i ddysgwyr ennill profiad o blymio a systemau gwresogi domestig.

Pwrpas yr uned yw i ddysgwyr archwilio systemau oer, poeth a gwresogi mewn eiddo domestig a'r gofynion gwaith gosod pibellau sylfaenol sy'n rhan o'r systemau hyn. Bydd gan ddysgwyr gyfle i gynllunio a chreu eu gosodiad pibellau eu hunain gan defnyddio gwahanol ddeunyddiau, dulliau uniadu a thechnegau plygu.

Mae gosodiadau gwaith pibellau'n elfen allweddol o'r diwydiant plymio a gwresogi ac mae angen gwahanol sgiliau a thechnegau fel bo'r gosodiad yn ateb anghenion y cwsmer a holl ofynion y diwydiant.

Bydd dysgwyr yn dysgu sgiliau ar gyfer cynllunio systemau oer, poeth a gwresogi a chreu gosodiadau gwaith pibellau gan ddangos eu sgiliau ymarferol a chreadigol. Fel rhan o greu gosodiad, bydd dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu gweithio ar eu liwt eu hunain a/neu fel rhan o dîm.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw cyfrifoldebau gwaith peiriannydd gwresogi domestig a phlymio?
- Sut fathau o systemau dŵr a gwresogi sydd mewn eiddo domestig?
- Sut gallaf i uno a thrin gwahanol ddeunyddiau pibellau?
- Sut gallaf i ddefnyddio fy sgiliau gwaith pibellau yn y diwydiant plymio a gwresogi domestig?

Deiliant dysgu:

1. Deall egwyddorion sylfaenol systemau plymio a gwresogi

Meini Prawf

- 1.1 Y prif gamau yn y cylch dŵr glaw.
- 1.2 Yr amrywiol ffynonellau dŵr a nodweddion y dŵr o'r ffynonellau hynny.
Ystod: ffynonellau dŵr ar yr wyneb - llynnoedd, cronfeydd dŵr, afonydd, nentydd.
 Ffynonellau tanddaearol - ffynhonnau dwfn a bas, ffynhonnau Artesiaidd, tyllau turio, ffynhonnau.
- 1.3 Mathau a nodweddion cynllun systemau dŵr oer.
Ystod: uniongyrchol ac anuniongyrchol, dan bwysedd.
- 1.4 Mathau a nodweddion cynllun systemau dŵr poeth.
Ystod: agored â fent, anuniongyrchol, heb fent, cylchdro eilaidd, syth bin.
- 1.5 Mathau a nodweddion cynllun systemau gwresogi.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 1.1 Bydd dysgwyr yn deall egwyddorion y cylch dŵr glaw.
- 1.2 Bydd dysgwyr yn deall priodweddau sylfaenol dŵr ac yn gallu egluro sut mae dŵr yn amsugno amhureddau. Bydd y dysgwyr yn amlinellu ffynonellau dŵr amrywiol ac yn disgrifio pob un yn fanwl ac yn deall dŵr caled a meddal a'r berthynas â'i ffynhonnell.
- 1.3 Bydd dysgwyr yn deall egwyddorion systemau uniongyrchol ac anuniongyrchol a ddefnyddir mewn anheddau domestig a lleoliad diwydiannol a masnachol ac yn gallu egluro manteision ac anfanteision systemau uniongyrchol ac anuniongyrchol a chymwysiadau nodweddiadol ar y safle.
- 1.4 Bydd dysgwyr yn deall trosglwyddo gwres ac yn gallu dangos y gwahanol fathau o systemau dŵr poeth uniongyrchol ac egluro'r manteision a'r anfanteision. Byddant yn deall y defnydd o dwymwyr tanddwr a goblygiadau cost eu defnyddio, yn ogystal â defnyddio economi 7 a 10.
 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw egwyddorion systemau anuniongyrchol.
 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion y gwahanol wresogyddion dŵr a restrir a manteision ac anfanteision pob un.
 Bydd dysgwyr hefyd yn ymwybodol o fathau o systemau agored â fent a heb fent.
- 1.5 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gosodiadau a mathau sylfaenol systemau gwresogi canolog y rheolaethau a'r gwahanol systemau gwresogi a ddefnyddir mewn anheddau domestig ac mewn lleoliad diwydiannol a masnachol.

Deilliant dysgu:

2. Deall yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio gwaith plymwr a pheiriannydd gwresogi domestig

Meini Prawf

- 2.1 Y gwaith ym maes crefft y galwedigaethau Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (BSE).
Ystod: cynllunio'r gwaith, paratoi'r ardal waith, diogelu eiddo a dodrefn, adnabod systemau, plygu, uniadu, clipio, ystyriaethau amgylcheddol.
- 2.2 Sut i ddewis a defnyddio offer llaw ac offer pŵer yn ddiogel.
Ystod:
 Offer llaw: sgrïwdreifar, morthwyl, cŷn, teclyn gafael, tyndro, sbaner, lefel saer, edefydd pibellau llaw, torrwr pibellau, llawlif, gefeiliau, teclyn plygu, tortsh fflamio, cyfarpar gwirio gwaith pibellau.
 Offer pŵer: dril pŵer, edefydd pibellau symudol, plygwr hydrolog.
- 2.3 Deunyddiau a meintiau pibellau a ddefnyddir mewn BSE
Ystod: copr, dur carbon isel (LCS), pibellau plastig (systemau oer, poeth a gwresogi).
- 2.4 Clipiau a bracedi a ddefnyddir mewn BSE.
Ystod: modrwyau munson, clipiau bwrdd-ysgol, clipiau plastig igam-ogam, clipiau hoelio ymlaen.
- 2.5 Ffitiadau a ddefnyddir mewn BSE
Ystod: cyplau, uniadau penelin a thro, cysylltwyr T deuben, cysylltwyr T lleihau, lleihawyr, press-fit.
- 2.6 Ffitiadau cyffredin ar gyfer gwaith pibellau.
Ystod: hoelion, sgrïws, plygiau plastig, bolltau ehangu.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod gwaith peiriannydd gwresogi domestig a phlymio a'u prif gyfrifoldebau cysylltiedig â gwaith. Byddant yn deall pwysigrwydd didoli a gwaredu gwastraff yn ddiogel yn unol â'r rheoliadau presennol a byddant yn gallu cydnabod pwysigrwydd deunyddiau cynaliadwy a rhai o ffynonellau moesegol.

2.2 Bydd dysgwyr yn gyfarwydd ag egwyddorion sylfaenol perchnogaeth offer, ansawdd yr offer a ddewiswyd i'w prynu, a pham mae cynnal a chadw offer yn bwysig, gan gynnwys diffygion fel madarchu. Tynnu sylw at 'elfennau sylfaenol' iechyd a diogelwch wrth weithio gydag offer llaw a phwysleisio'r risgiau diogelwch wrth ddefnyddio offer pŵer.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r offer llaw a phŵer nodweddiadol sydd i'w canfod ym mag offer plymwr. Byddant yn deall y berthynas ag iechyd a diogelwch a'r defnydd o offer llaw a phŵer.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod y byddant yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau pibellau yn ystod eu gweithgareddau bob dydd, a bydd hyn yn cael ei ddiffinio gan y gweithgaredd maen nhw'n ei wneud a'r amgylchedd lle mae'n cael ei wneud a bydd y deunyddiau hyn yn cynnwys:

- Copr
- Dur carbon isel
- Pibellau plastig.

Byddant yn deall y gwahanol fathau o ddeunyddiau a'u defnydd mewn systemau oer, poeth a gwres canolog.

2.4 Bydd dysgwyr yn deall, wrth gynnal gwaith pibellau, y gellir defnyddio amrywiaeth o glipiau a bracedi ac y byddant yn dibynnu ar y deunydd sy'n cael ei gynnal a'r defnydd ohono ac yn gallu rhoi enghreifftiau o'r clipiau a'r bracedi a'r gwahanol fathau o glipiau a bracedi a'u defnyddiau gwahanol, gan edrych ar y mathau o ddeunyddiau a sut y gall y rhain effeithio ar y dewis o glipiau a bracedi.

- Electrolysis
- Effeithiau cyrydol gwahanol ddeunyddiau (calch mewn plastr).

2.5 Bydd dysgwyr yn gyfarwydd â'r ffitiadau a nodwyd a sut mae'r rhain yn amrywio ar wahanol ddeunyddiau pibellau a sut mae'r rhain yn cael eu nodi wrth eu harchebu gan fasnachwr cyflenwi. Byddant hefyd yn gyfarwydd â'r ffitiadau a ddefnyddir i gysylltu pibellau â ffitiadau terfynell a ffitiadau a fydd yn addasu o un math o ddeunydd i fath arall.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis ffitiadau ar gyfer lluniad penodol a llunio amserlen ar gyfer y gwaith gosod.

Bydd dysgwyr yn gyfarwydd â'r ffitiadau sy'n cael eu defnyddio ar osodiadau dur carbon isel, gan gynnwys:

- Edafeddu.
- Cywasgu.

Bydd dysgwyr yn gyfarwydd â'r ffitiadau sy'n cael eu defnyddio ar bibellau plastig, gan gynnwys dŵr poeth ac oer, systemau gwresogi a glanweithdra (push fit, cywasgu, pwrpasol, sêl cylch, weldio toddyddion).

2.6 Bydd dysgwyr yn deall yn y sector BSE bod angen gosod offer, cydrannau a gwaith pibellau ar wahanol strwythurau ac arwynebau ac y bydd gofynion y gwaith gosod yn dibynnu ar bwysau'r offer y bwriedir eu gosod, y cydrannau neu'r pibellau a ddefnyddir, a'r strwythur neu'r arwyneb y caiff ei osod arno.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddyfeisiau gosod a nodwyd a'r gwahanol ddefnydd ar gyfer pob un a'r ffactorau sy'n effeithio ar eu defnydd, gan gynnwys:

- Sgriwiau a ffitiadau,
- Pen wedi'i slotio,
- Pen Phillips,
- Bolltau Coets Pozidrive,
- Rawlbolts,
- Bolltau ehangu.

Deiliant dysgu:

3. Gwybod beth yw'r gofynion ar gyfer cwblhau tasgau plymio a gwresogi cyffredin

Meini Prawf

- 3.1 Sut i fesur a marcio ar gyfer ffitiadau i bibellau a chydrannau plymio a gwresogi.
- 3.2 Ffynonellau gwybodaeth ar gyfer gwneud gwaith paratoi.
Ystod: rheoliadau, safonau'r diwydiant, cyfarwyddiadau technegol y gwneuthurwr, cynlluniau adeiladu, manylebau
- 3.3 Dulliau uniadu gwaith pibellau a ddefnyddir mewn gwaith BSE
Ystod: pibellau copr, modrwyau sodro a chysylltwyr copr, cywasgu (math a & b), push-fit, press-fit, pibellau dur carbon isel (LCS), edafog, weldiog, pibellau dur distaen, Press-fit, pibellau pwysedd plastig, push-fit, cywasgu, pwrpasol – copr ac MDPE.
- 3.4 Dulliau plygu gwaith pibellau a ddefnyddir mewn gwaith BSE.
Ystod: plygu copr â pheiriant, plygwr sbring copr, plygwr hydrolog LCS, pibellau pwysedd plastig.
- 3.5 Y gofynion ar gyfer gosod gwaith pibellau.
Ystod: pibellau parod, gosod pibellau yn y fan a'r lle, ffics cyntaf ac ail.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod pa offer a ddefnyddir i fesur a marcio, sut i farcio'n gywir ac yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer gosod cydrannau.
- 3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o ffynonellau gwybodaeth a sut maent yn berthnasol i'w gilydd, sut mae cael gafael ar y ffynonellau gwybodaeth hyn a pha wybodaeth sydd ynddynt.
- 3.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am dechnegau ar gyfer uniadu:
 - Pibell gopr i fanylebau
 - Pibell LCS i fanylebau
 - Pibell blastig i fanylebau.
 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd gweithio i safonau a goddefgarwch y diwydiant.
- 3.4 Bydd dysgwyr yn deall y bydd angen plygu'r pibellau wrth osod pibellau, byddant yn gwybod y gwahanol dechnegau plygu a manteision ac anfanteision pob math.
Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dimensiynau plygu'n cael eu cyfrifo ar gyfer pob dull o blygu a'r mathau o blygu a sut maen nhw'n cael eu gosod.
Bydd dysgwyr yn gwybod am dechnegau ar gyfer plygu
 - Pibell gopr
 - Pibell LCS
 - Pibell blastig.

Byddant yn deall pwysigrwydd gweithio i safonau a goddefgarwch y diwydiant.

- 3.5 Bydd dysgwyr yn deall beth mae 'paratoi pibellau parod' yn ei olygu o ran gosodiadau ar y safle ac yn gallu trafod manteision ac anfanteision gosod pibellau parod a gosod pibellau yn y fan a'r lle.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau gosod pibellau parod ar y safle ac yn gallu egluro'r broses o osod pibellau yn eu lle a sut mae hyn yn cymharu â phibellau parod.

Bydd dysgwyr yn gwybod y gwahaniaeth rhwng ffics cyntaf ac ail ffics a pham y byddai hyn yn cael ei wneud.

Deilliant dysgu:

4. Cynllunio a chwblhau tasgau plymio a gwresogi cyffredin

Meini Prawf

4.1 Cynllunio trefn y gwaith.

Ystod: amserlen, darluniau, manylebau, rhestr llafur a deunyddiau, gwybodaeth y gwneuthurwr, adnoddau, cyfarwyddiadau, datrys problemau, gwaith tîm.

4.2 Cyfrifo meintiau.

Ystod: mesuriadau llinellol, ffitiadau a chlipiau, lwfansau ar gyfer gwastraff.

4.3 Cofnodi'r gwaith.

Ystod: taflenni amser, taflenni gwaith, rhestr offer a deunyddiau, rhestr o fân problemau, cofnodi danfoniadau nwyddau.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 Bydd dysgwyr yn gallu dehongli'r gwahanol fathau o wybodaeth dechnegol i nodi a chynllunio trefn y gwaith yn effeithiol mewn perthynas â'r dasg.

4.2 Bydd dysgwyr yn gallu cyfrifo meintiau deunyddiau a lwfansau ar gyfer gwastraff gan ddefnyddio fformiwla. Byddant yn gallu nodi a dangos gwahanol ddulliau o gyfrifo arwynebedd, metrau ciwbig a mesuriadau llinol gyda lwfans canran ar gyfer gwastraff.

4.3 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y defnydd o wahanol ddogfennau a ddefnyddir i gofnodi ac amlinellu gwaith. Byddant hefyd yn gallu cwblhau'r dogfennau sy'n berthnasol i'r dasg.

Deilliant dysgu:

5. Cyflawni tasg gosod pibellau

Meini Prawf

5.1 Dilyn gweithdrefnau gweithio diogel.

Ystod: defnyddio PPE ac RPE priodol i'r dasg a'r amgylchedd gweithio, gweithio'n ddiogel (a thaclus) yn unol â'r asesiad risg, archwiliadau gweledol o offer pŵer, defnyddio offer a chyfarpar priodol yn ddiogel.

5.2 Mesur, marcio a thorri deunyddiau pibellau ar gyfer eu gosod.

Ystod: dim gwybodaeth ystod ar gyfer y maen prawf hwn.

5.3 Gosod gwaith pibellau'n gywir yn unol â'r fanyleb.

Ystod: pibellau copr, pibellau LCS, pibellau plastig.

5.4 Archwilio'r gwaith yn unol â'r fanyleb.

Ystod: dim gwybodaeth ystod ar gyfer y maen prawf hwn.

5.5 Dewis yr offeryn profi priodol a'r atodiadau cywir a'u paratoi ar gyfer eu defnyddio.

Ystod: dim gwybodaeth ystod ar gyfer y maen prawf hwn.

5.6 Cynnal y profion priodol.

Ystod: archwiliadau gweledol a phrawf gwirio sylfaenol.

5.7 Cofnodi canlyniad y prawf yn gywir.

Ystod: dim gwybodaeth ystod ar gyfer y maen prawf hwn.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

5.1 – 5.7 Drwy'r deilliant dysgu ymarferol hwn, bydd y dysgwyr yn defnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth a ddysgwyd drwy gydol yr uned hon mewn ffordd gyfannol. Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio a pharatoi ar gyfer y gweithgareddau gosod drwy lunio'r lluniadau a'r diagramau perthnasol. Bydd dysgwyr yn dehongli'r diagramau hyn ac yn dilyn gweithdrefnau gweithio diogel wrth gwblhau gwaith pibellau sy'n ymwneud â gweithgareddau uniadu a phlygu. Bydd dysgwyr wedyn yn gallu dilysu eu gwaith drwy archwilio a phrofi sylfaenol a chofnodi'r canlyniadau a llunio barn o'r canlyniadau.

Deiliant dysgu:

6. Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau plymio a gwresogi cyffredin

Meini Prawf

6.1 Gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant.

Ystod: ansawdd y gorffeniad, gweithio ar sail goddefiannau, gweithio i amserlenni, gweithio'n ddiogel.

6.2 Dadansoddi perfformiad.

Ystod: hunan-werthuso, gwerthuso gan gyd-fyfyrwyr, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith, graddio.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

6.1 Bydd dysgwyr yn adnabod safonau'r diwydiant a ddisgwylir yn y galwedigaethau plymio a gwresogi domestig a gwresogi ac awyru ac yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn effeithiol yn erbyn y safonau hyn. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n brydlon yn unol â'r amserlen a bennwyd.

6.2 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill. Bydd dysgwyr yn cydnabod y cyfle i wella eu perfformiad eu hunain drwy fesur eu cyflawniad a chytuno ar gynlluniau gweithredu.

Uned 114: Systemau ac offer electro-dechnegol

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw i ddysgwyr ddysgu am a chyflawni gwaith trydan sylfaenol. Bydd gan ddysgwyr gyfle i gynllunio, cyflawni a gwerthuso eu gwaith yn defnyddio gwahanol ddeunyddiau, dulliau a thechnegau ar gyfer cylchedau trydanol, gan gynnwys cylchedau goleuadau 1-ffordd a chylchedau rheiddiol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw pwrpas cylchedau trydanol cyffredin?
- Sut fathau o geblau a deunyddiau a ddefnyddir mewn gosodiadau trydanol?
- Beth yw'r peryglon sy'n gysylltiedig â thrydan?

Deiliant dysgu:

1. Deall egwyddorion sylfaenol gwaith electrodechnegol

Meini Prawf

1.1 Prif rolau a thasgau mewn gwaith electrodechnegol.

Ystod: domestig, masnachol, diwydiannol.

1.2 Prif egwyddorion cylched drydanol.

Ystod: ffynhonnell y cyflenwad (V), llif y cerrynt (D.C, A.C), atal gor-gerrynt, switsys, llwythi, dargludyddion, ynysyddion, ymwrthedd, cylchedau cyfresol a chyfochrog.

1.3 Y meintiau perthnasol mewn gwaith trydanol.

Ystod: meintiau trydanol; meintiau cyffredinol.

1.4 Defnyddio fformiwlâu i gyfrifo meintiau trydanol.

Ystod: foltedd, cerrynt, ymwrthedd, pŵer.

1.5 Prif nodweddion sut y mae trydan yn cael ei gynhyrchu, ei drawsyrnu a'i ddosbarthu

Ystod: dim gwybodaeth ystod ar gyfer y maen prawf hwn.

1.6 Prif ddogfennau'r diwydiant cysylltiedig â gwaith electrodechnegol.

Ystod: Rheoliadau Trydan yn y Gwaith, BS 7671, Canllaw Safle'r IET, nodiadau canllaw'r IET.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn dod i ddeall y rolau a'r tasgau sydd ar gael mewn galwedigaethau electrodechnegol.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion sylfaenol protonau, niwtronau ac electronau mewn perthynas â'u gwefr. Byddant yn gwybod bod cylchedau trydanol yn gweithio yn rhinwedd y 'llif' o electronau wedi'u gwefru'n negyddol, a llif cerrynt 'confensiynol' o +if i -if. Byddant yn gwybod pa fathau o ddeunyddiau sy'n gwneud dargludyddion da, a ynysyddion da. Sut mae cylchedau sylfaenol yn cael eu creu gyda ffynhonnell foltedd (gwahaniaeth posibl), cerrynt (A), gwrthsafiad (Ω), diogelwch gor-gerrynt, dargludyddion, switsh, a llwyth. Bydd ganddynt wybodaeth am gylchedau cyfres a chyfochrog sylfaenol, ymwrthedd a sut i wneud cyfrifiadau syml o'r meintiau hyn.

1.3 Bydd hyn yn cynnwys:

Meintiau trydanol:

- potensial trydanol: Volt (V)
- ymwrthedd: Ohm (Ω)
- cerrynt: Ampere (A)
- pŵer: Watt (W).

Symiau cyffredinol:

- hyd: Metr (M)

- arwynebedd: Metr sgwâr (M^2).

1.4 Bydd dysgwyr yn gallu gwneud cyfrifiadau (gan ddefnyddio cyfrifiannell wyddonol) gan ddefnyddio'r fformiwlâu perthnasol ar gyfer Cyfraith Ohm, a gwrthsafwyr mewn cyfres a chyfochrog (mewn cyfuniad sylfaenol).

1.5 Bydd dysgwyr yn gwybod bod gosodiadau fel arfer yn cael eu cyflenwi â cherrynt am yn ail a'r folteddau sydd ar gael mewn gosodiadau cyffredin, fel anheddau, a gosodiadau masnachol 230 V un cam a 400 V tri cham. Byddant yn cael trosolwg o'r mathau o ddulliau cynhyrchu.

1.6 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw prif ddogfennau'r diwydiant sy'n gysylltiedig â gwaith electrodechnegol, eu pwrpas a'u defnydd.

Deiliant dysgu:

2. Deall prif egwyddorion cylchedau safonol

Meini Prawf

2.1 Cylchedau goleuo

Ystod: trefniadau, cydrannau, polaredd.

2.2 Cylchedau 'pŵer'.

Ystod: trefniadau, cydrannau, polaredd.

2.3 Y systemau atal gor-gerrynt a gwarchodaeth rhag beiau daearu a ddefnyddir ar gylchedau safonol.

Ystod: ffiwsys, torwyr cylched, dyfeisiau cerrynt gweddilliol.

2.4 Y rheswm dros rannu gosodiad trydanol yn gylchedau.

Ystod: dim gwybodaeth ystod ar gyfer y maen prawf hwn.

2.5 Prif egwyddorion cylchedau safonol.

Ystod: dim gwybodaeth ystod ar gyfer y maen prawf hwn.

2.6 Pwysigrwydd dargludyddion diogelu a daearu.

Ystod: dim gwybodaeth ystod ar gyfer y maen prawf hwn.

Deilliannau dysgu (manylder y cynnwys)

2.1 Trefniadau; unffordd, dwyffordd, a chanolradd.

Cydrannau: gwarchodaeth rhag gor-gerrynt, mathau o switshis, a phwyntiau goleuo a lampau (GLS traddodiadol, LED, Fflwroleuol), blychau uniadu, newidyddion (a 'gyrwr').

Polaredd yn unol â BS 7671/ IET Canllaw ar y Safle

Bydd dysgwyr yn dod yn gyfarwydd ag edrychiad ffisegol cydrannau gan gynnwys y gwahanol switshis cyffredin: unffordd, dwyffordd a chanolradd; a gyrwr, pylwyr. Byddant yn adnabod y ffiwsiau arferol, y torwyr cylchedau (CBs) a'r dyfeisiau cerrynt gweddilliol (RCD) sy'n cael eu defnyddio gyda chylchedau domestig.

2.2 Trefniadau: cylchedau terfynol cylch a therfynol rheiddiol.

Cydrannau: gwarchodaeth rhag gor-gerrynt, socedi, SFCU, FCU, a blychau uniadu.

Polaredd yn unol â BS 7671/ IET Canllaw ar y Safle

Bydd dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â chylchedau ar gyfer cyflenwi socedi ac unedau cysylltu ac unedau cysylltu â ffiws (gyda switsh a heb switsh) yn unol â BS 1363. Byddant yn gwybod ac yn gallu dehongli diagram cylched a gwifrau cylched terfynol rheiddiol a chylched cylch terfynol. Byddant yn gallu pennu nifer y pwyntiau, a nifer y sbardunau â ffiws a heb ffiws mewn perthynas â socedi, a'r gofynion ar gyfer sbardunau. Byddant yn gwybod y ffordd y mae sbardunau'n cael eu cyflawni (e.e. o flwch uniadu, soced ac ati). Byddant yn gwybod y

wybodaeth allweddol o'r canllaw IET ar y Safle mewn perthynas â chylchedau terfynol sy'n cyflenwi socedi.

Bydd dysgwyr yn dod yn gyfarwydd ag edrychiad ffisegol y cydrannau a ddefnyddir mewn cylched safonol sy'n cyflenwi socedi domestig.

2.3 Bydd dysgwyr yn adnabod y ffiwsiau arferol, y torwyr cylchedau (CBs) a'r dyfeisiau cerrynt gweddilliol (RCD) sy'n cael eu defnyddio gyda chylchedau domestig arferol.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gofynion allweddol BS 7671 yng nghyswllt rhannu cylchedau mewn gosodiad. Byddant yn cydnabod anfantais rhai anheddau hŷn o fod ag 1 cylched ar gyfer socedi. Byddant hefyd yn gwerthfawrogi gorlwytho.

2.5 Bydd dysgwyr yn gallu dewis ceblau a maint dargludydd gan ddefnyddio'r canllaw IET ar y Safle (neu'r canllaw i drydanwyr) i bennu'r wybodaeth berthnasol.

2.6 Bydd dysgwyr yn cael trosolwg o ddaearu a bondio amddiffynnol, dargludyddion diogelu cylchedau, y prif ddargludyddion bondio amddiffynnol, y dargludydd daearu, a'r dargludyddion bondio amddiffynnol atodol. Byddant yn cael gwybodaeth sylfaenol am ddiogelwch y dargludyddion hyn.

Deiliant dysgu:

3. Deall systemau weirio, cyfarpar a chydrannau a ddefnyddir mewn gosodiadau trydanol

Meini Prawf

3.1 Y mathau o geblau a ddefnyddir mewn gosodiadau trydanol.

Ystod: nodweddion, defnyddiau, manteision, cyfyngiadau.

3.2 Nodweddion, defnyddiau, manteision a chyfyngiadau systemau amgylchu diffiniedig.

Ystod: cwndid (PVC a metelaidd), tiwbiau (PVC a metelaidd) a hambwrdd ceblau.

3.3 Dulliau ffitio a sicrhau cyffredin ar gyfer ceblau a'u cyfyngu i wead yr adeilad.

Ystod: bwrdd plastr, parwydydd, waliau ais a phlastr, deunyddiau seramig, gwaith cerrig, concriid, brics, pren a metel.

Deilliannau dysgu (manylder y cynnwys)

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw priodweddau, defnyddiau, manteision a chyfyngiadau:

- Un cebl craidd (senglau),
- Cebl aml-graidd wedi'i inswleiddio (fflecs),
- Cebl PVC/PVC proffil fflat (deuol a daear),

a bod yn ymwybodol o MICC a chebl sy'n gwrthsefyll tân, cebl SWA, a chebl data.

3.2 Bydd dysgwyr yn dod i werthfawrogi'r mathau o systemau cyfyngu a weirio sy'n cael eu defnyddio mewn gosodiadau trydanol ynghyd â'u prif fanteision a'u defnydd a'u cyfyngiadau. Byddant yn gwybod y gwahanol fathau o osodiadau trydanol a'r prif resymau dros ddefnyddio'r mathau o systemau cyfyngu a weirio ynddynt.

3.3 Bydd dysgwyr yn cael gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddyfeisiau gosod a sicrhau a ddefnyddir ar gyfer gwahanol ddefnyddiau adeiladau.

Deilliant dysgu:

4. Gwybod sut i gynllunio tasgau electrodechnegol cyffredin

Meini Prawf

4.1 Cynllunio trefn waith.

Ystod: Ystod: amserlen, rhestr deunyddiau, diagram cylchedau, diagram weirio, asesiad risg, datganiad dull.

4.2 Dehongli ffynonellau gwybodaeth perthnasol i hwyluso'r gwaith gosod.

Ystod: Manyleb y gosodiad, diagram cylchedau, diagram weirio, diagram gosod allan, darluniau/ cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 – 4.2 Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio cyfarpar a systemau weirio gosodiad gan ddefnyddio dull rhesymegol a diogel. Byddant yn gallu cynhyrchu asesiad risg syml a datganiad dull i'w galluogi i gyflawni gweithgareddau gosod yn ddiogel.

Deiliant dysgu:

5. Cwblhau tasgau cyffredin ar gyfer gosodiad trydanol

Meini Prawf

5.1 Gweithdrefnau gweithio diogel.

Ystod: dewis PPE priodol, dilyn yr asesiad risg, dilyn camau ynysu diogel.

5.2 Offer a chyfarpar.

Ystod: lefel saer, tâp mesur, offer llaw sylfaenol.

5.3 Dulliau ar gyfer gosod, terfynu a chysylltu ceblau a dargludyddion.

Ystod: cebl un-craidd (senglau), cebl aml-graidd wedi'i inswleiddio (fflecs), cebl PVC / PVC proffil fflat (deuol a daear).

5.4 Gosod cyfarpar a systemau weirio.

Ystod: cwndid, tiwbiau, cyfarpar ac atodiadau.

5.5 Technegau a dulliau ar gyfer terfynu a chysylltu ceblau.

Ystod: cebl un-craidd (senglau), cebl aml-graidd wedi'i inswleiddio (fflecs), cebl PVC / PVC proffil fflat (deuol a daear)

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

5.1 – 5.5 Bydd dysgwyr yn ennill sgiliau llaw hanfodol i wneud gwaith gosod trydanol ymarferol yn ddiogel. Byddant yn gallu archwilio offer cyn eu defnyddio, eu defnyddio'n briodol a'u gadael mewn cyflwr diogel ar ôl eu defnyddio (gan gynnwys eu storio'n gywir). Bydd dysgwyr yn gallu gosod, terfynu a chysylltu'r ystod o geblau fel y nodir.

Canlyniad dysgu

6. Deall y dulliau o werthuso perfformiad

Meini Prawf

6.1 Archwilio'r gwaith yn unol â'r fanyleb.

Ystod: dim gwybodaeth ystod ar gyfer y maen prawf hwn.

6.2 Profi cylchedau wedi eu dad-egnio.

Ystod: dewis offer ac atodiadau, parhad, ymwrthedd inswleiddiad, polaredd, profion gweithredol, cofnodi canlyniadau

6.3 Gwerthuso yn erbyn safonau gosodedig.

Ystod: gweithio ar sail goddefiannau, gallu gweithio i amserlenni, gweithio'n ddiogel.

6.4 Dadansoddi perfformiad.

Ystod: hunan-werthuso, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

6.1 Bydd dysgwyr yn gallu cynnal archwiliadau o'u gwaith gorffenedig, gan gynnwys terfynu a chysylltu dargludyddion a cheblau, a gosod a diogelu cyfarpar yn unol â'r fanyleb. Byddant yn gallu adnabod safonau derbyniol sylfaenol a pham fod y safonau hyn yn bwysig.

6.2 Bydd dysgwyr yn gallu dewis a defnyddio'r offer profi priodol ac arwain mewn ffordd ddiogel. Byddant yn cynnal profion ar gyfer parhad, ymwrthedd inswleiddiad, a pholaredd yn eu gwaith gorffenedig ac yn cofnodi canlyniadau'r prawf yn briodol. Byddant yn gwybod beth yw canlyniadau disgwylidig y prawf er mwyn gwneud penderfyniadau o'r profion a gwblheir.

6.3 Bydd dysgwyr yn adnabod y safonau a ddisgwylir mewn gwaith gosod trydanol ac yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn effeithiol yn erbyn y safonau hyn. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n brydlon yn unol â'r amserlen ac mewn ffordd ddiogel.

6.4 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill. Bydd dysgwyr yn cydnabod y cyfle i wella eu perfformiad eu hunain drwy hunan-werthuso drwy ddangos sgiliau myfyrio allweddol wrth adolygu'r camau a'r drefn sydd eu hangen i gynllunio, paratoi, cyflawni a chwblhau tasgau gwaith coed. Byddant hefyd wedyn yn pwysu a mesur eu harferion ac yn tynnu sylw at feysydd i'w datblygu.

Uned 115: Gweithrediadau Peiriannau

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn ennill profiad o waith peiriannau.

Bydd dysgwyr yn dysgu sgiliau ar gyfer cynllunio a chyflawni gwaith peiriannau gan ddangos eu sgiliau ymarferol a chreadigol. Fel rhan o greu gosodiad, bydd dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu gweithio ar eu liwt eu hunain a/neu fel rhan o dîm.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy ofyn cwestiynau iddynt eu hunain fel:

- Beth yw cyfrifoldebau gwaith gweithiwr peiriannau?
- Pa fathau o beiriannau a ddefnyddir mewn adeiladu?
- Sut y byddaf yn gallu dod i weithredu peiriannau?
- Sut y gallaf ddefnyddio fy sgiliau yn y diwydiant adeiladu?

Deilliant dysgu:

1. Deall yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer gweithio fel Gweithiwr Peiriannau er mwyn gallu cwblhau tasgau cyffredin

Meini Prawf

1.1 Deall sut fath o waith adeiladu sydd angen Peiriannau, cyfarpar a gwaith peiriant i'w gwblhau.

Ystod: Gwaith: Gwaith pridd, Tyllu, Adeiladu ffyrdd, Cywasgu, Llwythi

Peiriannau: peiriannau tyllu 180, 360, Peiriannau tele-handler, Dympars, Rholwyr Ffordd, Rholiwr Llwybrau, Platiau Dirgrynu, Malwyr Hydrolig, Offer Aer, Cywasgwyr, Pympiâu Diaffram Sengl / Dwbl.

1.2 Gofynion sgiliau, Trwyddedau gweithredu, systemau gweithio'n ddiogel sy'n briodol i dasgau peiriannau cyffredin ar gyfer adeiladu.

Ystod: Gofynion trwydded, deddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n briodol i'r math o beiriannau a ddefnyddir. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) sy'n briodol i'r mathau o beiriannau a ddefnyddir.

1.3 Adnabod Peryglon Posibl.

Ystod: Gwasgu, Rwbwl yn hedfan, Mygdarthau o dywallt tanwydd, Sŵn, Dirgrynu, Halogi'r amgylchedd.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am brosiectau adeiladu, rhaglenni gwaith, peiriannau a fyddai'n cael eu defnyddio ar wahanol gamau o'r gwaith adeiladu.

1.2-1.3 Dylai dysgwyr allu nodi pa hyfforddiant fyddai ei angen yn ogystal â'r trwyddedau y bydd eu hangen i ddefnyddio'r peiriannau a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu. Byddant yn deall pwysigrwydd gweithio i safonau'r diwydiant.

Dylai dysgwyr allu nodi'r deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol: Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Systemau atal yn unol ag asesiadau risg, Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER), Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (MHSWA), Rheoliadau CDM, Rheoliadau Rheoli Dirgrynu yn y Gwaith, HSG150, asesiadau risg, datganiadau dull, codau ymarfer a deddfwriaeth berthnasol arall, cyfarpar diogelu personol a'r rhesymau dros ei ddefnyddio wrth weithio gyda pheiriannau adeiladu.

Deilliant dysgu:

2. Deall y gofynion ar gyfer cwblhau tasgau peiriannau

Meini Prawf

2.1 Adnabod y peiriannau a'r atodiadau ar beiriannau a chyfarpar a ddefnyddir mewn adeiladu.

Ystod: peiriannau tyllu 180, 360, Peiriannau tele-handler, Dympars, Rholiwr Ffordd, Rholiwr Llwybrau, Platiau Dirgrynu, Malwyr Hydrolog, Offer Aer, Cywasgwyr, Pympiâu Diaffram Sengl / Dwbl.

Peiriannau ac Atodiadau: Platiau Dirgrynu, Rholiwr Llwybrau, Malwyr Hydrolog, Offer Aer, Cywasgwyr, Pympiâu Diaffram Sengl / Dwbl.

2.2 Gwybod sut i wneud archwiliadau cyn-dechrau o beiriannau a chyfarpar a ddefnyddir mewn adeiladu.

Ystod: gwiriadau ar: Archwiliadau o bwysedd teiars, Tanwydd, Olew, Dŵr, Hylifau hydrolog, Mannau iro, arwyddion o draul.

2.3 Gwybod sut i adnabod diffygion a beiau a chofnodi'r wybodaeth a'r goblygiadau posibl os na wneir hynny.

Ystod: archwilio mathau o beiriannau, archwiliadau cyn dechrau, profi gan ddilyn llenyddiaeth y gwneuthurwr, traul mecanyddol, rheolyddion a mesuryddion diffygiol, cyfarpar diogelu.

Peiriannau ac Atodiadau: Platiau Dirgrynu, Rholiwr Llwybrau, Malwyr Hydrolog, Offer Aer, Cywasgwyr, Pympiâu Diaffram Sengl / Dwbl

2.4 Gwybod sut i wneud archwiliadau ôl-weithredu o beiriannau a chyfarpar a ddefnyddir mewn adeiladu.

Ystod: Archwiliadau o: Platiau Dirgrynu, Rholiwr Llwybrau, Malwyr Hydrolog, Offer Aer, Cywasgwyr, Pympiâu Diaffram Sengl / Dwbl, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod peiriannau a ble byddent fel arfer yn cael eu defnyddio mewn adeiladu a sut gellid eu defnyddio; a byddant hefyd yn gallu adnabod a dewis y math mwyaf priodol.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw archwilio peiriannau cyn dechrau eu defnyddio, a pha lenyddiaeth a chyfarwyddiadau i'w dilyn.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am dechnegau ar gyfer archwilio, a dylid pwysleisio y dylent bob amser archwilio offer a roddwyd iddynt a rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion. Rhoi gwybod ar unwaith, a dim ond trwsio os cafwyd awdurdod i wneud hynny a dim ond os yw'n gymwys ac wedi cael hyfforddiant.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am dechnegau i ddiffodd y peiriant yn unol â chyfarwyddiadau'r sefydliad a'r gwneuthurwr. Sicrhau bod dealltwriaeth gadarn ynglŷn â pham y dylid gadael y peiriant yn ddiogel ar dir gwastad cadarn, tynnu'r allwedd neu'r modd o'i gychwyn, glanhau'r

sgip yn ôl yr angen, ail-lenwi â thanwydd (os yw'n berthnasol), ac archwilio am ddiffygion.
Gadael y peiriant yn saff a diogel.

Deiliant dysgu:

3. Cwblhau tasgau gweithredu peiriannau

Meini Prawf

- 3.1 Dod yn gyfarwydd â'r peiriannau a'r cyfarpar gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
Ystod: Peiriannau: Rholiwr Llwybrau, Platiau Dirgrynu, Malwyr Hydrolig, Offer Aer, Cywasgwyr, Pympiâu Diaffram Sengl / Dwbl.
- 3.2 Gweithredu peiriannau i gwblhau tasgau gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
Ystod: Peiriannau: Platiau Dirgrynu, Rholiwr Llwybrau, Malwyr Hydrolig, Offer Aer, Cywasgwyr, Pympiâu Diaffram Sengl / Dwbl.
- 3.3 Adnabod, cofnodi ac adrodd diffygion wrth weithredu peiriannau.
Ystod: Difrod: traul mecanyddol, rheolyddion a mesuryddion diffygiol, cyfarpar diogelu
- 3.4 Cwblhau archwiliadau ôl-weithredu o beiriannau a chyfarpar a ddefnyddir mewn adeiladu.
Ystod: Archwiliadau o: Platiau Dirgrynu, Rholiwr Llwybrau, Malwyr Hydrolig, Offer Aer, Cywasgwyr, Pympiâu Diaffram Sengl / Dwbl, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- 3.5 Storio peiriannau a'u cael yn barod i'w hail-ddefnyddio a chwblhau gwaith adrodd / cofnodi difrod neu ddiffygion.
Ystod: Peiriannau ac Atodiadau: Platiau Dirgrynu, Rholiwr Llwybrau, Malwyr Hydrolig, Offer Aer, Cywasgwyr, Pympiâu Diaffram Sengl / Dwbl
Adrodd yn ôl: Cadw cofnodion, gwasanaethu yn ôl y gofynion
Storio: Dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a chanllawiau ymarfer gorau, cadw'r amgylchedd weithio'n lân a diogel.

Deiliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 3.1 Dylai dysgwyr allu dehongli'r gwahanol fathau o wybodaeth dechnegol i nodi a chynllunio trefn y gwaith yn effeithiol mewn perthynas â'r dasg.
- 3.2 Dylai dysgwyr allu dilyn cyfarwyddiadau a chyflawni a chwblhau tasgau gan ddefnyddio peiriannau.
- 3.3 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod diffygion sylfaenol wrth weithredu peiriannau. Byddant yn nodi pan nad yw'r peiriant yn gweithio fel y dylai, ac yn gwybod y camau sylfaenol i'w cymryd i ganfod y nam, adrodd yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac atal y peiriant rhag cael ei ddefnyddio (os yw'n berthnasol).
Dylai dysgwyr allu adnabod y defnydd o wahanol ddogfennau a ddefnyddir i gofnodi ac amlinellu gwaith. Dylent hefyd allu cwblhau'r dogfennau sy'n berthnasol i'r dasg.
Dylai dysgwyr ddilyn canllawiau Arferion Gorau ac lechyd a Diogelwch, rheoliadau amgylcheddol cyfredol a rheoliadau diogelwch perthnasol ac amgylchedd gweithio diogel.
- 3.4 Mae'n rhaid i ddysgwyr allu diffodd y peiriant yn unol â'r cyfarwyddyd ac yn unol â chyfarwyddiadau'r sefydliad a'r gwneuthurwr. Gadael y peiriant yn ddiogel ar dir gwastad cadarn, tynnu'r allwedd neu'r modd o'i gychwyn, glanhau'r sgip yn ôl yr angen, ail-lenwi â thanwydd (os yw'n berthnasol), ac archwilio am ddiffygion. Gadael y peiriant yn saff a diogel.

3.5 Bydd dysgwyr yn gallu storio'r peiriant ar ôl ei ddefnyddio gan sicrhau ei fod yn ddiogel ac wedi'i storio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, a'i archwilio'n derfynol cyn ei storio'n ddiogel.

Deilliant dysgu:

4. Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau peiriannau cyffredin

Meini Prawf

4.1 Gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant.

Ystod: ansawdd y gorffeniad, gweithio ar sail goddefiannau, gweithio i amserlen, gweithio'n ddiogel.

4.2 Dadansoddi perfformiad.

Ystod: hunan-werthuso, gwerthuso gan gyd-fyfyrwyr, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith, graddio.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1 Dylai dysgwyr adnabod safonau'r diwydiant a ddisgwylir yn y maes gweithrediadau peiriannau a gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn effeithiol yn erbyn y safon hon. Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n brydlon yn unol â'r amserlen a bennwyd.

4.2 Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill. Dylai dysgwyr gydnabod y cyfle i wella eu perfformiad eu hunain drwy fesur eu cyflawniad a chytuno ar gynlluniau gweithredu.

Uned 116: Teilsio waliau a lloriau

Lefel:	2
Oriau Dysgu dan Arweiniad:	140

Gwybodaeth am yr uned

Pwrpas yr uned hon yw i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o fewn y diwydiant teilsio waliau a lloriau.

Bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i'r cyd-destun y mae teilsywyr waliau a lloriau yn gweithio, a'r amrywiaeth o ddeunyddiau, offer, cyfarpar ac adnoddau a ddefnyddir wrth deilsio waliau a lloriau. Bydd dysgwyr yn cael profiad ymarferol o waith gosod a gorffen yn gysylltiedig â theils waliau a lloriau.

Bydd angen i ddysgwyr allu deall gwybodaeth dechnegol er mwyn cynllunio ac ymgymryd ag ystod o weithgareddau teilsio waliau a lloriau. Bydd hyn yn cynnwys paratoi cefndiroedd, gosod allan, cyfrifo meintiau deunyddiau, torri, gosod a gorffen teilsio waliau a lloriau.

Mae'r uned yn cyflwyno arferion gweithio diogel i ddysgwyr yn ogystal â'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol o fewn yr amgylchedd teilsio waliau a lloriau.

Gellir cyflwyno'r uned hon drwy ofyn cwestiynau, fel:

- Beth yw'r gofynion ar gyfer gosod gwahanol fathau o deils waliau a lloriau?
- Sut mae teils waliau a lloriau yn wahanol? Sut maen nhw'n cael eu gosod a'u gorffen, a pham?
- Pam fod angen i ni ddysgu am nodweddion gwahanol gefndiroedd?
- Pa sgiliau fydd angen i mi eu dysgu i ddod yn deilsiwr waliau a lloriau medrus?
- Pam fod iechyd a diogelwch yn bwysig?

Deiliant dysgu:

1. Deall yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer gwaith teilsiwyr waliau a lloriau

Meini Prawf

1.1 Rôl y teilsiwyr waliau a lloriau.

Ystod: gwaith cynllunio, gosod allan, torri, diogelu arwynebau, paratoi cefndiroedd, cymysgu deunyddiau, defnyddio a gosod deunyddiau teilsio, trin a storio deunyddiau ac ategolion, gwaredu gwastraff, ystyriaethau amgylcheddol, arferion gweithio diogel.

4.4 Y mathau o gefndiroedd a ddefnyddir ar gyfer gosod teils waliau a lloriau.

Ystod: ardaloedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, defnydd o gypswm, defnydd o sment, coed (lloriau).

1.3 Y mathau o ddeunyddiau a ddefnyddir mewn teilsio waliau a lloriau.

Ystod: teils ceramig, teils porslen, addurn plastig, adlynion (cymysgedd parod a phowdr), growt smentaidd (cymysgedd parod a phowdr), preimwyr, cyfrwng bondio, cyfansoddion lefelu/llyfnu, deunydd selio a philenni datgysylltu.

1.4 Y math o offer a chyfarpar a ddefnyddir mewn gweithgareddau teilsio waliau a lloriau.

Ystod: paratoi, gosod allan, cymysgu, defnyddio, gosod, gorffen, glanhau.

1.5 Y mathau o ddillad a chyfarpar diogelu personol sy'n cael eu defnyddio wrth deilsio waliau a lloriau.

Ystod: het galed, masg llwch/anadlu, amddiffyniad llygaid, amddiffyniad clustiau, festiau llachar, menig, eli rhwystrol, padiau pen-glin, esgidiau diogelwch, oferôls, dillad diogelwch.

1.6 Deddfwriaeth allweddol.

Ystod: HASWA, RIDDOR, COSHH, PUWER.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

1.1 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod rôl teilsiwyr waliau a lloriau a'u prif gyfrifoldebau ar bob cam wrth gyflawni amrywiaeth o dasgau cysylltiedig. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y gwahanol sgiliau sydd eu hangen ym meysydd gwahanol y sector teilsio waliau a lloriau. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y gwahanol ddulliau o gael gwared â deunyddiau teilsio waliau a lloriau yn gywir yn unol â'r deddfwriaeth bresennol.

1.2 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y gwahanol fathau o arwynebau cefndir a'r dulliau, systemau a deunyddiau gwahanol y gellir eu defnyddio i osod teils waliau a lloriau.

1.3 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r gwahanol fathau o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o weithgareddau teilsio waliau a lloriau.

1.4 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod offer a chyfarpar teilsio waliau a lloriau gan gynnwys:

- offer llaw: torrwr teils â llaw, trywel teilsio (deintiog, trywel fesur/bwced), cylllyll trimio olwyn ar gyfer teils/cylllyll trimio, gwn selio, llif teils, morthwyl(iau), carreg carborwndwm/bloc rhwbio, mynawydau, plocyn meitro, lefel saer, cŷn, ffeiliau, offer trimio, haclifiau, sgridwreifar, cylllyll â

llafn gudd, tâp mesur/pren mesur, llinell sialc, ymyl syth, sgwaryn, gwesgi, fflôt growtio, fflôt sbwng, crafwr

- offer pŵer: torrwr teils trydanol, padl a dril cymysgu, dril diwifr
- offer ategol: sbwng, rholer a hambwrdd, brwshys, estyll sefydlogi/pren mesur, hoelion/sgriwiau, cadachau sgleinio, bwcedi, cymhorthion symud a thrin a gorchuddion gwarchodol.

1.5 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r dillad a'r cyfarpar diogelu personol perthnasol sy'n cael eu defnyddio wrth deilsio waliau a lloriau.

1.6 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r ddeddfwriaeth allweddol sy'n ymwneud â chreffft teilsio waliau a lloriau. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o HASWA, RIDDOR, COSHH a PUWER, a'u cyfrifoldeb o ran cydymffurfio â nhw.

Deilliant dysgu:

3 Gwybod beth yw'r gofynion o ran paratoi ar gyfer gwaith teilsio waliau a lloriau

Meini Prawf

2.1 Paratoi'r mannau cymysgu a gweithio ar gyfer teilsio waliau a lloriau.

Ystod: dŵr, trydan, awyru, ardal wastraff, gosod man gweithio, offer llaw, offer pŵer ac ategolion, cyfarpar glanhau, gorchuddion gwarchodol.

2.2 Paratoi deunyddiau ac adnoddau ar gyfer teilsio waliau a lloriau.

Ystod: teils, addurn, adlynyon, growt, deunyddiau ategol.

2.3 Paratoi offer a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer teilsio waliau a lloriau.

Ystod: offer llaw ac offer wedi'i bweru, cyfarpar ategol.

2.4 Paratoi'r cefndiroedd a ddefnyddir ar gyfer gosod teils waliau a lloriau.

Ystod: ardaloedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, defnydd o gypswm, defnydd o sment, coed (lloriau).

2.5 Deunyddiau a ddefnyddir i ddiogelu ardaloedd cyfagos.

Ystod: gorchuddion gwarchodol, tâp gwarchodol, bordiau gwarchodol.

Deilliannau cyflawni (manyllder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r dulliau paratoi, yr offer a'r deunyddiau ar gyfer paratoi mannau cymysgu a gweithio yn briodol, yn barod ar gyfer cymysgu adlyn a growt.

2.2 Bydd dysgwyr yn gallu disgrifio nodweddion deunyddiau ac adnoddau gan gynnwys:

- teils ceramig
- teils porslen
- addurn plastig
- adlynyon (cymysgedd parod a phowdr)
- growt smentaidd (cymysgedd parod a phowdr)
- preimwyr
- cyfrwng bondio
- cyfansoddion lefelu/llyfnu
- deunydd selio
- pilenni datgysylltu.

2.3 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r ystod o offer a chyfarpar wrth baratoi i ymgymryd â gweithgareddau teilsio waliau a lloriau, fel y rhestrir yn 1.4.

2.4 Bydd dysgwyr yn gallu nodi amrywiaeth o ddulliau ar gyfer paratoi arwynebau cefndir gwahanol yn briodol. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd cydnawsedd rhwng y cefndir a'r deunyddiau a roddir arno. Byddant yn gallu adnabod nodweddion arwyneb, hy sych, gwastad, anhwylyg, union a sgwâr, unionsyth, lefel a soled.

2.5 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r gwahanol ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio i ddiogelu'r ardaloedd cyfagos. Deunyddiau gwarchodol i gynnwys y canlynol:

- tâp masgio safonol
- taflenni llwch cotwm a pholythen
- tarpolin
- plastig gwrymiog
- bwrdd amddiffynnol a bwrdd caled.

Deiliant dysgu:

3. Cynllunio ar gyfer cwblhau tasgau teilsio waliau a lloriau

Meini Prawf

3.1 Cynllunio trefn y gwaith.

Ystod: amserlen, lluniadau, manyleb, gwybodaeth y gwneuthurwr, data cynnyrch technegol, rhaglen deunyddiau, adnoddau, cyfarwyddiadau, datrys problemau, gwaith tîm ac asesiad risg/datganiadau dull.

3.2 Cyfrifo meintiau.

Ystod: mesur arwynebedd, mesuriadau llinellol, lwfansau ar gyfer gwastraff.

3.3 Storio deunyddiau a chhydrannau.

Ystod: cylchdroi stoc, oes silff, gwarchod, cyfyngiadau, hwylustod mynediad ac adnabod, cludo, mathau o ddeunyddiau.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 3.1 Bydd dysgwyr yn gallu dehongli'r gwahanol fathau o wybodaeth dechnegol i gynllunio a gosod allan dilyniant y gwaith yn effeithiol mewn perthynas â'r dasg. Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio technegau datrys problemau cyffredin i sicrhau bod modd cyflawni tasgau'n effeithiol ac yn effeithlon.
- 3.2 Bydd dysgwyr yn gallu cyfrifo meintiau deunyddiau a lwfansau ar gyfer gwastraff ac yn gallu nodi a defnyddio gwahanol ddulliau o gyfrifo ardaloedd a mesuriadau llinol.
- 3.3 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod pwysigrwydd storio amrywiaeth o deils waliau a lloriau a deunyddiau adeiladu a chhydrannau yn gywir er mwyn osgoi diffygion. Deunyddiau a chhydrannau i'w cynnwys: rhydd, mewn bag, mewn blwch, dalennau, hyd, deunyddiau wedi'u rholio, cynwysyddion ac ategolion.

Deilliant dysgu:

4. Ymgymryd â thasgau teilsio waliau a lloriau

Meini Prawf

4.1 Defnyddio offer, cyfarpar a deunyddiau.

Ystod: offer llaw a phŵer, offer ategol, teils, addurn, adlynion, growt, deunyddiau ategol

4.2 Paratoi cefndiroedd.

Ystod: defnyddio preimwyr a deunydd selio, sicrhau cefndiroedd, gwirio cefndiroedd.

4.3 Gosod allan ar gyfer teilsio waliau a lloriau.

Ystod: mesur, cyfrifo, offer.

4.4 Rhoi amrywiaeth o deils waliau a lloriau'n sownd.

Ystod: mesur, marcio, sgwario, lleoli a gosod gwahanol fathau/meintiau o deils, torri teils, gosod a lefelu addurn a philen datgysylltu.

4.5 Defnyddio adlynion.

Ystod: gosod, dulliau glynu a thechneg creu rhychau.

4.6 Gorffen i safonau ansawdd.

Ystod: defnyddio growt/deunydd selio silicon priodol.

4.7 Cynnal amgylchedd gwaith diogel.

Ystod: glanhau, a chynnal a chadw'r ardal waith, glanhau offer a chyfarpar, gwaredu deunyddiau gwastraff, peryglon.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

4.1-4.7 Bydd dysgwyr yn gallu cyflawni a chwblhau tasgau sy'n ymwneud â theilsio waliau a lloriau yn effeithiol ac yn ddiogel, gan gynnwys paratoi, defnyddio adlyn neu growt, gosod a gorffen yn unol â'r lluniadau, y fanyleb, safonau'r diwydiant a'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan ddefnyddio'r offer, y cyfarpar a'r deunyddiau priodol. Deunyddiau i gynnwys y canlynol:

- teils cerameg a phorslen (wal a llawr)
- adlynion a growt (cymysgedd parod a phowdr)
- ategolion: addurn (ymyl, ongl a deunydd selio), gwahanydd teils.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio bod cefndiroedd arwyneb yn wastad, yn anhyblyg, yn unionsyth ac yn lân.

Bydd dysgwyr yn gallu pennu pwyntiau gosod allan, gwneud cyfrifiadau sylfaenol a gwirio dimensiynau gan ddefnyddio offer a chyfarpar gwahanol gan gynnwys sgwaryn adeiladwr, lefel saer, ymyl syth, ffon fesur ar gyfer alinio ac amrywiadau o ran maint teils.

Bydd dysgwyr yn gallu gweithio'n gyfrifol ac yn ddiogel i gynhyrchu'r safon briodol o waith yn unol â'r safonau a manylebau gofynnol.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal man gweithio glân a diogel ac adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â gwaith gan sicrhau eu bod yn cadw at wybodaeth berthnasol o ffynonellau fel taflenni data, asesu risg, llenyddiaeth y gwneuthurwr. Byddent yn gallu adnabod arwyddion a hysbysiadau, defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol a thechnegau codi a chario.

Deilliant dysgu:

5. Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau teilsio waliau a lloriau

Meini Prawf

5.1 Gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant.

Ystod: ansawdd y gwaith gosod a defnydd, gweithio ar sail goddefiannau, gallu gweithio i amserlen benodol, a diogelwch.

5.2 Dadansoddi perfformiad.

Ystod: hunan-werthuso, trafodaeth lafar, adborth ysgrifenedig, ansawdd y gwaith.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

- 5.1 Bydd dysgwyr yn adnabod safonau'r diwydiant a ddisgwylir yn y maes crefft teilsio waliau a lloriau ac yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn erbyn y safonau hyn. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cwblhau tasgau'n brydlon ac yn unol â'r amserlen ac mewn ffordd ddiogel.
- 5.2 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd hunan-werthuso eu perfformiad wrth gwblhau tasgau gwaith a chael adborth gan eraill. Bydd dysgwyr yn cydnabod y cyfle i wella eu perfformiad eu hunain drwy hunan-werthuso drwy ddangos sgiliau myfyrio allweddol wrth adolygu'r camau a'r drefn sydd eu hangen i gynllunio, paratoi, cyflawni a chwblhau tasgau teilsio waliau a lloriau. Bydd dysgwyr hefyd yn pwysu a mesur eu harferion ac yn tynnu sylw at feysydd i'w datblygu.